# RHYBUDD O GYFARFOD

***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Iwan Jones***
***Prif Weithredwr Dros Dro***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2024 |
| **Amser:** | 10.00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru***
*Mr. Brian Angell, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde – Thompson, Ms. Delyth Lloyd, Swydd Wag.*

## R H A G L E N

**Rhifau Tudalen**


1.* **Cadeirydd**
Ethol Cadeirydd y Pwyllgor.

2.* **Is-gadeirydd**
Ethol Is Gadeirydd y Pwyllgor.

3. **Ymddiheuriadau**
Derbyn ymddiheuriadau gan yr Aelodau.

4. **Datgan diddordeb**
Derbyn datganiadau diddordeb gan yr Aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem.

5. **Cofnodion** **3 - 9**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth.

6. **Taflen Gweithredu** **10 - 12**
Cyflwyno'r Daflen Gweithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)

7. **Llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru** **13 - 20**
Cyflwyno ymateb draft yr Awdurdod. (Copi yma)

8. **Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2023/24** **21 - 38**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)

9. **Proffil Risg yr Awdurdod** **39- 50**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

10. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2023: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** **51 - 79**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu. (Copi yma)

11. **Adroddiad Monitro Cwynion** **80 - 84**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma)

12. **Datganiad Polisi Tâl 2024-25 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl 2023-24** **85 - 90**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. (Copi yma)

13. **Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2023** **91 - 177**
Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant. (Copi yma)

14. **Adroddiad Adlewyrchu Cynllun yr Wyddfa** **178 - 199**
Cyflwyno adrioddiad gan Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa


* Tynnir eich sylw at orchymyn sefydlog 5.8 sy'n datgan "Ni fydd unrhyw Aelod yn gwasanaethu fel Cadeirydd neu Is Gadeirydd mwy nac un Pwyllgor".

**EITEM RHIF 5**

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
**DYDD MERCHER 20 MAWRTH 2024**

Cynghorydd Elfed Powell Roberts (Gwynedd) (Cadeirydd)

***YN BRESENNOL***:

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, June Jones, Einir Wyn Williams, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Tracey Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd;

**Swyddogion**
Emyr Williams, G. Iwan Jones, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Bethan Hughes, Nia Murray, Anwen Gaffey;

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Annwen Hughes, Louise Hughes, John Pughe Roberts;
Sarah Hattle, Naomi Luhde-Thompson;
Jonathan Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
    1) Mynegodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, werthfawrogiad a diolch i'r swyddogion a fu'n rhan o drefnu'r Diwrnod Datblygu Aelodau a fu'n ddiddorol ac yn addysgiadol iawn.
    2) Nododd y Cadeirydd hefyd fod Tracey Evans yn mynychu ei chyfarfod olaf fel Aelod o Lywodraeth Cymru, ac ar ran yr Aelodau diolchodd iddi am ei gwaith gan gyfleu dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

2. **Datgan Budd**
   Datganodd Mr. G. Iwan Jones ddiddordeb yn eitem 14 ar y Rhaglen a gadawodd y cyfarfod tra roedd y mater yn cael ei drafod.

3. **Cofnodion**
   Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Log Gweithredu**
   Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 12.07.23

- Eitem Gweithredu 11 – Rhaglen Waith Gorfforaethol 2022/23 – Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant
  Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y Cam Gweithredu wedi'i gwblhau ac y gellid bellach ei ddileu o'r Log Gweithredu.

- Eitem Gweithredu 7 – Adroddiad Incwm – Archwiliad Cymru
  Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cwblhau'r profforma cyn belled ag y gallai, ond gan ei fod yn dal i aros am gyfeiriad strategol gan Lywodraeth Cymru ar y lefel dderbyniol o risg, mae'r profforma yn parhau i fod yn anghyflawn. Roedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro hefyd yn aros am y canllawiau, na ddisgwylir am ddau neu dri mis arall. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n diweddaru'r profforma cyn gadael cyflogaeth yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu a dileu'r cam gweithredu fel yr amlinellwyd.**

5. **Diweddariad ar y Gyllideb 2023/24**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i hysbysu'r aelodau o drosglwyddiadau sylweddol o fewn cyllideb y flwyddyn ariannol gyfredol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad, a oedd yn crynhoi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer unarddeg mis cyntaf 2023/24 ac yn rhoi rhagamcan o sefyllfa'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nododd yr Aelodau fod paragraff 1.7 o'r adroddiad yn cadarnhau'r grant ychwanegol o £1.2 miliwn a ddyrannwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phwysau cyllidebol. Bydd y cyllid ychwanegol hwn nawr yn galluogi'r Awdurdod i gario incwm meysydd parcio ac ati drosodd, i fynd i'r afael â diffygion cyllidebol posibl yn 2024/25.

Yn codi wedi hynny, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'n cyflwyno adroddiad ar gyllid yr Awdurdod am y tair blynedd nesaf i gyfarfod nesaf y Gweithgor Aelodau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol gyfredol ar gyfer 2023/24.**

6. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i ddiweddaru'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r proffil risg a dywedodd na fu unrhyw newidiadau i'r gofrestr ers iddi gael ei chyflwyno ddiwethaf i'r Aelodau. Gofynnodd i'r Aelodau ystyried ychwanegu risg ychwanegol 'Cadernid y Tîm Rheoli' i'r Gofrestr Risg gan fod hyn eisoes wedi'i nodi fel risg yn Log Gweithredu'r Awdurdod. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r risg yn cynnwys recriwtio Prif Weithredwr newydd a'r trosiant personél posibl yn yr Uwch Dîm Rheoli.

Risg Cyf. 2 Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch), a Risg Cyf. 16 Sicrhau dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch
Yn codi wedi hynny, cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i gyfuno'r ddau Risg ar gyfer Plas Tan y Bwlch i adlewyrchu penderfyniadau cyfredol a chynnwys mwy o fanylion megis y risg i enw da'r Awdurdod, y risgiau ariannol, risgiau i'r adeilad ei hun, goblygiadau staffio ac ati.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r adroddiad a'r Gofrestr Risg.**
2. **cyfuno Risg Cyf. 2 a Risg Cyf. 16 fel yr amlinellwyd.**
3. **cynnwys 'Cadernid y Tîm Rheoli' fel risg ychwanegol ar y Gofrestr Risg.**

7. **Adroddiad Diweddaru ar Gyllid Grant Allanol**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod a chadarnhau blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir yn fanwl a nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn mynd yn fyrrach wrth i brosiectau ddod i ben. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod ar ddechrau trydedd flwyddyn rhaglen cyllid cyfalaf TCLIC, ac yn dilyn trafodaethau diweddar gyda'r Gweinidog, roedd wedi cael sicrwydd y byddai estyniad tair blynedd i'r cynllun. Yn dilyn trafodaethau gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru ar y pwysau ariannol ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, maent wedi cytuno mewn egwyddor i ddarparu tua £280k o gyllid cyfalaf, gyda'r gweddill i'w ddefnyddio'n benodol ar gyfer Datgarboneiddio ac Adfer Natur. Yn codi wedi hynny, nododd y Prif Weithredwr y bydd rhai o'r prosiectau mwy yn cael eu cwblhau yn y blynyddoedd nesaf a bod angen buddsoddi amser swyddogion i ddatblygu prosiectau newydd. Nododd yr aelodau mai Prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yr Awdurdod oedd y mwyaf yn Ewrop.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r prosiectau a ariannwyd gan gyfalaf 2022 – 2025.**
2. **nodi'r amrywiadau yn y prosiectau a ariennir gan Dirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (para. 2.4)**
3. **nodi'r diweddariad ar brosiectau a ariennir gan Systemau Rheoli Cynaliadwy (para. 3.3)**
4. **nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 1).**
5. **cadarnhau'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol (Atodiad 2).**
6. **nodi'r Siart Llif Cymeradwyo Aelodau (Atodiad 3).**

8. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2023-24**
Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol (Hydref – Rhagfyr 2023) a chwarter pedwar (Ionawr – Mawrth 2024) lle mae'r wybodaeth ar gael.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol a rhoddodd fanylion pellach am fformat yr adroddiad.

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

**Amgylcheddau Cadarn**
Gwella Rheolaeth Hamdden ac unrhyw Effeithiau Negyddol Hamdden

- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y cynhelir gwerthusiad ffurfiol i asesu goblygiadau materion cynaliadwyedd ymwelwyr, gan gynnwys prosiect Yr Wyddfa Di-blastig.
- cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod swyddogion yn ymwybodol o'r oedi wrth gynhyrchu strategaeth ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau troed a chanllawiau ar gyfer gwneud gwaith ar lwybrau mynediad yn Eryri. Roedd y Diwrnod Datblygu Aelodau wedi darparu adborth defnyddiol ac roedd swyddogion yn anelu at gwblhau'r gwaith hwn yn y chwarter olaf.

**Cymunedau Cadarn**
Hyrwyddo a Chefnogi'r Iaith Gymraeg yn Weithredol

- mewn ymateb i gwestiwn, adroddodd y Prif Weithredwr yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod i ddefnyddio'r enwau Cymraeg ar gyfer Yr Wyddfa ac Eryri, y cytunwyd i ganiatáu cyfnod o 2 flynedd i hyn wreiddio. Dywedodd y Prif Weithredwr fod swyddogion, pan fydd y Senedd yn adolygu pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, wedi cyflwyno cais i dderbyn defnydd ffurfiol o'r enw Cymraeg yn unig, ac y byddai'r logo a'r brandio ac ati yn cael eu hadolygu bryd hynny. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r Awdurdod yn parhau i annog y defnydd o'r enw Cymraeg a Saesneg, fel ffordd o leihau'r defnydd o enwau Saesneg yn unig. Bu hon yn ymgyrch lwyddiannus, a fabwysiadwyd gan y cyfryngau a sefydliadau eraill, a oedd wedi dilyn arweiniad yr Awdurdod. Gofynnodd yr Aelod i'r swyddogion ystyried gwthio ymhellach a darparu canllawiau i'w defnyddio gan staff ac aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

9. **Rhyddid Gwybodaeth**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar geisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad, er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad, er gwybodaeth.**

10. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024/28.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad a'r cefndir a dywedodd fod rhai mân newidiadau wedi'u gwneud i'r Amcanion Cydraddoldeb yn dilyn yr ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ffurfiol ar gyfer 2024-28.**

11. **Ap 'Lles 360'**

Derbyniwyd – Adroddiad llafar gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd – Darparodd y Pennaeth Adnoddau Dynol fanylion yr Ap 'Lles 360' i'r Aelodau, yr oedd yr Awdurdod wedi'i sicrhau ar gyfer rhoi mynediad i'w holl weithwyr at 'Raglen Estynedig Cymorth i Weithwyr', yn rhad ac am ddim, o ganlyniad uniongyrchol i'w cyflogaeth gyda'r Awdurdod. Roedd hwn wedi bod ar gael i staff ers Haf 2023 ac roedd bellach yn cael ei ymestyn i gynnwys Aelodau'r Awdurdod a'u teuluoedd a oedd yn aelodau o'u haelwyd. Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol yn cysylltu â'r Aelodau gyda rhagor o fanylion ar sut i gael mynediad i'r 'ap Lles 360' ac yn rhoi cod personol iddynt.

Mae Gwasanaethau ap 'Lles 360' yn cynnwys:-

- Gwasanaethau Meddygon Teulu Ar-lein - 24 awr, 365 diwrnod trwy 'Health Hero' - mynediad diderfyn i gysylltu â gwasanaethau meddyg teulu trwy fideo neu dros y ffôn. Mae'r meddygon teulu hyfforddedig yn darparu'r un gwasanaeth ag y byddech yn ei dderbyn gan eich meddyg teulu arferol sy'n cynnwys ysgrifennu presgripsiynau y gallwch eu casglu fel arfer yn eich fferyllfa leol (sydd am ddim yng Nghymru).
- Gostyngiadau mewn Siopa ar y Stryd Fawr - gallai teulu arbed dros £1,000 y flwyddyn.
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl - gyda llinell gymorth iechyd meddwl - 24 awr, 365 diwrnod - Sesiynau cwnsela diderfyn yn Gymraeg neu Saesneg.
- 'MyMindPal' - Defnyddir hwn i helpu i gadw'ch meddwl yn iach a mynd i'r afael â heriau a threialon bywyd. Gellir defnyddio'r 'ap' i greu trefn ymarfer corff 5 munud y dydd i gynyddu positifrwydd, lleihau lefelau straen a helpu i ddod yn ôl at eich hun yn dilyn cyfnodau anodd bywyd.
- Chwaraeon a Ffitrwydd - Ymarferion ar-lein gyda 'Les Mills' ac enwogion eraill yn darparu sesiynau ffitrwydd a gwybodaeth yn ogystal â myfyrdod ac Ioga. (sy'n cysylltu â'ch dyfeisiau iechyd fel Apple Watch a Fitbit)
- Gwybodaeth a Chymorth Perimenopos a Menopos - 'Canolfan Menopos Ar-lein OMC' - Canolfan Menopos Ar-lein sy'n cynnig gwybodaeth am symptomau a chymorth gyda'r perimenopos a'r menopos.
- Cefnogaeth i Ofalwyr - Gwasanaeth Cefnogaeth Gofal ac Anghenion Arbennig, trwy 'Grace Consulting' - I ddarparu arweiniad pan fyddwch angen dod o hyd i ofal ar gyfer aelodau oedrannus o'r teulu neu gefnogaeth i blentyn sy'n wynebu heriau oherwydd anghenion arbennig.
- Cyngor Cyfreithiol drwy un o gwmnïau cyfreithiol mwyaf y DU, 'Irwin Mitchell' - Cymorth cyfreithiol a llinell gymorth - 24 awr, 365 diwrnod.
- Cyngor Ariannol trwy 'Auriga' a 'Ask Bill' - Yn darparu cyngor arbenigol ar les a dyled, cynilo, trefnu biliau, newid tariffau ac ati.
- Total Motor Assist – AM DDIM am 12 mis yn eich diogelu os ydych mewn damwain nad oedd yn fai arnoch chi.
- Gweithlyfrau Hunangymorth - Mynediad am ddim at ystod eang o lyfrau gwaith hunangymorth sy'n cynnig cyngor ac arweiniad ar amrywiaeth o bynciau.
- Profion Sgrinio Iechyd Llygaid Cartref gan Ocushield – Profwch eich llygaid mewn llai na 7 munud gyda dulliau arloesol newydd o gynnal profion sgrinio (drwy ffôn symudol, tabled neu liniadur).
  Mae sgrinio llygaid ar-lein Ocushield yn profi eich iechyd llygaid cyffredinol i ddarganfod yn gyflym a oes angen i chi drefnu apwyntiad gydag optegydd.
  • Gallwch wirio newidiadau i'ch golwg neu ragnodion posibl
  • Prawf stigmateiddio, maes gweledol a sensitifrwydd cyferbyniad
  • Aseswch eich golwg lliw a chanfyddiad o ddyfnder

Yn codi wedi hynny, trafododd yr Aelodau gost y gwasanaeth i'r Awdurdod a nododd swyddogion bwysigrwydd monitro'r hyn a ddarperir. Mae'r 'ap' wedi'i gynnwys fel budd staff ychwanegol at ddibenion recriwtio.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ac aros am y manylion pellach, fel yr amlinellwyd.**

12. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**
Cyflwynwyd – Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023.

Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion er gwybodaeth. Yn codi wedi hynny, ac mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau:-

- rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ddiweddariad byr i'r Aelodau ar y cynnydd hyd yma a chadarnhaodd y byddai'r Rheolwr Eiddo yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Tîm Rheoli.
- cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Plas Tan y Bwlch yn eiddo 'Rhydd-ddaliadol' ym mherchnogaeth yr Awdurdod yn unig. Cytunodd i edrych ymhellach ar y gweithredoedd i dawelu pryderon yr Aelodau a chadarnhaodd hefyd fod y broblem gyda gwenyn bellach wedi cael sylw priodol.
- cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i gadarnhau gyda'r Rheolwr Eiddo y byddai'r holl fesurau er budd diogelwch yn cael eu cwblhau, ar ôl amnewid y seiffon yng Nghronfa Ddŵr Llyn Mair, a bydd y gronfa ddŵr yn y cyflwr gorau posibl yn barod ar gyfer unrhyw benderfyniadau ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion, er gwybodaeth.**

13. **Adroddiad Cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau**
Cyflwynwyd – Adroddiad cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr 2024.

Cyflwynodd Cadeirydd y Grŵp Rheoli Asedau'r adroddiad, er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

14. **Proses Recriwtio Prif Weithredwr APCE (Swyddog y Parc Cenedlaethol).**
Derbyniwyd – Diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr / Pennaeth Adnoddau Dynol ar faterion sydd wedi codi ynglŷn â’r drefn benodi.

Yn codi wedi hynny, ac yn unol â Rheol Sefydlog 7.8 (Cynigion sy'n Effeithio ar Swyddogion), gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ystyried gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn trafod y mater yn llawn.

**PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod.**

Adroddwyd – Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n aros yn y cyfarfod gan fod y penderfyniad eisoes wedi'i wneud, roedd hwn bellach yn fater gweithredol.

Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol ddiweddariad llafar yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod ar 6 Mawrth 2024, pan benderfynodd yr Aelodau mai Opsiwn B oedd yr opsiwn a ffefrir. Yn sgil trafodaethau manwl gyda'r Uwch Dîm Rheoli, roedd yr

opsiwn hwn wedi'i wrthod oherwydd capasiti annigonol i gyflawni ac mai Opsiwn C diwygiedig fyddai'r opsiwn a ffefrir.

Trafododd yr Aelodau'r materion a godwyd yn fanwl a chytunwyd:-

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r trafodaethau manwl a diwygio Opsiwn C i ddarparu strwythur dros dro / interim fel yr opsiwn recriwtio a ffefrir ar gyfer penodi Prif Weithredwr parhaol i'r Awdurdod.**
2. **awdurdodi'r Pennaeth Adnoddau Dynol i drafod yr opsiwn diwygiedig ymhellach gyda'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn sicrhau parhad busnes.**
3. **bod y Pennaeth Adnoddau Dynol yn cyflwyno adroddiad manwl pellach i gyfarfod nesaf yr Awdurdod ar 24ain Ebrill 2024 yn amlinellu'r ffordd ymlaen.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45**

**EITEM RHIF 6**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 14.07.2021

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 9. Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri | **PENDERFYNWYD ailgyflwyno drafft cynnar o Strategaeth Carbon Isel Eryri i'r Panel Craffu yn ddiweddarach yn 2021 / dechrau 2022.** | Y Cyfarwyddwr Rheoli Tir i goladu'r materion a drafodwyd i mewn i un Strategaeth Carbon Isel Eryri. | JC | Trafodwyd Strategaeth Carbon Isel Drafft gan Grŵp Llywio Cyfrif Carbon a'i chyflwyno i'r Aelodau yn ystod cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod ar 12 Mehefin 2024. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y camau gweithredu sy'n ofynnol yn yr adolygiad o'r CDLl a Chynllun Eryri ochr yn ochr ag arweinyddiaeth ac eiriolaeth yr Awdurdod nawr ei fod wedi ymrwymo â'r fenter "Ras i Sero". Mabwysiadodd yr Aelodau'r Strategaeth fel y'i cyflwynwyd. | **IA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 12.07.2023

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru | **PENDERFYNWYD aros am adroddiad ar ddull strategol o arallgyfeirio i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol tua diwedd 2023 / dechrau 2024.** | Y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli i baratoi adroddiad. | PW | Adroddiad cynnydd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Tachwedd '23. Aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar arallgyfeirio incwm yn dilyn adroddiad 3 APC ar Arallgyfeirio Incwm gan Archwilio Cymru. Cyflwynwyd adroddiad penodol ar reolaeth Plas Tan y Bwlch i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac fe'i hystyriwyd yn ffurfiol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 7 Chwefror 2024. | **NA** |

TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 29.11.2023**

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 8. Arallgyfeirio Incwm | **PENDERFYNWYD gohirio rhagor o waith ar A1 nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac wedi mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ar eu cyfer yn Adroddiad Archwilio Cymru.** | Y Prif Weithredwr i aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno adroddiad maes o law. | PW | Mae swyddogion wedi cwblhau rhestr wirio hunanasesu. | |

**EITEM RHIF 7**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD:** | 10 Gorffennaf, 2024 |
| **TEITL:** | **LLYWODRAETHU AWDURDODAU PARCIAU CENEDLAETHOL: ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU** |
| **AWDUR:** | Prif Weithredwr Dros Dro |
| **PWRPAS:** | Aelodau i drafod a chymeradwyo “Ymateb y Sefydliad” ar yr adroddiad uchod |

1. **CEFNDIR:**

1.1 Yn ystod cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin, cyflwynwyd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i’r Aelodau ynghyd â drafft o’r ffurflen “Ymateb Sefydliadol” (Atodiad 1) er gwybodaeth a thrafodaeth.

2. Gofynnir yn awr i’r Aelodau gymeradwyo’r ymateb drafft.

# Ffurflen ymateb sefydliadol
# Organisational response form

Archwilio Cymru
Audit Wales

**Adroddiad/Report:** Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol | Audit Wales || Governance of National Park Authorities | Audit Wales

**Dyddiad cwblhau/Completion date:**

| | Argymhelliad<br><br>Recommendation | Ymateb y sefydliad<br>Nodwch unrhyw sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion<br><br>Organisational response<br>Please set out here relevant commentary on the planned actions in response to the recommendations | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd bydd y camau gweithredu wedi'u cwblhau<br><br>Completion date<br>Please set out by when the planned actions will be complete | Swyddog cyfrifol (teitl)<br><br>Responsible officer (title) |
|---|---|---|---|---|
| R1 | **Cynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl**<br>A1 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu gwendidau yn y Cymorth a'r canllawiau parhaus a ddarperir i aelodau a benodwyd<br>gan Lywodraeth Cymru. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod APCau a Llywodraeth Cymru'n cydweithio<br>er mwyn: | Mae'r Awdurdod yn gwerthuso anghenion datblygu holl o'r aelodau yn aml. Yn Dilyn o hyn mae rhaglen cefnogi yn cael ei darparu i'r holl aelodau. Mae'r Awdurdodau yn cynnal seminar i aelodau ar lefel Cymru yn flynyddol. Mae cyfleoedd eraill ar lefel D.U. ac Ewropeaidd ar gael i aelodau. | Parhaus. | Cyfarwyddwr Corfforaethol. |

| | Argymhelliad<br><br>Recommendation | Ymateb y sefydliad<br>Nodwch unrhyw sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion<br><br>Organisational response<br>Please set out here relevant commentary on the planned actions in response to the recommendations | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd bydd y camau gweithredu wedi'u cwblhau<br><br>Completion date<br>Please set out by when the planned actions will be complete | Swyddog cyfrifol (teitl)<br><br>Responsible officer (title) |
|---|---|---|---|---|
| | • cytuno ar y cymorth a'r canllawiau a fydd yn cael eu rhoi i aelodau o APCau;<br>• cytuno pa elfennau o'r cymorth hwn a'r canllawiau hyn fydd yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru a pha rai y bydd APCau yn gyfrifol amdanynt; a<br>• chyfleu hyn yn eglur i aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. | Byddem yn parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru er galluogi hyfforddiant thematic i'r holl aelodau. | | |
| R2 | **Sicrhau bod enwebiadau ar gyfer aelodau'n cefnogi llywodraethu da** | Nid yw'r rhain yn faterion sydd yn rheolaeth yr Awdurdod. Pwynt gweithredu ar gyfer | Dim yn berthnasol ir Awdurdod | |

| Argymhelliad<br><br>Recommendation | Ymateb y sefydliad<br>Nodwch unrhyw sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion<br><br>Organisational response<br>Please set out here relevant commentary on the planned actions in response to the recommendations | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd bydd y camau gweithredu wedi'u cwblhau<br><br>Completion date<br>Please set out by when the planned actions will be complete | Swyddog cyfrifol (teitl)<br><br>Responsible officer (title) |
|---|---|---|---|
| A2 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu diffyg eglurder ac anghysondeb o ran sut y mae aelodau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yn cael eu henwebu i eistedd ar APCau.<br>Mae hefyd yn amlygu diffyg amrywiaeth ymhlith aelodau o APCau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol. I helpu i fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod APCau yn gweithio gyda CLlLC a Llywodraeth Cymru i:<br>• adolygu pa un a yw'r protocol ar gyfer enwebiadau'n dal i fod yn addas ar gyfer y diben; | WLGA, Awdurdodau lleol unigol a Llywodraeth Cymru yw'r rhain. Bydd yr Awdurdod yn fodlon cyfrannu at unrhyw adolygu/craffu ar hyn os bydd yn cael gwahoddiad i wneud hynny. | | |

| | Argymhelliad<br><br>Recommendation | Ymateb y sefydliad<br>Nodwch unrhyw sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion<br><br>Organisational response<br>Please set out here relevant commentary on the planned actions in response to the recommendations | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd bydd y camau gweithredu wedi'u cwblhau<br><br>Completion date<br>Please set out by when the planned actions will be complete | Swyddog cyfrifol (teitl)<br><br>Responsible officer (title) |
|---|---|---|---|---|
| | • codi ymwybyddiaeth o'r protocol a sut y gall gefnogi enwebiadau; a<br>• hybu ei ddefnydd ymhlith awdurdodau lleol perthnasol. | | | |
| R3 | **Gwella atebolrwydd ar gyfer aelodau**<br>A3 I ddarparu sicrwydd ynghylch cyfraniad aelodau at lywodraethu APCau, ac i helpu i oleuo'r ddarpariaeth hyfforddiant a datblygiad yn y dyfodol, rydym yn argymell | Edrych ymlaen at gynorthwyo Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau lleol ar hyn. | Amserlen yn nwylo Llywodreath Cymru a Awdurdodau lleol | |

| Argymhelliad<br><br>Recommendation | Ymateb y sefydliad<br>Nodwch unrhyw sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion<br><br>Organisational response<br>Please set out here relevant commentary on the planned actions in response to the recommendations | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd bydd y camau gweithredu wedi'u cwblhau<br><br>Completion date<br>Please set out by when the planned actions will be complete | Swyddog cyfrifol (teitl)<br><br>Responsible officer (title) |
|---|---|---|---|
| bod Llywodraeth Cymru, APCau ac awdurdodau lleol sy'n rhan ohonynt yn cydweithio i ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer pob aelod o APCau sydd:<br>• yn gwerthuso eu cyfraniad at yr APC; ac<br>• yn gallu cael ei ddefnyddio i dargedu cymorth a datblygiad i alluogi aelodau o APCau i fod yn effeithiol yn eu rôl.<br>Adolygu | | | |

| | **Argymhelliad**<br><br>**Recommendation** | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch unrhyw sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion<br><br>**Organisational response**<br>Please set out here relevant commentary on the planned actions in response to the recommendations | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd bydd y camau gweithredu wedi'u cwblhau<br><br>**Completion date**<br>Please set out by when the planned actions will be complete | **Swyddog cyfrifol (teitl)**<br><br>**Responsible officer (title)** |
|---|---|---|---|---|
| R4 | **Adolygu pa un a yw'r model yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd**<br>A4 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu gwendidau yn y modd y rhoddir y model llywodraethu ar waith a sut y mae'r materion hyn yn codi cwestiynau ynghylch ei addasrwydd. I sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben ac yn adlewyrchu'r heriau arbennig a gwahanol y<br>mae pob APC yn eu hwynebu rydym yn argymell, o fewn y graddfeydd amser ar gyfer dynodi parc cenedlaethol | Nid yw'r adroddiad yn amlygu unrhyw wendidau o ran Llywodraethiant, mae pryderon cyffredin sydd yn cael ei rhannu gan sawl corff cyhoeddus yn cael eu hamlygu sef diffyg adnoddau er cyflawni, dim diffygion yn Llywodraethiant yw hyn ond her.<br>Nid oes unrhyw dystiolaeth resymegol wedi ei gyflwyno yn yr adroddiad yma am yr angen i newid a paham nad yw'r drefn Llywodraeithiant dim yn addas i bwrpas. Mae sawl adroddiad wedi dod i'r casgliad bod y drefn Llywodraethiant presennol, yn | Dim yn berthnasol. | |

| | **Argymhelliad**<br><br>**Recommendation** | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch unrhyw sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion<br><br>**Organisational response**<br>Please set out here relevant commentary on the planned actions in response to the recommendations | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd bydd y camau gweithredu wedi'u cwblhau<br><br>**Completion date**<br>Please set out by when the planned actions will be complete | **Swyddog cyfrifol (teitl)**<br><br>**Responsible officer (title)** |
|---|---|---|---|---|
| | newydd, bod Llywodraeth Cymru'n adolygu'r model llywodraethu ar gyfer APCau. | rhoi'r cydbwysedd angenrheidiol er rheoli lleoedd arbennig a bregus.<br>Mae'r adroddiad wedi methu cyfle i edrych ar faterion Llywodraethant strategol e.e. Effeithiolrwydd adran 62(2) o'r ddeddf yn cefnogi amcanion Parciau Cenedlaethol, gallu APC i fasnachu a gallu APC i reoli Adnoddau naturiol o fewn ei ffiniau. Siomedig iawn fel trosolwg o Lywodraethant. | | |

**EITEM RHIF 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** |
| **DYDDIAD** | **10fed o Orffennaf 2024** |
| **TEITL** | **ADRODDIAD ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2023/24** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Prif Swyddog Cyllid** |
| **PWRPAS** | **i. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb, trosglwyddiadau arian, a'r arian a gariwyd ymlaen o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn yr adroddiad.**<br>**ii. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf.**<br>**iii. Rhoi ystyriaeth i'r perfformiad adrannol gyda golwg ar reolaeth gyllidebol.**<br>**iv. Cymeradwyo'r newidiadau a argymhellir i'r cronfeydd wrth gefn.** |

**1. CYD-DESTUN**

1.1 Mae sefyllfa ariannol derfynol y gwasanaethau am 2023/24 yn cadarnhau fod yr Awdurdod wedi llwyddo i gadw o fewn y cyfyngiadau ariannol. Roedd pryder yn ystod y flwyddyn byddai'r Awdurdod yn gwynebu diffyg yn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn, ond gyda chymorth grant ddaeth i law gan Llywodraeth Cymru yn hwyr yn y flwyddyn, llwyddodd yr Awdurdod i osgoi'r canlyniad yma.

1.2 Mae'r Awdurdod yn anelu i gwblhau ac awdurdodi'r datganiad cyfrifon o fewn yr amserlen estynedig a awgrymir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, oherwydd oedi yn archwilio ac ardystio cyfrifon 2021/22, a 2022/23 mae Archwilio Cymru wedi nodi na fydd yr adnoddau ganddynt i gychwyn archwiliad 2023/24 tan wedi diwedd y flwyddyn galendr. Gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2023/24 (a throsglwyddiadau ariannol perthnasol), fel rhan o'r drefn cynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol (sydd i'w hardystio gan y Prif Swyddog Cyllid, a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod).

**1.3** Dylid nodi y gall rhai ffigyrau yn yr adroddiad hwn gael eu haddasu yn ystod y drefn o gau'r cyfrifon a bod yr holl ffigyrau yn ddarostyngedig i archwiliad. Nid oes terfyn amser penodol wedi ei osod ond bydd yr Awdurdod yn anelu i lunio cyfrifon drafft erbyn Gorffennaf 31. Adroddir ymhellach i'r Awdurdod ar unrhyw addasiadau sylweddol a wneir yn y datganiad o gyfrifon ac yn dilyn cwblhau'r archwiliad arnynt.

## 2 GRANTIAU A DDERBYNIWYD YN 2023/24

2.1 Ym mis Mawrth 2024, derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru o ddarpariaeth cymorth grant ychwanegol i'r Awdurdod am gyfanswm o £2,067,300 yn cynnwys £1,205,000 o arian refeniw a £862,300 o aran cyfalaf. Roedd telerau'r grant ychwanegol yn caniatáu gwariant ar waith adfer Hafod Eryri, mynd i'r afael ac ôl-groniadau cynnal a chadw cyfalaf, ac er mwyn dileu y diffyg gweithredu. Roedd gwerth £1.3m or swm ar gael er mwyn disodli gwariant o ffynonellau nad ydynt yn rai trysoredig, er mwyn defnyddio yr arbedion hyn i gau neu dileu y diffyg yn 2024/25.

2.2 Yn ogystal â'r grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru bu'r ail hawliad am arian T.C.Ll.C 2022/23 - 2024/25 yn llwyddiannus, a hynny am gyfanswm o £800,000. Mae'r arian yma yn cynnwys elfennau cyfalaf yn o gystal â refeniw ar ffurf gyfradd o arian ar gyfer gweinyddu'r grantiau a chyfraniad tuag at amser staff i gyflawni'r gwaith.

2.3 Bu cynllyn tair mlynedd a gytunwyd ar y cyd rhwng Parciau Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn parhau. Mae'r cynllun werth £200,000 i'r Awdurdod gyda hawliad llwyddiannus unwaith eto yn ystod 2023/24 er mwyn ariannu Swyddog Adfer Natur a Dal a Storio Carbon o fewn yr Awdurdod.

2.5 Ym mis Hydref 2023, derbyniwyd cadarnhad bod yr Awdurdod wedi derbyn dyfarniad grant gwerth cyfanswm o £617,346.89 gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar gyfer prosiect Llefydd Lleol i Natur 2023-25. Mi oedd gwerth £332,945 or swm yma yn berthnasol i 2023/24, ar gweddill i'w wario yn 2024/25. Prif bwrpas y prosiect hwn yw i gynyddu mynediad i natur ar draws Eryri.

## 3. AMLINELLIAD O SEFYLLFA DERFYNOL Y CYFRIFON

3.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cymhariaeth, ar lefel maes gwasanaeth, rhwng y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf yr oedd yr Awdurdod wedi cyllidebu ar eu cyfer, a'r gwariant terfynol gwirioneddol ar gyfer 2023/24

3.2 Cyfanswm gwariant net y flwyddyn oedd £4,674,970 sef £3,218,775 o dan y gyllideb net ddiwygiedig o £7,871,333. Mae hyn yn adlewyrchiad o incwm grant ychwanegol dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gwerth £2,067,300 yngyd ac incwm ychwanegol prosiectau megis Llefydd Llefydd Lleol i Natur, prosiect Ymylon Eryri, a hefyd incwm Maesydd Parcio sydd wedi rhagori ar y gyllideb unwaith eto eleni. Mae atodiad 3 yn nodi y trosglwyddiadau angenrheidiol i ac o'r cronfeydd yn seiliedig ar y sefyllfa alldro presennol. Cyfanswm y gwariant cyfalaf gros ar gyfer y flwyddyn oedd £2,110,439 i'w gymharu a £1,652,579 ar gyfer y flwyddyn flaenorol (Atodiad 5). Mae'r gwariant yma yn adlewyrchu llwyddiant swyddogion i weithredu ar brosiectau megis Tiroedd Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (T.C.LL.C), Cynllyn treftadaeth Dolgellau, uwchraddio system meddalwedd Cynllunio ac amryw o waith cyfalaf eraill.

3.3 Roedd £3,218,775 o arian yn weddill cyn trosglwyddiadau i gronfeydd penodol wrth gefn, a llithriadau ac ymrwymiadau. Awgrymir neilltuo unrhyw arian sydd dros ben ar gyfer cyfarch yr her ariannol dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae balans o £633,344 ar gael i'w ailddyranu o ganlyniad tanwariant ar rai llinellau yn y gyllideb, yn ogystal ag effaith grant ychwanegol gan Llywodraeth Cymru.

## 4. CRYNODEB REFENIW TERFYNOL 2023/24

| Maes Gwasanaeth | Cyllideb Net Wreiddiol | Trosgl | Cyllideb Net Ddiwygiedid | Gwir Wariant | Dan/(Dros) |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 2,654,955 | 75,666 | 2,730,621 | 2,249,359 | 481,262 |
| Corfforaethol | 4,692,341 | 406,562 | 5,098,903 | 3,571,496 | 1,527,407 |
| Balansau | 261,600 | - 231,600 | 30,000 | | 30,000 |
| | | | | | |
| Llog a Ennillwyd | - 28,000 | - 92,000 | - 120,000 | - 294,050 | 174,050 |
| Ariannu Cyfalaf o refeniw | 503,970 | 218,889 | 722,859 | - 283,218 | 1,006,077 |
| Addasiad taliadau cyfalaf | - 591,050 | | - 591,050 | - 591,050 | - |
| **CYFANSWM** | **7,493,816** | **377,517** | **7,871,333** | **4,652,537** | **3,218,796** |

### 4.1 Cyllideb Net ar gyfer 2023/24

Mae'r awdurdod eisoes wedi ei hysbysu o'r cynnydd yn y gyllideb refeniw sylfaenol net.

Yn Atodiad 1, ceir manylion pellach ynghylch y trosglwyddiadau adroddwyd amdanynt i'r Awdurdod ym Mawrth a'r rhai sydd wedi'u gweithredu ers hynny.

### 4.2 Trosglwyddiadau o ac i Gronfeydd Wrth Gefn a Chostau penodol Eraill

Mae balans o £3,218,796 cyn trosglwyddiadau o ac i'r cronfeydd wrth gefn. Dangosir crynodeb o'r dadansoddiad o'r trosglwyddiadau yn y tabl isod, ynghyd â chostau penodol eraill, gyda'r manylion yn Atodiad 3.

| | (£) | (£) | (£) |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2023/24** | | | 3,218,796 |
| **Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| Cynllunio a Rheolaeth Tir | 148,032 | | |
| Corfforaethol | 293,901 | 441,933 | |
| **Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| Cynllunio a Rheolaeth Tir | -313,189 | | |
| Corfforaethol | -2,414,810 | -2,727,999 | -2,286,066 |
| **Llithriant a Chostau Eraill (gweler Atodiad 4)** | -299,370 | | -299,370 |
| **Balans ar gael i'w ailddyrannu** | | | **633,344** |

**4.3 Alldro Adrannol**

Pennwyd trosglwyddiadau hanfodol o ac i gronfeydd wrth gefn o fewn rhaglenni penodol neu wedi'u neilltuo ym mhwynt 4.2 eisoes ac mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa pob lefel cyfarwyddiaeth

| Maes Gwasanaeth | Cyllideb Net Ddiwygiedig | Gwir Wariant | Dan/ (Dros) | Ymrwymiad | Dan/(Dros) |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 2,730,621 | 2,249,359 | 481,262 | 319,888 | 161,374 |
| Corfforaethol | 5,098,903 | 3,571,496 | 1,527,407 | 1,229,488 | 297,919 |
| Balansau | 30,000 | - | 30,000 | 30,000 | - |
| | **7,859,524** | **5,820,854** | **2,038,670** | **1,579,376** | **459,294** |
| Llog a Ennillwyd | - 120,000 | - 294,050 | 174,050 | - | 174,050 |
| Cyllido Cyfalaf o Refeniw | 722,859 | - 260,784 | 983,643 | 983,643 | - |
| Addasiad taliadau cyfalaf | - 591,050 | - 591,050 | - | | |
| **CYFANSWM** | **7,871,333** | **4,674,970** | **3,196,363** | **2,563,019** | **633,344** |

**4.4 Dadansoddiad Manwl**

Mae dadansoddiad manylach fesul gwasanaeth o'r gwariant a'r ymrwymiadau ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 2.

**4.5 Amrywiadau Sylweddol**

Mae unrhyw amrywiadau a diffygion yn y gyllideb wedi cael eu ariannu o'r dyraniad grant ychwanegol dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Yn dilyn neilltuo arian at y ddiben yma ymhelaethir ar yr amrywiadau dros £10,000 o fewn y gwasanaethau isod sy'n cyfrannu at y cyfanswm o £633,344 sydd ar gael i'w ail ddyrannu.

<u>Cadwraeth Coed ac Amaeth</u> – £169,504 o danwariant. Bu gwariant ar nifer o brosiectau grant lle roedd angen symud y gwariant yn erbyn gwasanaethau/grantiau penodol gan adael gwarged o fewn y gwasanaeth. Mae'r arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi cyfrannu at y tanwariant, ar chreu gwarged i lithro i 2023/24 a chyfrannu at yr her ariannol. Mae natur rhai o'r prosiectau o fewn y gwasanaethau yma yn golygu bod ansicrwydd o ran argaeledd grantiau ac hawliadau grant. Mae'n bosib fydd gwarged un flwyddyn yn dueddol o fod ei angen ar gyfer cyfarch sefyllfaoedd o'r fath mewn blynyddoedd canlynol lle mae diffyg yn cael ei adnabod.

<u>Plas Tan y Bwlch</u> – £60,629 o dan-wariant. Cynyddwyd cyllideb trydan a nwy yn sylweddol o ganlyniad pryder ynglŷn ag effaith cynydd costau ynni ar yr adeilad. Yn ffodus ni fu gwir gost ynni Plas Tan y Bwlch mor uchel a rhagwelir gan greu arbediad ar y gyllideb.

<u>Meysydd Parcio a Chyfleusterau Ymwelwyr</u> – Roedd yr incwm meysydd parcio a Llyn Tegid yn £221,363 yn fwy na gyllidebwyd ar ei gyfer.

Wardeniaid, Mynediad Cyhoeddus a Thîm yr Wyddfa - Mae tanwariant o £81,797 ar draws y gwasanaethau yma o ganlyniad arbediad ar gyflogau, a llai o wariant ar waith mynediad refeniw o ganlyniad blaenoriaethu gwaith grantiau cyfalaf megis T.C.LL.C o fewn yr adran.

Eiddo – bu gorwariant o £83,418 yn erbyn y gyllideb o ganlyniad gwariant ar waith cynnal a chadw na ellir ei osgoi, a gwariant ychwanegol ar brynnu gwasanaeth i fewn.

Cyfreithiol – bu gorwariant £41,433 o ganlyniad costau cyfreithiol ychwanegol yn ymwneud ag achos llys mast EE.

Gweinyddol a Gofal Cwsmer – Mae tanwariant o £28,469 o ganlyniad arbediad ar gyllideb cyflogau oherwydd swyddi gwag, yn ogystal ag arbediad ar gostau ffonau, a cynnal a chadw offer.

Cefnogaeth Awdurdod – Tanwariwant o £25,480, yn dilyn arbediad yng ngwariant ar danysgrifiadau o fewn y flwyddyn.

Cyfieithu – Bu arbediad o £18,570 yn oherwydd llai o wariant ar gyfieithwyr allanol, yn ogystal a

Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau – Mae tanwariant sylweddol oherwydd swyddi yn wag am gyfnod tra bod staff ar famolaeth. Yn ogystal â hyn, bu tanwariant sylweddol ar gyllideb y gronfa gomisiynu. Nid yw hyn yn annisgwyl gan fod y gyllideb yma eisoes wedi ei adnabod fel arian gall gyfrannu at yr her ariannol dros y blynyddoedd nesaf.

Ymgysylltu – Mi oedd tanwariant o £51,289 oherwydd swyddi gwag yn yr adran.

Cyllid – Tanwariant o £37,789 oherwydd arbediad cyflogau tra bod staff ar gyfnod mamolaeth. Bydd yr arian yma yn cael ei neilltuo ar gyfer uwchraddio system gyllid dros y blynyddoedd i ddod.

Llog Banc – Mae'r gwir incwm a dderbyniwyd yn llawer uwch na'r gyllideb o £120,000 a'r rhagolygon blaenorol. Mae hyn yn bennaf gan fod y cyfraddau llog yn parhau yn uchel a chwyddiant ddim yn gostwng ar y gyfradd a ragwelwyd, gan arwain at incwm llog ychwanegol o £174,050.

**4.6 Newidiadau ers yr adroddwyd yn flaenorol**

Fel adroddwyd yn flaenorol, mae'r awdurdod wedi llwyddo osgoi gorffen y flwyddyn ariannol mewn diffyg o ganlyniad derbyn grantiau ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn ogystal, mae'r grantiau yma wedi caniatau i'r Awdurdod gario arian megis incwm maesydd parcio, ac incwm canolfannau ayyb drosodd i 2024/25 er mwyn cyfarch yr her ariannol. Mi fydd yr arian yma yn cael ei neilltuo yn y cronfeydd wrth gefn hyd nes bydd ei angen.

## 5. ALLDRO CYFALAF 2023/24

5.1 Mae manylion y gyllideb Gyfalaf, alldro a ffynonellau ariannu yn ymddangos yn y crynodeb isod ac Atodiad 5:

| | **Cyllideb Net** | **Gwariant** | **Incwm** | **Gweddill** | **Wedi'i Neilltuo** | **Tan / (Tros)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| Cynllunio a Rheolaeth Tir | 290,260 | 1,106,661 | -1,310,073 | 493,672 | 493,672 | *0* |
| Corfforaethol | 432,599 | 1,003,778 | -1,083,584 | 512,405 | 512,405 | *0* |
| **Cyfanswm** | **722,859** | **2,110,439** | **-2,393,657** | **1,006,077** | **1,006,077** | **0** |

5.2 Mae'r gyllideb net ddiwygiedig o £722,859 a'r gwariant net o -£260,784 yn gadael £983,643 cyn trosglwyddiadau a llithriant. Mae'r ffigwr yma yn cynnwys yr incwm grant cyfalaf ychwanegol o £804,000, yn ogystal a grantiau T.C.LI.C. a nifer o gynlluniau grant hanesyddol sydd wedi eu gweirthredu yn ystod y flwyddyn lle na gyllidebwyd ar eu cyfer yn wreiddiol.

5.3 Gweler atodiad 5 am fwy o fanylder.

## 6. CRONFEYDD WRTH GEFN

**6.1** Gweler isod grynodeb o'r cronfeydd defnyddiadwy gyda'u balansau cyfredol. Dylid nodi fod cyfran sylweddol o'r isod yn cynrychioli symiau sydd eisoes wedi eu hymrwymo at ddibenion penodol.

| Enw'r Gronfa | Balans 31/03/2022 | Symudiad | Balans 31/03/2023 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | 163,791 | - | 163,791 |
| Cronfa Adran 106 | 597,034 | 62,397 | 659,431 |
| Cronfa Grantiau Refeniw | 1,387,388 | (125,706) | 1,261,682 |
| Grantiau Cyfalaf dderbyniwyd ymlaen llaw | 2,114,265 | (277,187) | 1,837,078 |
| Cronfa Rheoli Asedau | 1,002,014 | (265,073) | 736,941 |
| Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus | 225,000 | - | 225,000 |
| Cronfa Arian Cyfatebol | 898,889 | | 898,889 |
| Cronfa Arian Gariwyd Drododd | 358,179 | 58,809 | 299,370 |
| Cronfa Prosiectau | 1,044,694 | 4,763 | 1,049,457 |
| Cronfa Is-adeiledd yr Wyddfa | 56,303 | - | 56,303 |
| Cronfa Risgiau Penodol | 668,476 | - | 668,476 |
| Cronfa Gwytnwch Staff | 399,672 | - | 399,672 |
| Cronfa Risgiau Masnachol | 100,000 | - | 100,000 |
| Cronfa Her Ariannol | - | 1,701,734 | 1,701,734 |
| Cronfa Gyffredinol | 1,100,256 | - | 1,100,256 |
| | **10,115,961** | **1,159,737** | **11,158,080** |

### 6.2 Clustnodi Balans a Tanwariant ac Incwm Ychwanegol

Mae balans o £633,344 o danwariant ac incwm ychwanegol o 2023/24 ar gael i'w ail-glustnodi ar sail un-tro. Argymhellir bod yr arian hwn yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd er mwyn cyfrannu tuag at y diffyg yng nghyllideb 2024/25. Roedd y diffyg a nodwyd yn y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2023/24 yn oddeutu £400k, ond o ganlyniad y grant penodol ar gyfer cyfarch y diffyg hwn, mae gennym nawr arian iw ail ddyrannu. Mae disgwyl fydd y diweddariad cyllideb cyntaf ym mis Medi yn darparu gwell darlun o'r sefyllfa a'r diffyg i'w ariannu. Argymhellir bod gweddill yr arian dros ben o 2023/24 yn cael ei neilltuo yn y Gronfa Her Ariannol at y diben yma am y tro gyda'r swm angenrheidiol i'w drosglwyddo i gyllideb 2024/25 a'r gweddill i'w gadw wrth gefn at y diffyg yn 2025/26. Bydd balans y Gronfa Her Ariannol yn cynyddu o £633k unwaith bydd y trosglwyddiad yma wedi wneud.

### 6.3 Dadansoddiad o'r Cronfeydd

Isod mae dadansoddiad o'r prif symudiadau o fewn y cronfeydd.

<u>Cronfa Adran 106</u>
Bu cynnydd o £62,397 yn y gronfa yn ystod y flwyddyn. Mae symudiad yn y gronfa hon yn ddibynol ar y nifer o geisiadau cynllunio perthnasol sydd yn codi o fewn y flwyddyn.

Cronfa Grantiau Refeniw
Mae'r gronfa hon yn dal balans grantiau refeniw sydd heb eu defnyddio, derbyniwyd yn y flwyddyn ariannol ac yn cael eu hadnabod fel incwm yn y flwyddyn ariannol honno, ond eu trosglwyddo i gronfa ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Bu gostyngiad net o £125,706 yn ystod y flwyddyn.

Cronfa Grantiau Cyfalaf
Mae'r gronfa hon wedi ei chreu ar yr un cynsail a'r Gronfa Grantiau Refeniw. Yn ystod 2023/24 defnyddiwyd a derbyniwyd grantiau yn golygu gostyngiad net o £277,187 yn y gronfa.

Cronfa Rheoli Asedau
Bu gostyngiad o £265,073 yn y Gronfa yn ystod 2023/24 yn dilyn gwariant cyfalaf ar Plas Tan y Bwlch a Hafod Eryri.

Cronfa Arian Gyfatebol
Yn ystod y flwyddyn, ni fuodd unrhyw ddefnydd ar y gronfa hon. Mae'r gronfa hon yn caniatau ir Awdurdod chwilio am gyllid gan bartneriaid allanol a gweithredu ar sail cyllid uwch na'r gwaelodlin blynyddol.

Cronfa Gwytnwch Staff
Bu dim symudiad ar y gronfa hon yn ystod y flwyddyn 2023/24. Mae'r arian yn y gronfa hon ar gyfer prynu gwasanaeth i mewn fel bo'r angen lle mae absenoldeb tymor hir, neu ar gyfer cyflawni elfennau penodol o waith.

Cronfa Risgiau Penodol
Dim gwariant yn ystod 2023/24. Pwrpas y gronfa hon yw cyfarch unrhyw doriadau posib yn y gyllideb gan fod ansicrwydd am setliad grant y dyfodol.

Cronfa Her Ariannol.
Pwrpas seflydlu y gronfa hon yn 2023/24 yw i gyfarch yr her ariannol sydd yn gwynebu yr awdurdod yn y dyfodol agos. Mae'r arian yn y gronfa hon yn deillio o danwariant yn y gyllideb yn 2023/24 yn dilyn derbyn grant ychwanegol gan Llywodraeth Cymru, ac hynnu wedyn wedi ein galluogi i neilltuo incwm masnachol ar gyfer y pwrpas hwn. Awgrymir hefyd neilltuo gweddill yr arian dros ben (£633k) yn y gronfa hon, a fydd yn dod a cyfanswm y balans i £2,335,068.

Balansau Cyffredinol
Mae disgwyliad i'r Awdurdod gadw arian wrth genf rhag unrhyw gostau byrfyfyr ac o sylwedd na ragwelwyd.Nid oes unrhyw drosglwyddiad ir balansasau cyffredinol yn 2023/24, gan ir arian dros ben gael ei neilltuo yn y gronfa Her Ariannol.

## 7. TROSGLWYDDIADAU RHWNG CYLLIDEBAU GWERTH DROS £30,000 I SYLW'R AWDURDOD

7.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth dros £30,000 rhwng cyllidebau, fel a ganlyn :

| Swm | Cymeradwyaeth y Trosglwyddiad |
|---|---|
| £30,000 - £100,000 | Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a'r Cadeirydd. Trosglwyddiad i'w adrodd i'r Awdurdod nesaf er gwybodaeth yn unig. |
| £100,000 neu fwy | Penderfyniad Awdurdod |

7.2 Ni fu trosglwyddiad or fath ers yr adroddiad diwethaf.

## 8. ARGYMHELLION

**8.1 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf fel sydd wedi ei amlinellu yn rhan 4 (manylion yn Atodiad 1) .**

**8.2 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac ohonynt fel yr amlinellwyd yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**

**8.3 Nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a gwasanaethau o safbwynt rheolaeth gyllidebol (paragraff 4.3 i 4.6 ac Atodiad 2)**

**8.4 Cymeradwyo'r llithriadau ac ymrwymiadau sy'n Atodiad 4.**

**8.5 Cymeradwyo trosglwyddo tanwariant y flwyddyn ariannol 2023/24 i Gronfa Her Ariannol yn hytrach na chynyddu'r Balansau Cyffredinol.**

**8.6 Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).**

**Atodiad 1**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 ar 31 Mawrth 2024**

| | Cyllideb Sylfaenol £ | Trosgl. cynt £ | Trosgl . newydd £ | Cyllideb Net Ddiwygiedig £ |
|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIO A RHEOLI TIR** | | | | |
| Cadwraeth, Coed ac Amaeth | 585,410 | 32,531 | - | 617,941 |
| Awyr Dywyll | 54,430 | 2,530 | - | 56,960 |
| Mawndir Cymru | | - | | - |
| Grid Cenedl. - Maentwrog (Dwyrain) | - | - | | - |
| LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd | 588,820 | 13,730 | - | 602,550 |
| Partneriaeth Tirwedd y Carneddau | 24,995 | 5 | - | 25,000 |
| Archeoleg | 65,000 | 14,050 | - | 79,050 |
| Treftadaeth Diwylliannol | 75,780 | 2,540 | - | 78,320 |
| Treftadaeth Treflun Dolgellau | 24,630 | 1,910 | - | 26,540 |
| Cynllun Harlech ac Ardudwy | 53,880 | - 11,570 | - | 42,310 |
| Ysgwrn | 113,040 | 4,827 | - | 117,867 |
| Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau | 345,770 | 6,143 | - | 351,913 |
| Cynllunio | 723,200 | 8,970 | - | 732,170 |
| **Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen** | **2,654,955** | **75,666** | **-** | **2,730,621** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | | | | |
| Costau Aelodau | 112,510 | - | - | 112,510 |
| Cefnogaeth yr Awdurdod | 91,530 | 4,320 | - | 95,850 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 597,001 | 87,894 | - | 684,895 |
| Eiddo | 241,400 | 11,080 | - | 252,480 |
| Cyfreithiol | 56,320 | 8,060 | - | 64,380 |
| Gweinyddol a Gofal Cwsmer | 218,990 | 12,313 | - | 231,303 |
| Cyfieithu | 106,000 | 2,520 | - | 108,520 |
| Personel a Hyfforddiant | 149,910 | 6,380 | - | 156,290 |
| Pencadlys | 260,370 | 1,826 | - | 262,196 |
| Systemau Gwybodaeth | 355,350 | 39,740 | - | 395,090 |
| Cyllid | 294,230 | 18,210 | - | 312,440 |
| Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch | 462,100 | 37,323 | - | 499,423 |
| Ymgysylltu | 490,740 | - 20,510 | - | 470,230 |
| Safle Gwe Newydd | 15,550 | 42,340 | - | 57,890 |
| **Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen** | **3,452,001** | **251,496** | **-** | **3,703,497** |

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 ar 31 Mawrth 2024**

| | Cyllideb Sylfaenol £ | Trosgl. cynt £ | Trosgl . newydd £ | Cyllideb Net Ddiwygiedig £ |
|---|---|---|---|---|
| **Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen** | | | | |
| **CYNLLUNIO A RHEOLI TIR** | **2,654,955** | **75,666** | **-** | **2,730,621** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | **3,452,001** | **251,496** | **-** | **3,703,497** |
| Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (grant Ll.C.) | 36,080 | 2,540 | - | 38,620 |
| Llwybrau Llesiant (grant Ll.C.) | 40,000 | - | - | 40,000 |
| Wyddfa Di-Blastig | 0 | 53150 | 0 | 53150 |
| Canolfannau Gwybodaeth | 165,920 | 17,420 | - | 183,340 |
| Llyn Tegid | -26,410 | 4,866 | - | -21,544 |
| Meysydd Parcio | -502,720 | 8,100 | - | -494,620 |
| Clirio Ysbwriel | 19,510 | - | - | 19,510 |
| Traffig a Chludiant | 5,000 | - | - | 5,000 |
| Cyfleusterau Ymwelwyr | 263,450 | 11,770 | - | 275,220 |
| Mynediad Cyhoeddus | 123,940 | 4,070 | - | 128,010 |
| Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddo | 1,115,570 | 53,150 | - | 1,168,720 |
| | **4,692,341** | **406,562** | **-** | **5,098,903** |
| | | | | |
| **BALANSAU** | | | | |
| Darpariaeth chwyddiant cyffredinnol | 30,000 | - | | 30,000 |
| Darpariaeth chwyddiant cyflogau | 231,600 | -231,600 | - | - |
| | **261,600** | **-231,600** | **-** | **30,000** |
| | | | | |
| | **7,608,896** | **250,628** | **-** | **7,859,524** |
| **CYFANSWM** | | | | |
| Llog a Enillwyd | -28,000 | -92,000 | | -120,000 |
| Refeniw yn Ariannnu Gwariant Cyfalaf | 503,970 | 218,889 | | 722,859 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | -591,050 | | | -591,050 |
| | **7,493,816** | **377,517** | **-** | **7,871,333** |
| **WEDI EI ARIANNU O** | | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | 4,119,789 |
| Lefi Awdurdodau Cyfansoddol | 1,373,262 | | | 1,373,262 |
| Tros. o'r cronfeydd wrth gefn | 2,000,765 | 377,517 | | 2,378,282 |
| **Cyllideb Net** | **7,493,816** | **377,517** | **-** | **7,871,333** |
| | | | | **-** |

**Atodiad 2**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Sefyllfa Refeniw Derfynol 2023/24 ar 31 Mawrth 2024**

| | Cyllideb Net ddiwygiedig<br>£ | Gwir Wariant<br>£ | Wedi'i Neilltuo<br>£ | Gwariant O dan/ (Trosodd)<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR** | | | | |
| Coed Cadw | 0 | 17,461 | -17,461 | -0 |
| Llefydd Lleol Natur | 0 | -37,034 | 37,034 | -0 |
| Cadwraeth Coed & Amaeth | 617,941 | 441,466 | 176,475 | -0 |
| Adfer Natur | 0 | -5,372 | 5,372 | 0 |
| Ysgwrn | 117,867 | 117,867 | 0 | 0 |
| Awyr Dywyll | 56,960 | 41,952 | 15,008 | -0 |
| Mawndir Cymru | 0 | -16,825 | 16,825 | 0 |
| Ymylon Eryri | 0 | -18,924 | 18,924 | -0 |
| Grid Cenedlaethol Maentwrog (Gorllewin) | 0 | 5,818 | -5,818 | 0 |
| LIFE-CoedwigCeltaidd | 602,550 | 638,369 | -35,819 | -0 |
| Treftadaeth Diwylliannol | 78,320 | 78,320 | 0 | 0 |
| Treftadaeth Dolgellau | 26,540 | 26,540 | 0 | 0 |
| Harlech ac Ardudwy | 42,310 | 37,003 | 5,307 | 0 |
| Archeoleg | 79,050 | 55,498 | 23,552 | 0 |
| Cynllunio | 732,170 | 669,774 | 62,396 | 0 |
| Carneddau | 25,000 | 6,947 | 18,053 | -0 |
| SMS Dinas Mawddwy | 0 | 4,208 | -4,208 | -0 |
| Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau | 351,913 | 186,289 | 4,248 | 161,376 |
| **Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen** | **2,730,621** | **2,249,359** | **319,888** | **161,374** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | | | | |
| Costau Aelodau | 112,510 | 112,510 | - | 0 |
| Cefnogaeth yr Awdurdod | 95,850 | 70,370 | - | 25,480 |
| Rheolaeth Corfforaethol | 684,895 | 483,254 | 201,641 | - 0 |
| Eiddo | 252,480 | 252,480 | - | 0 |
| Cyfreithiol | 64,380 | 64,380 | - | - |
| Gweinyddol a Gofal Cwsmer | 231,303 | 202,834 | - | 28,469 |
| Cyfieithu | 108,520 | 73,455 | - | 35,065 |
| Personel a Hyfforddiant | 156,290 | 156,290 | - | - 0 |
| Pencadlys | 262,196 | 247,469 | - | 14,727 |
| Systemau Gwybodaeth | 395,090 | 394,628 | - | 462 |
| Cyllid | 312,440 | 274,651 | 37,789 | - 0 |
| Plas Tan y Bwlch | 499,423 | 438,794 | - | 60,629 |
| Ymgysylltu | 470,230 | 407,941 | 11,000 | 51,289 |
| Safle Gwe Newydd | 57,890 | 52,669 | 5,221 | - 0 |
| Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (Grant Ll.C.) | 38,620 | 38,620 | - | - |
| Llwybrau Llesiant (Grant Ll.C.) | 40,000 | - | 40,000 | - |
| Canolfannau Gwybodaeth | 183,340 | 133,006 | 50,334 | - 0 |
| Llyn Tegid | - 21,544 | - 146,905 | 125,361 | 0 |
| Meysydd Parcio | - 494,620 | - 1,195,772 | 701,152 | - 0 |
| Yr Wyddfa Ddi-blastig | 53,150 | 32,502 | 20,648 | 0 |
| Casglu Sbwriel | 19,510 | 19,510 | - | - |
| Traffig a Chludiant | 5,000 | 5,000 | - | - |
| Cyfleusterau Ymwelwyr | 275,220 | 238,878 | 36,342 | 0 |
| Mynediad Cyhoeddus | 128,010 | 124,556 | - | 3,454 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tim Y Wyddfa | 322,460 | 279,223 | - | 43,237 |
| Wardeniaid - Cyffredinol | 253,800 | 253,800 | - | 0 |
| Wardeniaid - Gogledd | 291,730 | 256,624 | - | 35,106 |
| Wardeniaid - De | 300,730 | 300,730 | - | - |
| | **5,098,903** | **3,571,496** | **1,229,488** | **297,919** |
| **BALANSAU** | 30,000 | - | 30,000 | - |
| | **7,859,524** | **5,820,854** | **1,579,376** | **459,294** |
| **CYFANSWM** | | | | |
| Llog a Enillwyd | - 120,000 | - 294,050 | - | 174,050 |
| Cyllido Cyfalaf o Refeniw | 722,859 | - 260,784 | 983,643 | - |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | - 591,050 | - 591,050 | | - |
| | **7,871,333** | **4,674,970** | **2,563,019** | **633,344** |
| **WEDI'I ARIANNU O** | | | | |
| Grant y Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | |
| Lefi Awdurdod Cyfansoddol | 1,373,262 | | | |
| Defnydd o gronfeydd wrth gefn | 2,378,282 | | | |
| **Cyllideb Net Ddiwygiedig** | **7,871,333** | | | |

| | (£) | (£) | (£) |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2023/24** | | | 3,218,776 |
| | | | |
| **Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| | | | |
| **Cynllunio a Rheolaeth Tir** | | | |
| | | | |
| Coed Cadw Dyfi ( Grant Ll.C) | 17,461 | | |
| Maentwrog (Gorllewin) Grid Cenedlaethol | 5,818 | | |
| LIFE - Coedwigoedd Celtaidd | 35,819 | | |
| SMS Dinas Mawddwy | 4,208 | | |
| | | 63,306 | |
| | | | |
| Cynllun Treftadaeth Dolgellau (Grant Cyfalaf Ll. Cymru) | 80,000 | | |
| Cynllun Adfywio Harlech (Grant Cyfalaf Ll.Cymru) | 3,626 | | |
| Bioamrywiaeth (Grant Cyfalaf Ll. Cymru) | 1,000 | | |
| Prosiect Ty Natur | 100 | | |
| | | 84,726 | |
| | | | |
| **Corfforaethol** | | | |
| | | | |
| Uwchraddio Toiledau | 4,460 | | |
| Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant Cyfalaf Ll. Cymru) | 1,054 | | |
| Pwyntiau Gwefru Ceir Trydan (Grant Cyfalaf Ll. Cymru a Grant T.C.Ll.C) | 5,346 | | |
| Gorsafoedd Dwr (Grant Cyfalaf Ll.C) | 6,248 | | |
| Boileri Pencadlys (Grant Cyfalaf Ll.C) | 3,619 | | |
| Hafod Eryri (Grant Cyfalaf Ll. Cymru) | 124,182 | | |
| Arian Ychwanegol 2022/23 (Grant Cyfalaf Ll.C) | 22,331 | | |
| Clwy'r Ynn (Grant Cyfalaf Ll.C) | 1,267 | | |
| Cronfa Cymunedol Eryri (Grant Cyfalaf T.C.LL.C) | 20,042 | | |
| Eryri Carbon a Ni (Grant Cyfalaf T.C.LL.C) | 105,352 | | |
| | | 293,901 | |
| | | | **441,933** |
| | | | |
| **Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| | | | |
| **Cynllunio a Rheolaeth Tir** | | | |
| Cynllunio - adran 106 | 62,397 | | |
| LiDAR (Grant Cyfalaf Ll.C) | 15,630 | | |
| Llwybrau Carneddau (Grant Ll.C) | 1,630 | | |
| Terfynnau Traddodiadol (Grant T.C.Ll.C ar y cyd) | 25,007 | | |
| Nant Peris (Taliad Yswiriant difrod sgrin) | 16,585 | | |
| Llefydd Lleol Natur (Cyfalaf) | 27,378 | | |
| | | 148,627 | |
| | | | |
| Llefydd Lleol Natur (Grant WCVA) | 37,034 | | |
| Carneddau | 18,053 | | |
| Amaeth | 109,475 | | |
| | | 164,562 | |
| **Corfforaethol** | | | |
| Betws y Coed (Grant Cyfalaf Ll.Cymru) | 60,827 | | |
| Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa | 12,410 | | |
| Penmaen-Brith (Grant Ll.C) | 25,000 | | |
| Llym Cynwch (grant Ll.C) | 69,770 | | |
| Dehongli (grant Ll.C | 15,000 | | |
| Nant Gwynant (Ll.C) | 38,000 | | |
| Eryri Cymunedol (Grant T.C.Ll.C) | 31,168 | | |
| Twristiaeth (Grant T.C.Ll.C) | 192,735 | | |
| Natur Eryri SLSP | 810 | | |
| Grant Ychwanegol Cyfalaf (Ll.C) | 401,646 | | |
| | | 847,366 | |
| | | | |
| Safle Gwe | 5,221 | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llwybrau Llesiant | 40,000 | | |
| Cyllid | 37,789 | | |
| Rheolaeth Corfforaethol | 35,586 | | |
| Gweinyddu a delivery SLSP | 148,760 | | |
| Neilltuo i gyfarch yr her ariannol | 1,300,088 | | |
| | | 1,567,444 | |
| | | | (2,727,999) |
| Cyfanswm | | | 932,710 |
| **Llithriant a Chostau Eraill (gweler atodiad 4)** | (299,370) | | (299,370) |
| **Balans ar gael i'w ailddyrannu** | | | **633,344** |

**Atodiad 4**

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
## Llithriant a Chostau Eraill 2023-24

| | (£) | (£) |
|---|---|---|
| **Cadwraeth Coed ac Amaeth** | | |
| Awyr Dywyll | 15,008 | |
| Mawndiroedd | 16,806 | |
| Ymylon Eryri | 18,924 | |
| Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol | 5,372 | |
| Gwaith Mawn ychwanegol 2024.25 | 67,000 | |
| | | 123,110 |
| **Archeoleg** | | |
| Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol | 23,552 | |
| | | 23,552 |
| **Treftadaeth Diwylliannol** | | |
| Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol | 5,307 | |
| | | 5,307 |
| **Eiddo** | | |
| Cerbyd newydd | 21,126 | |
| | | 21,126 |
| **Ymgysylltu** | | |
| Copa1 | 11,000 | |
| | | 11,000 |
| **Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau** | | |
| Yr Wyddfa Ddi-blastig | 20,648 | |
| Partneriaeth yr Wyddfa | 4,248 | |
| | | 24,896 |
| **CYFALAF** | | |
| Cerbydau Wardeinio a Prosiectau Mynediad | 69,719 | |
| Prosiectau Mynediad | 10,660 | |
| Wyddfa Di-blastig | 10,000 | |
| | | 90,379 |
| **Cyfanswm Llithriant a Chostau Eraill 2023-24** | | **299,370** |

**Atodiad 5**

## ALLDRO CYFALAF 2023/24

| | Cyllideb Net (£) | Gwariant (£) | Incwm (£) | Gweddill (£) | Wedi'i Neilltuo (£) | Tan / (Tros) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amgylchedd Adeiliedig | 142,316 | 17,839 | - 17,839 | 142,316 | 142,316 | - |
| Treftadaeth Dolgellau | - | 252,207 | - 172,207 | - 80,000 | - 80,000 | - |
| Clwy'r Ynn (Grant Ll.C) | - | 1,267 | | - 1,267 | - 1,267 | |
| Data LiDAR (Grant .Ll.Cymru) | 15,630 | - | - | 15,630 | 15,630 | - |
| Llwybrau'r Carneddau (Grant .Ll.Cymru) | 35,000 | 33,370 | | 1,630 | 1,630 | - |
| System TG - Cynllunio (Grant .Ll.Cymru) | 47,314 | 48,952 | - 48,952 | 47,314 | 47,314 | - |
| Adfywio Harlech (Grant .Ll.Cymru) | 50,000 | 53,626 | | - 3,626 | - 3,626 | - |
| Bioamrywiaeth (Grant .Ll.Cymru) | - | 1,000 | - | - 1,000 | - 1,000 | - |
| MIND THE GAP | - | 41,842 | - 41,842 | - | - | |
| Llefydd Lleol Natur | - | 219,392 | - 246,770 | 27,378 | 27,378 | |
| Prosiect Ty Natur | - | 27,229 | - 27,129 | - 100 | - 100 | - |
| Twristiaethath (Grant T.C.Ll.C) | | 90,505 | - 355,000 | 264,495 | 264,495 | - |
| Natur Eryri (Grant T.C.Ll.C) | | 125,690 | - 165,000 | 39,310 | 39,310 | - |
| Terfynnau Traddodiadol (Grant T.C.Ll.C) | | 193,743 | - 218,750 | 25,007 | 25,007 | - |
| Nant Peris - adfer sgrin | - | - | - 16,585 | 16,585 | 16,585 | |
| **Is-gyfanswm Cynllunio a Rheolaeth Tir** | **290,260** | **1,106,661** | **- 1,310,073** | **493,672** | **493,672** | **-** |
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| Gwaith Adfer Plas Tan y Bwlch | - | 230,029 | - 230,029 | - 0 | - 0 | - |
| Gorsafoedd Dwr | - | 6,248 | - | - 6,248 | - 6,248 | |
| Offer TG | 22,340 | 17,135 | - 17,135 | 22,340 | 22,340 | - |
| Cerbydau Wardeiniaid | 69,719 | | | 69,719 | 69,719 | - |
| Prosiectau Mynediad | 10,660 | | | 10,660 | 10,660 | - |
| MorfaMaw.Toiledau | | | | - | - | - |
| Uwchraddio Toiledau | - | 4,460 | | - 4,460 | - 4,460 | - |
| Cronfa Cymunedol Eryri | - | 20,042 | | - 20,042 | - 20,042 | - |
| Yr Wyddfa Ddi-blastig | 10,000 | - | - | 10,000 | 10,000 | |
| Cader Idris (Arian BMC, CNC, Llyw.Cymru) | 68,100 | 79,530 | - 11,430 | 0 | 0 | - |
| Nant Gwynant (Grant .Ll.Cymru) | 38,000 | | | 38,000 | 38,000 | - |
| Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa (Grant .Ll.Cymru) | 15,000 | 2,590 | | 12,410 | 12,410 | - |
| Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant .Ll.Cymru) | 25,000 | 26,054 | | - 1,054 | - 1,054 | - |
| Pwyntiau Gwefru Ceir Trydan (Grant .Ll.Cymru) | | 5,346 | | - 5,346 | - 5,346 | - |
| Boileri Pencadlys | | 3,619 | | - 3,619 | - 3,619 | - |
| Safle Gwe Newydd (Grant .Ll.Cymru) | | | | - | - | - |
| Betws y Coed (Grant .Ll.Cymru) | 63,780 | 2,953 | | 60,827 | 60,827 | - |
| Canolfan Wybodaeth Betws y Coed (Grant .Ll.Cymru) | | | | - | - | - |
| Hafod Eryri (Grant .Ll.Cymru) | - | 217,527 | - 93,344 | - 124,182 | - 124,182 | - |
| Bwlch Maesgwn i Brithdir (Grant .Ll.Cymru) | | | | - | - | - |
| Brithdir i Pen Ceunant (Grant .Ll.Cymru) | 25,000 | - | - | 25,000 | 25,000 | - |
| Llyn Cynwych | 70,000 | 230 | - | 69,770 | 69,770 | |
| Dathlu 70 (Grant .Ll.Cymru) | 15,000 | - | - | 15,000 | 15,000 | - |
| Morfa Dyffryn (Grant T.C.Ll.C) | | | | - | - | - |
| Crafnant i Capel Curig (Grant T.C.Ll.C) | | | | - | - | - |
| Technoleg Gwybodaeth (Grant T.C.Ll.C) | | | | - | - | - |
| Dadcarboneiddio (Grant T.C.Ll.C) | | | | - | - | - |
| Pwyntiau Gwefru Ceir Trydan (Grant T.C.Ll.C) | | | | - | - | - |
| Eryri Cymunedol (Grant T.C.Ll.C) | - | 85,332 | - 155,000 | 69,668 | 69,668 | - |
| Eryri - Carbon a Ni (Grant T.C.Ll.C) | | 280,352 | - 175,000 | - 105,352 | - 105,352 | - |
| Grant Ychwanegol 22/23 (Llyw.Cymru) | - | 22,331 | - | - 22,331 | - 22,331 | - |
| Grant Ychwanegol 23/24 (Llyw.Cymru) | | | - 401,646 | 401,646 | 401,646 | |
| **Is-gyfanswm Corfforaethol** | **432,599** | **1,003,778** | **- 1,083,584** | **512,405** | **512,405** | **-** |
| **CYFANSWM** | **722,859** | **2,110,439** | **- 2,393,657** | **1,006,077** | **1,006,077** | **-** |

**EITEM RHIF 9**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 10 Gorffennaf 2024 |
| **TEITL** | **PROFFIL RISG YR AWDURDOD** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod |

**CEFNDIR**

1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu yn dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel.

1.2 Caiff y risgiau eu pennu'n bennaf drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Rheoli. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli yn chwarterol ar y cyd gyda'r swyddogion perthnasol. Mae'r risgiau sydd wedi'u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i'r swyddogion cyfrifol, a gosodir dyddiadau targed ar gyfer cymryd camau lliniaru. Nodir isod grynodeb o sefyllfa'r risgiau ynghyd â nodi os bu newid ers yr adroddiad ym mis Mawrth 2024 (manylder yn Atodiad 1).

1.3 Yn dilyn yr adolygiad diwethaf gan Aelodau ym Mhwyllgor Perfformiad ac Adnoddau mis Mawrth 2024, mae'r 2 risg ar wahân blaenorol ar gyfer Plas Tan y Bwlch wedi'u cyfuno'n un risg gyfunol (risg 2). Yn ogystal, mae risg newydd wedi'i nodi a'i hychwanegu at y gofrestr: Gwydnwch y Tîm Rheoli (risg 17).

1.4 Mae 17 risg wedi eu hadnabod ar y Proffil. O'r rhain mae 2 wedi cael eu nodi fel risgiau Uchel, mae 14 wedi cael eu nodi fel risgiau Canolig ac 1 wedi cael ei nodi yn risg Isel.

1.5 Dyma grynodeb o'r risgiau:

| Rhif y Risg | Risg Uchel | Newid |
|---|---|---|
| 1 | Diffyg arian cyllido digonol. | Dim |
| 2 | Plas Tan y Bwlch – pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol tymor hir. | Risg Cyfunol Newydd |

| Rhif y Risg | Risg Canolig | Newid |
|---|---|---|
| 4 | Risg i enw da par. Rheolaeth yr Awdurdod o’r Ysgwrn | Dim |
| 5 | Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i’r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri. | Dim |
| 6 | Methu a chyflawni gofynion y ddeddf “Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol”. | Dim |
| 7 | Risgiau i’r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid “heb ei gadarnhau” (un ai cyfraniadau cyfalaf neu “heb fod yn arian”) yng nghyfnod oes y prosiect. | Dim |
| 8 | Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data 2018. | Dim |
| 9 | Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE gan gynnwys diffyg cydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys sy'n arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / punt. | Dim |
| 10 | Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddhaol. | Dim |
| 11 | Yr Awdurdod yn rheoli prosiectau yn wael ac aneffeithiol. | Dim |
| 12 | Cadernid staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol. | Dim |
| 13 | Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol. | Dim |
| 14 | Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Croeso). | Dim |
| 15 | Cynhyrchu Incwm (Cynllunio). | Dim |
| 16 | Risg o ymosodiad Seibr | Dim |
| 17 | Gwydnwch y Tîm Rheoli | Newydd |

| Rhif y Risg | Risg Isel | Newid |
|---|---|---|
| 3 | Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio). | Dim |

**GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**
Dim yn codi o’r Adroddiad hwn.

**ARGYMHELLIAD**
**Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**PAPURAU CEFNDIR**
Cofrestr Risg: Diweddariad Gorffennaf 2024.


## COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI — Gorffennaf 2024

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 1 | Diffyg arian cyllido craidd digonol. | Torri Gwasanaethau. | 5 | 5 | **25**<br>**Coch** | Cafodd y Gyllideb ar gyfer 2024/25 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror 2024, ac fe'i sefydlwyd ar sail dim newid i Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25. Roedd hyn yn parhau'r cynnydd sero yn lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Parc Cenedlaethol, er bod yr Awdurdod yn profi lefelau chwyddiant na welwyd ers y 1980au.<br><br>Ar adeg pennu'r gyllideb, rhagwelir y bydd cyllideb 2024/25 yn cynnwys cyfraniad net o £1,061,760 o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, sy'n cynnwys £731,330 o gyllid refeniw a £330,430 o gyfalaf. Mae hon yn lefel ddigynsail o ddefnydd cronfeydd wrth gefn, ac er bod rhywfaint o hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r defnydd o grant a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw'r defnydd o gronfeydd eraill yn gynaliadwy yn y tymor hir.<br><br>Mewn blynyddoedd blaenorol, mae APCE wedi gallu cadw hyblygrwydd gyda'i gronfeydd wrth gefn ac mae wedi cadw lefel ddoeth o arian i allu cydbwyso'r gyllideb heb weithredu toriadau brys. Fodd bynnag, ystyriwyd arbedion ar gyfer 2024/25 a bydd yn rhaid i hyn barhau yn y blynyddoedd i ddod, gydag effaith niweidiol ar wasanaethau, oni bai bod y Llywodraeth yn cynyddu'r grant.<br><br>Yn dilyn adroddiad gan Archwilio Cymru, mae nifer o argymhellion wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i nodi opsiynau ar gyfer codi incwm - ac egluro'r risgiau cysylltiedig - ond mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio nes bod canllawiau wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru. | 4 | 4 | **16**<br>**Coch** | → | A<br>(Adolyg-wyd 20.03.24) | Prif Swyddog Cyllid |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Risg Cynhenid | Gweddill Risg | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lyniad | | Effaith | Tebyg. | Can-lyniad | | | |
| 2 | Plas Tan y Bwlch - pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol hirdymor. | Methiant i gadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.<br>Niwed sylweddol i enw da'r Awdurdod.<br>Effaith andwyol ar yr economi leol.<br>Colli bywoliaeth i staff a gyflogir ym Mhlas Tan y Bwlch.<br>Methiant i gynnal adeilad rhestredig Gradd II*. | 4 | 5 | **20**<br><br>**Coch** | Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 7fed o Chwefror 2024, penderfynodd yr Awdurdod i:<br>1. Barhau gyda'r model busnes presennol, tra bo hyn yn ymarferol ac yn ddiogel, am gyfnod hyd nes y gall yr Awdurdod ystyried yn ffurfiol ei opsiynau ar gyfer rheoli Plas Tan y Bwlch yn y dyfodol.<br>2. Gwahodd diddordeb gan bartneriaid posibl ar gyfer rheolaeth weithredol/datblygu Plas Tan y Bwlch.<br>3. Ar yr un pryd, cynnig Plas Tan y Bwlch ar y farchnad agored i ddarpar brynwyr.<br>4. Hyrwyddo Plas Tan y Bwlch fel busnes gweithredol i unrhyw ddarpar bartner/brynwr.<br>5. Caniatáu cyfnod o hyd at 6 mis i geisio gwarediad partner neu farchnad agored.<br><br>Mae'r model busnes presennol yn parhau i weithredu ar adeg ysgrifennu hwn, ond nid yw'r Plas yn gallu agor yn llawn amser ac mae'n gorfod cau ar adegau tawelach er mwyn diogelu lles gweddill y staff. Mae hyn wedi arwain at rai canslo a cholli busnes. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag un partner posibl ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roeddynt i fod i wneud cyflwyniad i gyfarfod nesaf Bwrdd y Plas.<br><br>Mae Carter Jonas wedi'i benodi'n asiant ac yn y broses o baratoi manylion gwerthu gyda'r bwriad o hysbysebu ar y farchnad agored erbyn diwedd mis Mehefin. | 4 | 5 | **20**<br><br>**Coch** | | A<br><br>(Adolyg-wyd 20.03.24) | Cyf. Gwas. Corfforae-thol |
| 3 | Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio). | Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. | 4 | 5 | **20**<br><br>**Coch** | Mae incwm deufis cyntaf y flwyddyn ariannol bresennol yn is na blynyddoedd blaenorol lle mae'r incwm wedi bod yn gyson uchel ar ddechrau'r flwyddyn. Nid yw hyn yn annisgwyl oherwydd effaith Pasg cynnar (hanner y gwyliau cyn 1af o Ebrill) a thywydd ansefydlog Ebrill, sydd wedi arwain at lai o brysurdeb canol wythnos ar ein safleoedd. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa ond ar hyn o bryd rhagwelir gallu cwrdd â'r targed os bydd gweddill y flwyddyn yn gyson gyda blynyddoedd blaenorol. | 4 | 1 | **4**<br><br>**Gwyrdd** | | A<br><br>(Adolyg-wyd 20.03.24) | Pennaeth Eiddo |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | | |
| 4 | Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn. | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau. | 5 | 3 | **15**<br><br>**Coch** | Mae'r Ysgwrn wedi ennill enw da iawn fel amgueddfa achrededig a chanolfan ddiwylliannol gyda rhaglen o weithgareddau treftadaeth ddiwylliannol o ansawdd rhagorol. Mae'r statws achrededig yn dangos bod trefniant llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn lle.<br><br>Mae'r Yr Ysgwrn yn dangos patrwm llwyddiannus o ymgeisio am gyllid allanol i ariannu gweithgareddau a phrosiectau, ac mae swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol ar geisiadau hyn, gan chwilio am gyfleoedd nawdd yn rheolaidd.<br><br>Cwblhawyd arddangosfa Geiriau Diflanedig a rhaglen ymgysylltu gysylltiedig yn llwyddiannus, gan arwain at gynnydd o tua 14% mewn incwm, o gymharu â 2022/23.<br><br>Bydd arddangosfa newydd, Yr Ysgwrn 'Yn Ysbrydoli' yn agor yn Haf 2024 a bydd adnodd addysg ar ffilm Hedd Wyn yn cael ei lansio fis Medi 2024. Y nod ydi ehangu apêl Yr Ysgwrn a galluogi grwpiau ac unigolion i ddarganfod y safle o'r newydd, dro ar ôl tro. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>(Adolyg-wyd 20.03.24) | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadae-th Ddiwyllia-nnol |
| 5 | Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri. | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.<br><br>Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafnidiaeth / parcio yn yr ardal. Yn ystod 2023 darparwyd gwasanaeth bws Sherpa gwell, a chyflwynwyd rheolaeth traffig priffyrdd (llinellau melyn dwbl) mewn lleoliadau penodol.<br><br>Cytunwyd ar Grŵp Trafnidiaeth Eryri ac mae'n cyfarfod yn aml. Mae cytundeb y Gwasanaeth Sherpa am y 5 mlynedd nesaf wedi ei gytuno. Gall Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafnidiaeth ddarparu cyfleoedd pellach. Ni gyfarfu grŵp Trafnidiaeth Eryri yn ystod 2023, ond mae'r grŵp wedi'i ailymgynnull a chyfarfod ym mis Ionawr 2024, ac mae amserlen o gyfarfodydd wedi'i sefydlu. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>(Adolyg-wyd 20.03.24) | Prif Weithred-wr / Rheolwr Partneria-ethau |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 6 | Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. | Adroddiad archwilio beirniadol / cyhoeddusrwydd negyddol. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio ag Archwilio Cymru i weithredu gofynion y Ddeddf Llesiant.<br><br>Mae astudiaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 (incwm masnachol ac arallgyfeirio incwm) wedi'i chyhoeddi ac mae adroddiad atodol ar y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i gynhyrchu.<br><br>Bydd archwiliad perfformiad ar gyfer 2023/24 yn ystyried "Cydraddoldeb ac Amrywiaeth". Nid oes unrhyw gynnydd pellach wedi'i wneud gan Archwilio Cymru ar hyn hyd yma, fodd bynnag darparwyd hyfforddiant i aelodau'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | | C<br><br>(Adolyg-wyd 20.03.24) | Prif Weithred-wr |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | | |
| 7 | Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fethu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fethu a chadw at y pwrpasau a gymeradwywyd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Genedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwalu, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwylir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect. | Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da. | 3 | 4 | **12**<br>**Ambr** | **Amserlen:** Estyniad digost wedi ei gymeradwyo i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Estyniad yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026.<br>**Pwrpasau Cymeradwy:** Mae dros hanner gwariant y gyllideb wedi'i gwblhau, gyda sawl elfen cost uchel i'w gwario yn 2024. Mae'r Cynllun yn cyflwyno rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau, gweithgareddau, gwaith ymarferol, a chynnal grantiau ers ei lansio ym mis Hydref 2020. Gweithgorau mynediad, cadwraeth a threftadaeth wedi'i sefydlu, Grŵp Craidd yn cyfarfod yn chwarterol, ac e-fwletin misol cyhoeddus wedi'i sefydlu. Mae'r wefan ar fin cael ei lansio yn allanol. Mae gwerthusiad y cynllun yn digwydd drwy gyswllt rheolaidd rhwng y gwerthuswr penodedig, y tîm craidd, partneriaid a chyfranogwyr i nodi'r llwyddiannau/heriau wrth ymateb yn briodol.<br>**Cyllid:** Mae'r risg o gyllid cyfatebol heb ei sicrhau bellach wedi'i leihau'n sylweddol, yn dilyn dau gais grant llwyddiannus i'r Fenter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol gwerth £400k, gyda chytundebau cyfreithiol rhwymol ar waith gyda phartneriaid craidd i sicrhau bod mwyafrif y cyfraniadau partner yn cael eu cynnal. Mae rhai cyfraniadau cyllid cyfatebol yn parhau heb eu cadarnhau ac mae trafodaethau parhaus yn digwydd gydag arianwyr er mwyn lleihau'r risg ariannol. Mae hawliadau grant y Gronfa Dreftadaeth Chwarterol yn barhaus a derbynnir taliadau yn ddi-oed. Mae effaith cyfradd chwyddiant ar ein prosiectau cyfalaf yn sylweddol, ac mae cyllideb chwyddiant mewn lle ar gyfer hyn. Mae'r gyllideb hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd drwy drafodaeth gyda'r Monitor Cronfa Dreftadaeth.<br>**Staff:** Mae'r tîm staff bellach yn gyflawn yn dilyn penodi Swyddog Cefnogi Cynllun (Cyllid a Chytundebau) newydd ym mis Chwefror, 2024. | 3 | 2 | **6**<br>**Ambr** |  | A<br>(Adolyg-wyd 20.03.24) | Rheolwr Prosiect |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfeiriad risg | Agosrwydd (A,C,P) | Perchennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlynia** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlynia** | | | |
| 8 | Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR). | Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | Mwyafrif o staff wedi cwblhau'r cyrsiau angenrheidiol erbyn hyn.<br><br>Mae'r cwrs wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg erbyn hyn. Datblygwyd y system fel ei fod yn atgoffa pawb pan mae hi yn amser ail eistedd y prawf. Gobeithio y bydd mwy o Aelodau a staff yn cwblhau'r cwrs eleni.<br><br>Parhau i adolygu'r hyfforddiant a sicrhau fod staff ac aelodau yn ei gymryd fel bo'r angen.<br><br>Mae cyrsiau newydd yn cael eu hychwanegu at y system ELMS a byddant yn mynd yn fyw ym mis Mawrth 2023. Bydd disgwyl i bawb sefyll y rhain cyn gynted â phosibl a bydd mynediad i rwydwaith neu e-bost yn cael ei ddileu os na fydd staff / aelodau yn cwblhau'r cyrsiau gorfodol newydd.<br><br>Cyrsiau newydd ELMS wedi ei gosod a mwyafrif o staff wedi cwblhau'r cyrsiau. Angen i'r aelodau gwblhau'r cyrsiau. Dim datblygiad pellach ar hyn o bryd. | 3 | 2 | **6**<br>**Ambr** | → | A<br>(Adolygwyd 20.03.24) | Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| 9 | Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt. | Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn. | 5 | 4 | **20**<br>**Coch** | Derbyniwyd a chymeradwywyd ail adroddiad canol tymor i'r CE (a hawliad grant cysylltiedig), gan arwain at dynnu i lawr y 3ydd taliad LIFE gan y CE ym mis Rhagfyr 2022. Mae cais am estyniad prosiect 2 flynedd wedi'i gymeradwyo'n swyddogol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan roi dyddiad gorffen prosiect newydd o 31 Gorffennaf 2027. Ni fydd hyn yn effeithio ar gost gyffredinol y prosiect.<br><br>Mae adborth swyddogol gan y Comisiwn, gan gynnwys y Genhadaeth Fonitro diweddar (Tachwedd 2022) a'r 2il Adroddiad Canol Tymor (Hydref 2022), hyd yn hyn yn gadarnhaol, gyda dim ond mân bryderon a diwygiadau sydd angen sylw. Adroddiad Cynnydd Diweddaraf wedi'i gyflwyno ym mis Medi 2023. Dim adroddiadau pellach i'w cyflwyno tan fis Mawrth 2025.<br><br>Pob taliad cyd-ariannwr arall yn gyfredol, gan gynnwys y cyfraniad o £2m gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian sydd dros ben yn y prosiect hyd yn hyn (tua £301k) oherwydd cyfradd gyfnewid ffafriol, a fydd angen cyfatebiaeth o 40% gan bartneriaid (tua £200k - £300k os bydd cyfanswm y cyllid yn cael ei dynnu i lawr o'r UE).<br><br>Dim diweddariad pellach o'r cyfnod blaenorol. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | → | A<br>(Adolygwyd 20.03.24) | Rheolwr Prosiect |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfeiriad risg | Agosrwydd (A,C,P) | Perchennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 10 | Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfoddhaol. | Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach. | 4 | 3 | **12** **Ambr** | Mae materion staffio yn parhau i fod yn broblem enfawr i'r prosiect, gyda phrofiadau pellach o golli staff - gadawodd Cai Roberts, (APCE) ym mis Ebrill 2024, gydag Adam Thorogood (WT) i fod i adael ym mis Mehefin 2024. Hefyd, roedd absenoldebau tymor canolig i hirdymor yn ystod yr hanner olaf o 2023 / hanner cyntaf 2024 ymhlith 3 aelod o staff - Swyddog Prosiect David Jones (Hydref 2023 - Mai 2024, nawr yn dychwelyd yn raddol i'r gwaith), Swyddog Ymgysylltu Lucy Evans (absenoldebau amrywiol, y diweddaraf o Ebrill 2024 hyd at y presennol) a Swyddog Prosiect Cynorthwyol Gwion ap Dafydd (Ebrill 2024 – Mai 2024). Canlyniad y problemau staffio yw llwyth gwaith cynyddol a straen ar staff presennol a lleihad mewn allbwn. Arweiniodd costau staff uwch (chwyddiant, angen cyflogi staff ychwanegol) at yr angen i symud arian o gwmpas o fewn y prosiect i dalu'r costau.<br><br>Y tarfu a achoswyd gan drosiant staff (colli momentwm, peidio â gweithredu hyd eithaf ei allu am gyfnodau sylweddol), ochr yn ochr ag effeithiau pandemig Covid-19, oedd y prif yrrwr y tu ôl i ofyn am estyniad o 2 flynedd. | 4 | 3 | **12** **Ambr** | → | C (Adolygwyd 20.03.24) | Rheolwr Prosiect / Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir |
| 11 | Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod. | Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod. Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli. | 3 | 3 | **9** **Ambr** | Mae swyddogion yn dilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tîm rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i baratoi cefnogaeth fwy canolog i brosiectau i sicrhau bod cysondeb a chydymffurfiaeth yn cael eu rheoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ymagwedd aml-flwyddyn at brosiectau/rhaglenni. Ym mis Mawrth 2022, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau y protocolau ar ddatblygu a derbyn cynigion grant. Mae trafodaeth ar ddatblygu rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod 2025 i 2028 yn mynd rhagddi gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru. | 2 | 4 | **8** **Ambr** | → | A (Adolygwyd 20.03.24) | Tîm Rheoli |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 12 | Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i gyllidebau fflat ac effaith chwyddiant. | Effaith ar gadw staff a recriwtio a hefyd perfformiad yr Awdurdod. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | Mae cyfres o fesurau i ddelio gyda gwytnwch yn cynnwys:<br>1. Gwerthusiad blynyddol ar gyfer staff unigol,<br>2. Datblygiad cynllun llesiant staff yn y gweithle,<br>3. Sefydlu cronfa wrth gefn ar gyfer gwytnwch staff,<br>4. Cyfraddau cadw staff a salwch.<br><br>Ers yr adolygiad o delerau ac amodau staff bydd angen i'r Awdurdod fonitro effaith chwyddiant a chostau byw ar wytnwch staff a'u gallu i gadw a recriwtio. Cymeradwywyd adolygiad cyflog yn 2022. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn gweithredu modelau gweithio hybrid ar draws yr Awdurdod ar gyfer staff swyddfa yn bennaf. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | | A<br>(Adolyg-wyd 20.03.24) | Tîm Rheoli |
| 13 | Yr Ysgwrn yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb. | Yr Ysgwrn yn dibynnu ar fudd- dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad ydi'r Ysgwrn yn gynaliadwy. | 4 | 4 | **16**<br>**Coch** | Mae cynnal Yr Ysgwrn o fewn y gyllideb yn her barhaus yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n amharu ar wariant ymwelwyr a chostau rhedeg cynyddol. Cafwyd cynnydd o 14% yn incwm Yr Ysgwrn yn 2023/24, diolch i raglen ymgysylltu ysgolion ac arddangosfa Geiriau Diflanedig.<br><br>Mae costau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o gostau, megis gwres, ffôn a thrydan yn sefydlog ac yn angenrheidiol ar gyfer safonau achredu.<br><br>Mae'r Ysgwrn wedi llwyddo i ddenu cefnogaeth ariannol allanol ar gyfer prosiectau a gweithgareddau ac mae swyddogion yn gweithio i ddatblygu cyfleoedd pellach ar gyfer uchafu'r incwm yma, e.e. drwy sefydlu Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar gyfer Yr Ysgwrn. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | | A<br>(Adolyg-wyd 20.03.24) | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadae-th Ddiwyllia-nnol |
| 14 | Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth). | Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.<br><br>Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu â chyrraedd nodau cynhyrchu incwm oherwydd prinder staff sy'n arwain at gau. | 4 | 4 | **16**<br>**Coch** | Wedi'i staffio'n llawn ar gyfer Tymor 2024/25. Fodd bynnag, mae absenoldebau oherwydd materion allanol yn peri problemau yn y tymor byr.<br><br>Mae Gŵyl Banc cynnar y Pasg, sy'n disgyn yn rhannol yn y flwyddyn ariannol flaenorol, yn ei gwneud hi'n anodd allosod canlyniadau Chwarter 1. Fodd bynnag, cafodd y tair canolfan hanner tymor llwyddiannus, gydag Aberdyfi a Beddgelert yn arbennig gyda chanlyniadau incwm cryf ar gyfer mis Mai. | 4 | 2 | **8**<br>**Ambr** | | A<br>(Adolyg-wyd 20.03.24) | Rheolwr Canolfan-nau Gwybodaeth |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfeiriad risg | Agosrwydd (A,C,P) | Perchennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlynia** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlynia** | | | |
| 15 | Cynhyrchu Incwm (Cynllunio). | Y brif risg fyddai incwm annigonol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth cynllunio yn effeithiol. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | Ar gyfer 2023-24 roedd cyllideb incwm ffioedd cynllunio (ffioedd cynllunio a chyngor cyn cais) yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb a osodwyd. Mae hyn yn codi tua 28% o gostau'r gwasanaeth Rheolaeth Datblygu.<br>Mae'r gallu i liniaru unrhyw risgiau yn weddol gyfyngedig ond bydd yr Awdurdod yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru am gynnydd mewn ffioedd.<br>Rydym nawr ar ddeall bydd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn yr Hydref ar geisio symud tuag at adennill costau llawn y gwasanaeth drwy ffioedd cynllunio. Bydd hyn yn gadarnhaol iawn os yw'n cael ei weithredu. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | | A<br>(Adolygwyd 20.03.24) | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir |
| 16 | Risg o gael ymosodiad Seibr | Colli data a mynediad i'r rhwydwaith | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | Camau yn eu lle i ddiogelu data. Angen gwneud profion treiddiad a gwe-rwydo i weld lle mae ein gwendidau.<br>Cyswllt cyfathrebu newydd yn ei le ac oherwydd cyfyngiadau cyllidebol bydd y profion yn cael eu cynnal yn y flwyddyn ariannol newydd.<br>Dim newid ar hyn o bryd – parhau i gadw safon diogelwch fel oedd gennym.<br>Linc newydd yn cael ei osod ym Mhlas Tan y Bwlch ym mis Tachwedd ac adolygiad o'r 'Firewall' yr un pryd. Rydym wedi uwchraddio'r *firmware* ar y *firewalls* ym mhencadlys.<br>Rydym wedi uwchraddio cysylltiad Yr Ysgwrn. Gobeithir gwneud profrion '*penetration'* yn yr Hydref. | 3 | 2 | **6**<br>**Ambr** | | A<br>(Adolygwyd 20.03.24) | Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforae - thol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | | |
| 17 | Gwydnwch y Tîm Rheoli | Mae recriwtio Prif Weithredwr newydd wedi adnabod risgiau i wydnwch y Tîm Rheoli. Dim digon o adnoddau i alluogi'r Tîm Rheoli i weithredu'n effeithiol, yn enwedig yn y sefyllfa lle mae newid mewn personél a/neu absenoldeb tymor hir heb ei ragweld. | 4 | 4 | **16**<br><br>**Coch** | Mae gan y Panel Recriwtio, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Adran 151 newydd, y dasg a'r awdurdod i fynd i'r afael â materion posibl yn deillio o drosiant personél yn yr Uwch Tîm Rheoli.<br><br>Bydd strwythur hirdymor y Tîm Rheoli yn fater i'w ystyried unwaith y bydd y Prif Weithredwr newydd yn ei swydd. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | | N<br><br>Newydd | Y Panel Recriwtio, Pennaeth AD, Swyddog 151 |

| **Sgorio'r Risg** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | **Isel Iawn = 1** | **Isel = 2** | **Canolig = 3** | **Uchel = 4** | **Uchel Iawn = 5** |
| **Effaith** | **Isel Iawn = 1** | **Isel = 2** | **Canolig = 3** | **Uchel = 4** | **Uchel Iawn = 5** |
| **Sgôr Cyfunol** | | | **Risg Cyffredinol** | | |
| **1 – 4** | | | **Isel** | | **Gwyrdd** |
| **6 – 14** | | | **Canolig** | | **Ambr** |
| **15 – 25** | | | **Uchel** | | **Coch** |

**EITEM RHIF 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 10 Gorffennaf 2024 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER BLWYDDYN 2023: DANGOSYDDION PERFFORMIAD STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Cyfathrebu |
| **PWRPAS** | I ddarparu adroddiad blynyddol ar ddangosyddion perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a chynnydd ar y cynllun gweithredu. |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cafodd y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ei fabwysiadau gan yr Awdurdod ym Mehefin 2021. Ei brif amcanion yw:

- I gynyddu dealltwriaeth pobl o beth sydd yn gwneud Eryri mor arbennig- drwy ddefnyddio'r Rhinweddau Arbennig fel sylfaen i themau cyfathrebu a negeseuon.
- I adeiladu ar ein perthynas gyda'n partneriaid: i geisio deall barn a safbwyntiau ac i adeiladu perthynas er mwyn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ar y cyd.
- I droi ymgysylltu i weithredu: bod mwy o bobl yn gweithio'n ragweithiol i'n helpu i ofalu am Eryri, unai yn y ffordd y maent yn ymweld (gyda pharch i'r amgylchedd a'r bobl sydd yn byw a gweithio yma); darparu cyllideb; gwneud pethau ar y ddaear neu roi eu hamser; adnoddau neu arian; neu drwy ddylanwadu ar eraill.
- I adeiladu ar ddealltwriaeth ac enw da'r Parc Cendlaethol a'i frand ymysg ein rhanddeiliaid allweddol a chyllidwyr.
- I gyflawni amcanion a chanlyniadau Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol.

1.2 Bydd y cynllun yn cael ei gyflawni yng nghyd destun nifer o strategaethau sefydliadol yn cynnwys:

- Cynllun Eryri
- Y Cynllun Datblygu Lleol
- Amcanion Lles a Rhaglen Waith Corfforaethol Yr Awdurdod

1.3 Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfres o dargedau a dangosyddion perfformiad er mwyn mesur y cynnydd i gyflawni canlyniadau'r Strategaeth. (Gweler adran 2.0 isod) ac mae rhain yn cael eu hadrodd yn flynyddol. Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei atodi yn atodiad 1.

**2. CANLYNIADAU A DDYMUNIR O'R STRATEGAETH**

2.1 Mae prif ganlyniadau'r strategaeth fel a ganlyn:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o ddynodiad y Parc Cenedlaethol
- Cynnydd yn nealltwriaeth o rôl, cyfrifoldebau ac ardaloedd gwaith APCE, ac agwedd gadarnhaol o'r sefydliad.
- Cynnydd yn ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig Eryri a'r buddion y Parc Cenedlaethol.
- Cynnyddu'r ymwybyddiaeth o'r heriau a chyfleoedd sydd yn wynebu Eryri a sut mae'r Awdurdod yn gweithio gyda partneriaid i fynd i'r afael â rhain.
- Cynyddu'r ymdeimlad o gyfrifoldeb personol a chyfunol i ofalu am y Parc.
- Defnydd cyfrifol a pharchus o'r Parc Cenedlaethol.
- Bydd pobl yn awyddus i ymgysylltu a chymryd rhan yn ein hymdrechion (unai'n rhithiol neu mewn person).
- Bydd pobl wedi ei hysbrydoli i roi eu hamser, rhoddion neu gefnogi i ddiogelu Eryri.
- Mae pobl yn cysylltu Eryri gyda twrisiaeth gynaliadwy ac yn cael eu hysbrydoli i archwilio'r ardal yn bellach (unai'n rhithiol neu mewn person)
- Bydd ein staff, gwirfoddolwyr ac aelodau yn teimlo'n wybodus iawn.

**3. ADRODDIAD BLYNYDDOL**

3.1 Mae Atodiad 1 yn cynnwys yr adroddiad blynyddol.

**ARGYMHELLION**

- I archwilio a thrafod yr adroddiad blynyddol.

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

# ADRODDIAD CYNNYDD 2023

## STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

## *CYNNWYS*

### *Cefndir*


Crynodeb **4**

Nodau Craidd y Strategaeth Gyfathrebu **5**

Canlyniadau Cyfathrebu a Ddymunir **6**

Negeseuon Allweddol **7**


### *Metrics*


Uchafbwyntiau 2023 **8**

Ymgyrch Ymwelwyr 2023 – Eryri Ni 23 **9**

Ymgyrch Digidol Mabinogion Di-Blastig **11**

Metrigau Gwefan **12**

Metrigau Sianeli Digidol 15

Postiau Mwyaf Poblogaidd Sianeli Cymdeithasol Trwy Gyfraddau Ymgysylltu **21**

Datganiadau a'r Wasg **25**

Papurau Bro **25**

***Amcanion***

Prif Amcanion 2024 **26**

***Dogfennaeth***

Dogfennau Perthnasol **27**

# Cefndir

Yn 2023 bu i'r tîm cyfathrebu wynebu heriau sylweddol yn ei strwythur, yn bennaf gan nad oedd Pennaeth Gwasanaeth mewn lle am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ac ymadawiad y Rheolwr Brand a Chynnwys am swydd allanol. Er hyn, dangosodd y tîm wydnwch ac ymroddiad i lwyddo cyflawni nifer o lwyddiannau a gosod sylfaen cadarn i symud tua'r dyfodol.

***Mynd i'r afael a'r heriau***

Gydol y flwyddyn, profodd yr Awdurdod heriau megis gostyngiad mewn ymgysylltu digidol wedi cyfnod brig y pandemig, archwiliad gwefan gan wasanaeth digidol y llywodraeth a heriau capasiti oherwydd swyddi gwag. Dangosodd hyn fod angen i ni addasu ein strategaethau er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o sgiliau ein staff yn ogystal ag amddiffyn llesiant ein gweithwyr.

***Casgliad:***

Er yr heriau, dangoswyd dyfalbarhâd gan y tîm trwy gydweithio effeithiol ag adrannau eraill o fewn yr Awdurdod a dangos canlyniadau o safon a chyflawni prosiectau fydd yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad hwn wrth baratoi i addasu yn 2024.

Weth edrych ymlaen, mae'r Awdurdod yn edrych ymlaen i adeiladu ar y llwyddiannau trwy weithio mewn partneriaethau strategol ac arweiniad newydd yn ein cynnwys cyfryngau cymdeithasol. Trwy weithredu'r cryfdreau hyn, mae'r Awdurdod yn parhau i fod mewn lle cadarn i fod mewn rôl arweiniol o fewn teulu Parciau Cenedlaethol y DU a pharhau i warchod Eryri trwy hyrwyddo twristiaeth gynaladwy ac ymgysylltu a'n cymunedau yn effeithiol.

# *Nodau Craidd y Strategaeth Gyfathrebu*

Beth sydd angen i'n cyfathrebiadau ei wneud, er mwyn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei Bwrpasau yn effeithiol?

Rydyn ni yma fel sefydliad i ofalu am Eryri. Heb gynnwys pobl yn effeithiol ynghylch pam fod hyn yn bwysig i'w wneud, ni fyddwn yn llwyddo. Mae llwyddiant ein cenhadaeth wedi'i ymblethu yn ein gallu i gysylltu â'n cynulleidfaoedd targed. Y bwriad yw ymgysylltu yn y fath fodd fel eu bod yn cael eu symud i weithredu - i'n helpu i ofalu am y Parc Cenedlaethol.

**Ein nodau craidd trwy'r strategaeth hon felly yw:**

- ➔ Cynyddu dealltwriaeth pobl o'r hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig - trwy ddefnyddio'r Rhinweddau Arbennig fel sylfaen ar gyfer themâu cyfathrebu a negeseuon.
- ➔ Adeiladu ein perthynas gyda'n partneriaid: i geisio deall eu barn a'u safbwyntiau, ac adeiladu perthnasau er mwyn cyflawni ar pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ar y cyd.
- ➔ Sbarduno gweithrediad trwy gyfrwng yr ymgysylltiad: fel bod mwy o bobl yn ein helpu'n rhagweithiol i ofalu am Eryri, boed hynny yn y ffordd y maent yn ymweld (gyda pharch at yr amgylchedd a phobl sy'n byw ac yn gweithio yma); a darparu mwy o arian; gwneud pethau ar lawr gwlad neu roi eu hamser; adnoddau neu arian; neu trwy ddylanwadu ar eraill.
- ➔ Adeiladu ar ddealltwriaeth ac enw da'r Parc Cenedlaethol a'i frand ymysg ein rhanddeiliaid a buddsoddwyr blaenoriaethol.
- ➔ Cyflawni amcanion a chanlyniadau Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol.

## *Canlyniadau Cyfathrebu a Ddymunir*

Byddwn yn gwybod ein bod wedi bod yn llwyddiannus gyda'n hymdrechion os ydym yn cyflawni'r hyn a ganlyn gyda'n rhanddeiliaid:

1. Cynyddu ymwybyddiaeth o ddynodiad y Parc Cenedlaethol.
2. Gwell dealltwriaeth o rôl, cyfrifoldebau a meysydd gwaith APCE, a chanfyddiadau cadarnhaol o'r sefydliad.
3. Mwy o ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig Eryri a buddion y Parc Cenedlaethol.
4. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Eryri (e.e. newid yn yr hinsawdd, yr economi gylchol, Brexit ac ati) a sut mae'r Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys lleisio uwch ar bynciau o ddiddordeb mawr perthnasol.
5. Mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb personol a chyfunol dros ofalu am y Parc.
6. Defnydd parchus a chyfrifol o'r Parc Cenedlaethol.
7. Pan fo pobl yn awyddus i ymgysylltu a chymryd rhan yn ein hymdrechion (naill ai'n rhithiwr neu'n gorfforol).
8. Pan fo pobl yn cael eu hysbrydoli i roi eu hamser, eu rhoddion neu eu cefnogaeth i amddiffyn Eryri.
9. Pan fo pobl yn cysylltu Eryri â thwristiaeth gynaliadwy.
10. Pan fo ein staff, gwirfoddolwyr a'n haelodau'n teimlo bod ganddynt wybodaeth dda.

# *Negeseuon Allweddol*

Y Syniad arweiniol (cynnig craidd)

Mae Eryri yn Barc Cenedlaethol â Rhinweddau Arbennig. Bydd hyn wrth galon yr hyn yr ydym am i bobl ymgysylltu ag o.

Trwy ddechrau gyda'r ffaith sylfaenol bod Eryri yn dirwedd warchodedig arbennig - Parc Cenedlaethol, a thrwy roi'r Rhinweddau Arbennig ar y blaen ac yn y canol.

Drwy gynnwys pobl wrth amddiffyn yr ardal yn yr ail bwrpas byddwn yn cyflawni'r pwrpas cyntaf; I warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal, ynghyd â chyfrifoldebau Awdurdod: i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n amcanu tuag at y pwrpasau hyn.

**Prif Negeseuon 2023 oedd.**

1. Rydyn ni yma fel sefydliad i ofalu am y Parc Cenedlaethol, ei chymunedau, treftadaeth, ei thirwedd a bywyd gwyllt.
2. Mae'r bobl sy'n byw yma, eu diwylliant, eu hiaith, a'u cysylltiad â'r tir yn rhan gynhenid o'r hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig.
3. Mae Eryri yn un o'r lleoliadau gorau ym Mhrydain i fwynhau'r buddion o fod yn yr awyr agored er lles iechyd meddwl a chorfforol ond mae'n dirwedd fregus a gwarchodedig - troediwch yn ysgafn pan fyddwch chi'n ymweld.

## *Uchafbwyntiau 2023*

Cyflawnwyd nifer o brosiectau cyfathrebu ac ymgysylltu yn 2023 er mwyn hyrwyddo deallusrwydd y cyhoedd am ein tirwedd unigryw.

Roedd mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn gyfle gwych i hyrwyddo gwaith Yr Awdurdod yn ogystal a dathlu diwylliant Cymru a'r Iaith Gymraeg, sy'n ran anatod o hunaniaeth Eryri.

Unwaith eto eleni cyhoeddwyd papur Eryri 2023-24 gan ddarparu 90,000 o gopiau er mwyn cyrraedd cynulleidfa eang. Mae'r cyhoeddiad yma yn arf cyfathrebu hanfodol i ni ddarparu gwybodaeth am ein prosiectau, heriau a llwyddiannau o fewn Yr Awdurdod.

Mae hyrwyddo'r prosiect BMW 'Ailwefru mewn Natur' mewn partneriaeth a Pharciau Cenedlaethol y DU yn dangos ein hymroddiad i ymgysylltu ar destynau cynaladwyedd a chymunedol.

Mae cyrraedd 1,000 o Lysgenhadon Eryri trwy Gynllun Llysgennad Cymru wedi bod yn garreg filltir sylweddol i staff Yr Awdurdod. Mae'r llysgenhadon hyn yn chwarae rhan bwysig yn dysgu a deall mwy am waith yr Awdurdod ac yna eu hyrwyddo. Mae hefyd yn gyfle i ni atgyfnerthu ein perthynas gyda'n cymunedau, busnesau ac ymwelwyr.

Mae gwaith yn parhau er mwyn gwella profiad ymwelwyr ar safloedd Hafod Eryri a Chanolfan Cwm Idwal a'r gobaith o gael eu cyflawni yn 2024. Mae'r rhain yn safleoedd hanfodol i ni sicrhau ein bod yn darparu cyngor ffeithiol a difyr.

Mewn canlyniad, mae'r llwyddiannau hyn yn dangos ein hymroddiad i ddarparu cyfathrebu ac ymgysylltu cymunedol trwy gymaint o wahanol ffyrdd er mwyn i bawb, boed yn drigolion neu ymwelwyr dderbyn y cyfle i ddysgu a deall mwy am ein Parc Cenedlaethol.

## *Eryri Ni 23*

**Rhagymadrodd**

'Eryri Ni 23' oedd prif strategaeth gyfathrebu'r Awdurdod ar gyfer tymor ymwelwyr 2023.

Roeddem yn canolbwyntio ar leihau rhaniadau rhwng demograffeg ar-lein a phwysleisio ein bod ni i gyd yn gyfrifol gyda'n gilydd am warchod tirwedd, bioamrywiaeth a chymunedau'r Parc Cenedlaethol.

**Be' Oeddem Eisiau Ei Gyflawni**

Gan ddefnyddio negeseuon tebyg i'r 2 flynedd ddiwethaf o ymgyrchoedd yr haf, roeddem am hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad a'r ymgysylltiad gorau posib. Gall ymgyrch gyfathrebu twristiaeth gynaliadwy lwyddiannus gael nifer o ganlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys:

1. Mwy o ymwybyddiaeth: Bydd ymgyrch sy'n cael ei gweithredu'n dda yn cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd arferion twristiaeth gynaliadwy, ac effaith eu dewisiadau ar y dirwedd, bioamrywiaeth a chymunedau lleol.
2. Newid cadarnhaol mewn ymddygiad: Gall ymgyrch effeithiol ysgogi twristiaid i newid eu hymddygiad a mabwysiadu arferion twristiaeth mwy cynaliadwy, megis dewis defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, beicio neu gerdded yn lle gyrru, a chefnogi busnesau lleol.
3. Manteision economaidd: Gall twristiaeth gynaliadwy greu buddion economaidd i gymunedau a busnesau lleol.

**Negeseuon Allweddol**

- Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae i ddiogelu ein Parc Cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy ddewis twristiaeth gynaliadwy. Gyda'n gilydd, gallwn warchod ei harddwch a'i hadnoddau naturiol am flynyddoedd i ddod.
- Hyrwyddo teithio a thwristiaeth gynaliadwy. Dewiswch opsiynau teithio cyfrifol ac ecogyfeillgar i warchod cymunedau lleol ein Parc Cenedlaethol trwy leihau allyriadau carbon.

- Dysgwch am hanes a phwysigrwydd y Parc Cenedlaethol. Parchu bioamrywiaeth, tirweddau, iaith a diwylliant cymunedau lleol Eryri.

**Ymgyrchoedd a Phrosiectau Bach**

- ***Prif Ymgyrch Negeseuon yr Haf*** – Ymgyrch ar dwristiaeth gynaliadwy ar-lein gan ddefnyddio technegau digidol newydd.
- ***Ymgyrch Cydweithrediad Llysgenhadon 'Eryri X'*** – Bu 40 o Llysgenhadon Aur yn gymwys ar gyfer graffeg cyfryngau cymdeithasol mewn partneriaeth ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd y llysgenhadon aur yn gallu cofrestru erbyn dyddiad y cytunwyd arno ac yn derbyn cyfres o deils wedi'u teilwra yn dangos logo eu cwmni i hyrwyddo negeseuon allweddol y strategaeth. Byddant hefyd yn derbyn pecyn hyrwyddo corfforol ar gyfer eu busnes fel diolch. Golyga hyn fod negeseuon yr Awdurdod wedi cyrraedd cynulleidfaoedd pellach gan fod y llysgenhadon yn rhannu ein negeseuon ar eu sianeli ei hunain.
- ***Cyfres Fideo Llwybrau Hygyrch*** – Cynhyrchwyd cyfres fideo yn hyrwyddo Llwybrau Hygyrch Eryri hyrwyddwyd llwybr bob mis dros y tymor ymwelwyr.
- ***Sesiwn Tynnu Lluniau Dylanwadwyr Yr Wyddfa Ddi-blastig*** – Sesiwn tynnu lluniau /ffotograffau yn cyfuno Mytholeg a Chwedlau Eryri gyda sbwriel. Bwriad hyn oedd codi ymwybyddiaeth am faterion sbwriel yn y safleoedd prysuraf o amgylch y Parc Cenedlaethol a gweithio gyda dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau cymaint o ymgysylltu ar-lein â phosibl.
- ***Ymgyrch Warden y Mis*** – Ymgyrch fach yn canolbwyntio ar y Cod Cefn Gwlad. Bu un Warden y mis yn tynnu sylw at ran benodol o'r cod fel trin cŵn, gwersylla gwyllt a diogelwch dŵr drwy ymgysylltu ar-lein.
- ***Erthyglau Twristiaeth Gynaliadwy*** - Cyfres o erthyglau yn seiliedig ar yr ymholiadau chwilio mwyaf poblogaidd a gafodd eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod i raddio'n uwch ar beiriannau chwilio'r rhyngrwyd a denu traffig gwefan.

## *Ymgyrch Mabinogion Di-Blastig*


Ym mis Mehefin 2023, lansiwyd ymgyrch unigryw i hyrwyddo negeseuon prosiect Yr Wyddfa Ddi-Blastig. Y nôd oedd ymgyrchu i leihau sbwriel a hyrwyddo arferion cynaliadwy. Am y tro cyntaf erioed, bu'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol a'u portreadu fel cymeriadau'r Mabinogion yn rhyngweithio â sbwriel mewn lleoliadau poblogaidd yn y parc. Llwyddodd y dull creadigol hwn i godi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli newidiadau ymddygiad ac ennyn sylw ar-lein a gan y wasg, gan ei wneud yn un o uchafbwyntiau cyfathrebu 2023.

Gan ddefnyddio strategaeth gyfathrebu aml-sianel, rhannwyd cynnwys arloesol ar Instagram, Twitter, a Facebook, gyda gwefan yr Awdurdod yn gweithredu fel canolfan wybodaeth. Arddangoswyd posteri trawiadol ledled y parc, a cynhyrchwyd fideo cerddoriaeth yn cynnwys lluniau drôn a chaneuon gan y cyfansoddwr lleol Hero Douglas er mwyn ehangu'r ymgyrch ymhellach.

Dyma ganlyniadau organig yr ymgyrch digidol


I. # argraffiadau 409,071
II. # ymgysylltiadau 11,691
III. # ymweliadau gwefan 340










## *Metrigau'r Wefan*

Lansiwyd y wefan newydd yn 2022 ac mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn niferoedd ymwelwyr yn 2023 sydd wedi amlygu'r gwelliannau i'r cynnwys a'r brand. Mae symleiddio'r strwythur a darpariaeth o wybodaeth safon uchel am y Parc Cenedlaethol wedi cynnyddu'r traffig i'r wefan yn enwedig trwy dargedau geiriau allweddol sy'n dangos bod ein ymwelwyr yn dibynnu arnom am wybodaeth am Eryri.

Sialens yr ydym yn rhagweld ar ddiwedd 2024 yn amodol ar benderfyniadau aelodau yw cwblhau'r cyfnod pontio ar-lein efo'r defnydd o 'Snowdon' a 'Snowdonia' a defnyddio "www.eryri.gov.wales" ar ochr Saesneg y wefan. Mae'r tim yn gweithio'n galed i sicrhau y gall hyn ddigwydd tra'n parhau i dderbyn niferoedd uchel o ymwelwyr i'r wefan.

| Metrig | Sut y byddwn yn mesur | Pwy fydd yn casglu'r data? | Canlyniadau 2022 | Canlyniadau 2023 | Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir? |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y nifer o weithiau 'gwelwyd' y wefan | Google analytics | Swyddog Cynnwys Digidol | 2.38 miliwn | 5.4 miliwn | Mae'n mesur y gyfradd llwyddiant wrth ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ar draws pob un o'r 10 canlyniad. |
| Average Engagement Time per session | Google analytics | Swyddog Cynnwys Digidol | 1m 09s | 1m 38s | |
| Nifer y 'gwelwyd' tudalennau o lwybrau wedi eu hyrwyddo (yn cynnwys nodweddion i'r Wyddfa ac Ogwen) | Google analytics | Swyddog Cynnwys Digidol | **10 Uchaf**<br>1. Rhagdudalen 398k<br>2. Parcio ar gyfer Yr Wyddfa 111k<br>3. Cynllunio Eich Ymweliad 81k<br>4. Llwybrau a Theithiau 72k<br>5. Llwybr Llanberis 68k<br>6. Tudalen gartref 49k<br>7. Llwybr Pyg 46k<br>8. Llwybr Watkin 41k<br>9. Sherpa'r Wyddfa 40k<br>10. Llwybr y Mwynwyr | **10 Uchaf**<br>1. Rhagdudalen: 646,449<br>2. Llwybrau: 538,532<br>3. Dringo'r Wyddfa: 251,637<br>4. Maes Parcio Pen y Pass: 216,284<br>5. Cynllunio eich ymweliad: 213,527<br>6. Llwybr Llanberis: 187,616 | Bydd yn mesur y raddfa o ymgysylltu i gyflawni negeseuon o ddefnyddio'r Parc Cenedlaethol yn barchus a chyfrifol (Canlyniad 6) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 34k | 7. Parcio ar gyfer Yr Wyddfa 186,275<br>8. Llwybr Watkin: 130,256<br>9. Llwybr Pyg: 110,992<br>10. Llwybr y Mwynwyr: 100,260 | |
| Gwerth y rhoddion a dderbynnir (ar-lein) | Google analytics | Swyddog Cynnwys Digidol | £48 | £232.54 | Bydd yn mesur y newid yn y modd y mae pobl yn cael eu hysbrydoli i roi rhoddion i APCE (Canlyniad 8). |
| Lle rydyn ni'n ymddangos mewn canlyniadau chwilio am ymadroddion allweddol:<br>• Snowdonia<br>• Eryri<br>• Snowdon<br>• Yr Wyddfa<br>• Llanberis path<br>• Llwybr Llanberis<br>• Snowdonia National Park | Google analytics/ Keyword Rank checker: [https://ahrefs.com/keyword-rank-checker](https://ahrefs.com/keyword-rank-checker) | Swyddog Cynnwys Digidol | Snowdonia: #2<br>Eryri: #1<br>Snowdon: #6<br>Yr Wyddfa: #1<br>Llanberis path: #3<br>Llwybr Llanberis: #1<br>Snowdonia National Park: #1<br>Parc Cenedlaethol Eryri: #1<br>*Eryri National Park: #1*<br>Snowdonia National Park Authority: #1<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: #1 | Snowdonia: #1<br>Eryri: #1<br>Snowdon: #6<br>Yr Wyddfa: #1<br>Llanberis Path: #1<br>Snowdonia National Park: #1<br>Parc Cenedlaethol Eryri: #1<br>Snowdonia National Park Authority: #1<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: No data for this keyword. | Bydd yn mesur pa mor effeithiol yr ydym o ran cyrraedd cynulleidfaoedd er mwyn ymgysylltu â nhw ac i ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu hymddygiad mewn perthynas ag Eryri (Canlyniadau 1, 2, 3, 5, 8, 9). |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| • Parc Cenedlaethol Eryri<br>• Snowdonia National Park Authority<br>• Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | | | | | |
| Cyfanswm defnyddwyr | Google Analytics | | Dim data wedi ei gofnodi yn 2022 | 1.1 miliwn | |

## *Metrigau Cyfryngau Digidol*

Yn 2023 wynebodd ein cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyr a sianeli digidol eraill heriau o ganlyniad i ddiffyg pennaeth adran am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Er yr heriau capasiti, mae'n galonogol gweld cynnydd sefydlog yn ein dilynwyr ar bob platfform.

Mae'n bwysig nodi yma fod ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol yn ei gyfanrwydd wedi distewi wedi pandemig covid a bellach mae'n hanfodol ein bod yn addasu ein strategaethau i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein cynulleidfaoedd ar-lein wrth symud ymlaen.

| **Metrig** | **Sut y byddwn yn mesur** | **Pwy fydd yn casglu'r data?** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y postiau | Hootsuite | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | 924 | 1307 | 2,749 | **2,574** | 2,770 | Bydd yn mesur pa mor ragweithiol yr ydym wrth ymgysylltu gyda'n cynulleidfaoedd ac felly'r potensial i gyflawni'r 10 canlyniad. |
| Maint y negeseuon (cyfanswm sy'n cael ei anfon a'i dderbyn/ sylwadau ar draws ein llwyfannau ) | Hootsuite | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | Anfon: 947 Derbyn: 1,411 | Anfon: 1,398 Derbyn: 7,235 | Anfon: 3,342 Derbyn: 21,866 | Anfon: **3,338** Derbyn: 9,459 | Derbyn 8,443 | Bydd yn mesur pa mor ragweithiol yr ydym wrth ymgysylltu gyda'n cynulleidfaoedd ac felly'r potensial i gyflawni'r 10 canlyniad. |
| Nifer yr argraffiadau ar y cyfryngau cymdeitha | Hootsuite | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | **1.59 miliwn** Trydar 100 mil Facebook | **6.36 miliwn:** Trydar 275 mil Facebook | **9.19 miliwn:** Trydar 2.53 miliwn Facebook 6.15 miliwn | **7.89 miliwn Trydar1.15 miliwn** Facebook **5.7 miliwn** | **4.7 miliwn** Twitter 897,914 Facebook 3.15 miliwn Instagram 606,163 | Mae'n mesur maint y gynulleidfa yr ydym yn ei chyrraedd mewn perthynas â'n |

15

| **Metrig** | **Sut y byddwn yn mesur** | **Pwy fydd yn casglu'r data?** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| sol (nifer o weithiau mae cynnwys wedi cael ei weld gan ddefnydd wyr) | | | 1.4 miliwn Instagram 39 mil LinkedIn n/a | 6.05 miliwn Instagram 40 mil LinkedIn n/a | Instagram 499.9 mil LinkedIn 4,928 | Instagram **1.02 miliwn** Linked-in **14 mil** | LinkedIn 40,770 | straeon a'n negeseuon ac felly'r potensial i gyflawni'r 10 canlyniad |
| Cyfanswm y nifer o weithiau yr ydym wedi ymgysylltu (hoffi, ymateb ac ati) | Hootsuite | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | **88,351** Twitter 1.8 mil Facebook 84 mil Instagram 2,316 LinkedIn n/a | **536,590** Twitter 8.9 mil Facebook 526 mil Instagram 1,514 LinkedIn n/a | **477,357** Twitter 98 mil Facebook 361 mil Instagram 17,530 LinkedIn 414 | **248 mil** Twitter **34 mil** Facebook **198 mil** Instagram **15,299** LinkedIn **1224** | **159 mil** Twitter 20 mil Facebook 108 mil Instagram 28,769 LinkedIn 1510 | Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 5,6 & 7) |
| Cyfanswm sydd yn clicio ar | Hootsuite | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | 7,393 | 25,969 | 40,847 | **22,114** | 19,887 | Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad |

| Metrig | Sut y byddwn yn mesur | Pwy fydd yn casglu'r data? | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ddolen mewn post | | | | | | | | 5,6 & 7) |
| Cyfanswm y gynulleidfa ar y cyfryngau cymdeithasol | Hootsuite | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | 12,362 | 21,411 | 50,773 | **56,862 (+12%)** | 63,722 | Bydd yn mesur maint y gynulleidfa yr ydym yn ceisio eu cyrraedd ar draws y 10 canlyniad. |
| Nifer o ddilynwyr ar Instagram | Instagram | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | n/a | 2,004 | 4,870 | **7115** | 8684 | Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 5, 6 a 7) |
| Nifer o ddilynwyr ar Tik Tok | Tik Tok | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | n/a | n/a | 43 | **84** | 321 | Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 5, 6 a 7) |

| Metrig | Sut y byddwn yn mesur | Pwy fydd yn casglu'r data? | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o ddilynwyr ar Linked in | Linked In | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | n/a | n/a | 112 | **307** | 571 | Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 5, 6 a 7) |
| Nifer y ffrydiau ar sianel podlediad Buzzsproutpodcast | Buzzsprout | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | n/a | n/a | 6,305 | **9,470** | 11,278 | Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 5, 6 a 7) |
| Nifer o weithiau 'gwelwyd' sianel YouTube | You Tube Channel Analytics | Sw Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran yddog Cynnwys Digidol & Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd | n/a | n/a | 70,776 | **37,467** | 37,300 | Mae'n mesur maint y gynulleidfa yr ydym yn ei chyrraedd mewn perthynas â'n straeon a'n negeseuon ac felly'r potensial i gyflawni'r 10 canlyniad |

| Metrig | Sut y byddwn yn mesur | Pwy fydd yn casglu'r data? | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adran | | | | | | |
| Ymgysylltu tudalen Youtube | Youtube | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | n/a | n/a | n/a | **1,830** | 4,090 | |
| Fideo You Tube ar sianeli eraill | Youtube | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | n/a | n/a | n/a | **3,619** | 5,149 | |
| Nifer tanysgrifwyr Cylchlythyr | Mailchimp | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | n/a | 4,000 | 5,016 | **5,797** | 5,975 | Mae'n mesur maint y gynulleidfa yr ydym yn ei chyrraedd mewn perthynas â'n straeon a'n negeseuon ac felly'r potensial i gyflawni'r 10 canlyniad. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % cyfradd agored ar gylchlythyrau | Mailchimp | Swyddog Cynnwys Digidol & Cynorthwydd Adran | n/a | 30% | 44.5% | 47.4% | 43.4% | Mae'n mesur y gyfradd llwyddiant wrth ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ar draws pob un o'r 10 canlyniad. |

## *3 Post ymgysylltwyd a fwyaf ar Instagram yn 2023*



## *3 Post ymgysylltwyd a fwyaf ar X (Trydar) yn 2023*

**Top tweets**




Mae'n Wythnos Rhyngwladol Awyr Dywyll! ☀️ 🌌 Fel Gwarchodfa Awyr Dywyll ddynodedig da ni'n falch o allu dathlu harddwch a bioamrywiaeth ein awyr

**112.5%** engagement rate

@apceryri
Aug 20, 20:12

Ond mae modd profi hanes a threftadaeth unigryw Eryri o ffynonellau eraill yn ogystal. Gall baledi a chaneuon gwerin Cymreig gynnig mewnweledIad cyfoethog i'r Eryri a fu—bron y cawn glywed leisiau'r gorffennol yn adrodd eu hanes drwy'r caneuon hyn.


**57.14%** engagement rate




Nodwch bod gwaith cynnal a chadw ar Reilffordd Yr Wyddfa ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i chi gadw at y llwybr cerdded i'r copa.


**50%** engagement rate

## *3 Post ymgysylltwyd a fwyaf ar LinkedIn yn 2023*




23

## *3 Post ymgysylltwyd a fwyaf ar Facebook yn 2023*



## *Y Wasg*

Er gwaetha cyfnod prysur iawn yn delio a'r wasg yng nghyfnod COVID, rydym wedi parhau i fod yn rhagweithiol er mwyn hyrwyddo gwaith Yr Awdurdod. Mae'n glôd i'r staff sy'n delio a'r ceisiadau, yn enwedig ar gyfnodau prysur. Yn 2023 cyhoeddwyd 22 datganiad i'r wasg o gymharu a 18 yn 2018, ac ymatebwyd yn ffurfiol yn ysgrifenedig i 18 cais, 9 yn uwch na 2022.

Er fod y nifer o gyfweliadau wedi disgyn o 59 yn 2022 i 50 yn 2023, mae'r amrywiaeth o destynau wedi bod yn ehangach gan symud ychydig i ffwrdd o themau teithio a thwristiaeth sydd wedi bod mor amlwg yn y blynyddoedd diweddar. Mae'n galonogol gweld cymaint o aelodau o staff yn cynnal cyfweliadau difyr a phroffesiynol gan ddangos eu brwdfrydedd at eu gwaith.

## *Papurau Bro*

Rydym wedi ysgrifennu erthyglau papur bro er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ran o'n cymunedau yn cael eu gadael ar ôl yn ein gwaith cyfathrebu. Mae papurau bro yn cynnig cyfleoedd i ni hyrwyddo straeon positif mewn ardaloedd lleol a gallwn eu defnyddio hefyd ar ein gwefan.

Mae'n bwysig adnabod rôl pwysig papurau bro yn Eryri ac yn arf y gallwn eu defnyddio i gysylltu a'n cymunedau yn ogystal a'u cefnogi. Yn 2023, darparwyd 9 erthygl i bapurau bro a rydym yn anelu i gynyddu hynny yn 2024.

# *Amcanion Cyfathrebu ar gyfer 2024*

Wrth edrych ymlaen at 2024 rydym yn edrych at addasu ein arweiniad yng nghyd-destun ein strategaeth cyfathrebu.

Wedi arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Cyngor Gwynedd ar yr economi ymweld mae'n cynnig cyfle cyffrous i ni rannu adnoddau ac arbenigedd yn effeithiol.

Mi fydd ein gwaith digidol yn addasu gyda mwy o bwyslais ar deilwra cynnwys at sianeli pwrpasol a symud i ffwrdd o'r ymarfer postio yr un cynnwys ar bob cyfrwng trwy gynyddu cynhyrchu fideos o staff yn hyrwyddo eu gwaith. Mi fydd hyn yn cynyddu ein cyfraddau ymgysylltu ar draws pob platfform er mwyn dilyn tueddiadau'r algorithmau yn ogystal a chodi hyder ein staff ar gamera.

Un o brif ddarnau ein gwaith fydd adolygiad llawn o'n strategaeth brandio a dehongli yn ddibynol ar argymhellion aelodau'r Awdurdod. Mi fydd hyn yn cynnwys symud i ffwrdd o ddefnyddio "Snowdonia" yn ein logo, addasu ein brandio i gyd-fynd a hyn, yn ogystal a chyhoeddi asesiad dwy flynedd ar dderbyniad y cyhoedd o ddefnyddio "Yr Wyddfa" ac "Eryri" yn unig. Yn ogystal a hyn, mi fyddwn ni'n datblygu dau set o ganllawiau brand: un i holl gyfathrebu staff, ac un i'r tim cyfathrebu er mwyn rhoi arweiniad ar asedau digidol a phaneli dehongli i fod yn weithredol o 2025 ymlaen.

Tra bydd pob aelod o'r tim cyfathrebu yn arwain ar amrywiol brosiectau, ein cyd-gyfrifoldeb yw cefnogi gwaith holl adrannau yr Awdurdod. Er gwaetha'r her o weithredu heb Bennaeth am y rhan fwyaf o 2023, rydym yn hyderus yn ein gallu a'n sgiliau i gyflawni gwaith arwyddocaol ac arloesol wrth symud ymlaen.

Mi fydd elfen gyfathrebu Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn un o brif flaenoriaethau ein Swyddog Cyfathrebu Cynllunio a Rheoli Tir yn 2024.

Mae ailddehongli Pen y Pass yn brosiect pwysig fydd yn gofyn am gydweithio agos gyda staff perthnasol o adrannau Partneriaethau a Wardeinio.

Wrth edrych ymhellach ymlaen, mi fydd arweiniad y strategaeth gyfathrebu gyfredol yn dod i ben yn 2025, mi fyddwn yn dechrau cynllunio datblygu strategaeth newydd ar gyfer 2026. Mi fydd y strategaeth yma yn blaenoriaethu ymgysylltu a'n trigolion a busnesau, yr her newid hinsawdd a sicrhau cyfleoedd i ymwelwyr wrth i ni atgyfnerthu ein hymrwymiad i warchod ein cymunedau a thirweddau.

## *Dogfennau Perthnasol*

- Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu - mae'r ddogfen gyfan yn cynnwys:
    - Dangosyddion Perfformiad ar gyfer y strategaeth hon.
    - Calendr cynnwys a gweithgarwch
- Polisi a chanllawiau Cyfryngau Cymdeithasol
- Protocol Cyfryngau
- Llyfr Brand APCE

**EITEM RHIF 11**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 10 Gorffennaf 2024 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD MONITRO CWYNION** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | Adrodd ar y cwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod |

## 1.0 CEFNDIR

1.1. Cofrestrir pob cwyn ffurfiol a'u monitro'n ganolog, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i sicrhau gofal cwsmeriaid gwych wrth ddarparu ein gwasanaeth. Derbyniodd yr Awdurdod 12 o gwynion ffurfiol yn uniongyrchol yn ymwneud â'r Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

1.2. O'r 12 cwyn a dderbyniwyd, roedd 6 yn ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio, derbyniwyd 3 gŵyn am staff ym Mhen y Pass (yr oedd 2 ohonynt yn ymwneud â staff diogelwch preifat), 2 gŵyn am Blas Tan y Bwlch, a chafwyd 1 gŵyn ynghylch aelod o staff yn gwneud galwad dirybudd i eiddo.

1.3. Ymchwiliwyd i bob cwyn yn drylwyr; a chafodd pob un ond 1 ymateb o fewn y targed o 15 diwrnod gwaith.

1.4. O'r cwynion a ymchwiliwyd, cafodd 7 eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol. Cyfeiriwyd un gŵyn a cadarnhawyd hon yn ddiweddarach at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a wrthododd ymchwilio ymhellach oherwydd roedd y broses apeliadau statudol wedi'i rhoi ar waith gyda Llywodraeth Cymru.

1.5. Yn yr achosion hynny pan na lwyddodd gwasanaeth yr Awdurdod i gyrraedd y safon ddisgwyliedig, 'rydym wedi ymddiheuro'n brydlon a chymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau ar unwaith.

1.6. O blith y cwynion ffurfiol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio, ymddengys mai materion cyfathrebu ac oedi yw gwraidd y rhan fwyaf o'r rhain. Er ei bod yn bwysig cofio bod cymhareb y cwynion o gymharu â chyfanswm y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn yn parhau i fod yn isel iawn (cyhoeddwyd 515 o Hysbysiadau Penderfyniad cynllunio yn 2023/24); fodd bynnag nid oes lle i laesu dwylo.

1.7. Yn ystod y broses o ymchwilio i'r cwynion hyn, adnabuwyd rhai materion hyfforddi a rhoddwyd sylw iddynt, gwnaed newidiadau i rai prosesau, ac mae Rota Swyddogion ar Ddyletswydd bellach yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Mae materion recriwtio hefyd wedi lleddfu bellach sydd wedi golygu bod adnoddau staffio wedi sefydlogi o fewn y gwasanaeth. Dylai hyn yn ei dro weld gwelliannau mewn amseroedd ymateb yn y flwyddyn i ddod, unwaith y bydd ôl-groniadau wedi'u lleihau.

**2.0. ARGYMHELLIAD**

**2.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad**

**ATODIAD 1**

**Crynodeb o'r Cwynion a Gadarnhawyd neu a Gadarnhawyd yn rhannol**

PLAS TAN Y BWLCH

**2 x o Gwynion ynghylch aros ym Mhlas Tan y Bwlch (Gorffennaf ac Awst 2023)**

Derbyniwyd dwy gŵyn ar wahân ynghylch arosiadau gwely a brecwast ym Mhlas Tan y Bwlch. Anfonodd yr achwynwyr luniau o orchudd ffenestr wedi torri, carpedi wedi'u staenio, marciau ar y wal, ewyn ehangu o amgylch pibellau a safonau glanhau gwael.

Derbyniodd y ddau achwynydd ymddiheuriadau llawn ac ad-daliad am eu harhosiad. Aethpwyd i'r afael â'r Safonau Glanhau gyda'r Goruchwyliwr Glanhau.

CYNLLUNIO

**Diffyg ymateb a diweddariadau gan y Gwasanaeth Cydymffurfiaeth Cynllunio (Medi 2023)**

Roedd y gŵyn yn ymwneud â phryder a adroddwyd ynghylch achos posibl o dor-rheolau cynllunio mewn maes gwersylla a'r diffyg ymateb a dderbyniwyd gan y gwasanaeth cydymffurfio i'r pryder cychwynnol. Roedd cwyn bellach yn ymwneud â'r diffyg gweithredu dilynol ar y safle o dan sylw, a arweiniodd yr achwynydd i gredu nad oedd materion o'r fath yn cael eu cymryd o ddifrif gan yr Awdurdod.

Cynhaliwyd adolygiad o'r achos, a rhoddwyd camau ar waith i symud materion ymlaen. Ymddiheurwyd hefyd i'r achwynydd gan fod y gwasanaeth a dderbyniwyd gan gynnwys amseroedd ymateb, ymhell islaw'r safonau disgwyliedig.

**Cwyn ynghylch dim diweddariad ynghylch Rhybudd Gorfodaeth a gyhoeddwyd (Tachwedd 2023)**

Roedd yr unigolyn wedi cysylltu â'r Awdurdod yn flaenorol gyda gwybodaeth am achos posibl o dor-rheolaeth gynllunio ar safle, ac wedi hysbysu'r Swyddogion o'u pryderon diogelwch personol pe bai deiliad y tir sy'n cael ei ymchwilio yn canfod eu manylion, ac yn unol â hynny wedi gofyn am gael tynnu eu manylion cyswllt allan o'n ffeiliau a'u ddinistrio.

Hysbyswyd yr unigolyn mai bwriad yr Awdurdod oedd cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth ar y safle dan sylw. Yn dilyn hyn, derbyniwyd cwyn ynglŷn â pheidio â derbyn unrhyw ddiweddariadau pellach gan yr Awdurdod unwaith y cyflwynwyd y Rhybudd ac nad oeddynt wedi eu cynnwys ar y rhestr o bartïon â diddordeb yn ymateb yr Awdurdod i PCAC ar yr apêl.

Ar ôl ymchwilio, canfuwyd er nad oes amheuaeth bod yr achwynydd yn barti â diddordeb, oherwydd lleoliad a phellenigrwydd yr eiddo, pe bai eu manylion wedi'u cynnwys a'i chyhoeddi wedyn ar wefan PCAC (fel sy'n arferol), na fyddai wedi bod yn anodd i'r apelydd adnabod yr achwynydd; ac felly er mwyn diogelu manylion yr achwynydd, ni wnaeth y Swyddog eu cynnwys ar y rhestr o bartïon â diddordeb.

Dylid bod wedi cysylltu â'r unigolyn i roi gwybod iddynt am yr apêl ac i ganfod a oeddent eisiau cael eu cofnodi fel parti â diddordeb.  Ni wnaed hyn, ac ymddiheurwyd i'r achwynydd, a thrafodwyd pwyntiau i'w dysgu yn sgil yr achos hwn gyda'r Swyddog dan sylw.

**Cwyn ynghylch amser prosesu cais am gyngor cyn cyflwyno cais a Chais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig dilynol (Tachwedd 2023)**

Derbyniwyd cwyn ynghylch y broses hir o roi cyngor cyn cyflwyno cais a'r Cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig dilynol a ddechreuodd ym mis Gorffennaf 2023, a dywedodd yr achwynydd bod hyn wedi achosi straen mawr.

Roedd yn anffodus i'r Swyddog Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol adael ei swydd yn ystod y cyfnod hwn ac roedd anawsterau recriwtio yn golygu bod yn rhaid trosglwyddo'r achos i ymgynghorydd allanol er mwyn symud ymlaen gyda'r cais. Bu'n rhaid diwygio'r cais oherwydd cyngor newydd a dderbyniwyd a oedd yn gwrth-ddweud y cyngor cychwynnol, a arweiniodd at oedi pellach.  Ymddiheurwyd i'r ymgeisydd am yr amser a gymerwyd i brosesu'r cais, a hefyd am yr ymateb hwyr i'r gŵyn, na roddwyd o fewn 15 diwrnod gwaith fel y nodir yng Ngweithdrefn Gwyno'r Awdurdod.

**Cwyn ynghylch amser prosesu cyngor cyn cyflwyno cais a Chais Caniatâd Adeilad Rhestredig dilynol (Chwefror 2024)**

Cyflwynodd yr unigolyn gais am gyngor cyn cyflwyno cais ym mis Tachwedd 2021 ac yna cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig ym mis Gorffennaf 2022.  Cynhaliwyd ymweliad safle ym mis Ebrill 2023, ac ers hynny nododd yr achwynydd, er gwaethaf cyfathrebu achlysurol gan yr Awdurdod, fod y cais yn parhau heb ei benderfynu.  Dywedodd yr achwynydd, oherwydd yr oedi, fod to ei heiddo bellach yn gollwng i'r fath raddau fel ei fod yn gwneud yr eiddo yn anaddas i fyw ynddo.

Cynhaliwyd adolygiad o'r achos ac er bod materion recriwtio a'r adnoddau staffio dilynol wedi cyfrannu'n sylweddol at yr oedi, roedd gwaith di-awdurdod hefyd wedi'i wneud yn yr eiddo yr oedd angen mynd i'r afael ag ef, ac a oedd wedi cymhlethu materion ymhellach.

Ymddiheurwyd i'r achwynydd a chymerwyd camau yn syth i fynd i'r afael â materion, gan gynnwys sefydlu cyfarfod safle i gytuno ar y ffordd ymlaen.  Apeliodd yr achwynydd wedyn i Adran Cynllunio a Phenderfyniadau Amgylcheddol Cymru (Llywodraeth Cymru) ar sail diffyg penderfyniad.

Cyflwynwyd cwyn hefyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a wrthododd ymchwilio ymhellach gan fod yr hawl statudol i apelio wedi'i chychwyn.

**Ymgeisydd yn cael ei hysbysu'n anghywir gan y Swyddog Cynllunio (Chwefror 2024)**

Cyflwynodd yr unigolyn gais am gyngor cyn cyflwyno cais a thalodd y ffi o £250. Ymdriniwyd yn anghywir â’r cais am gyngor cyn cyflwyno cais fel nad oedd yn talu ffi (i gadarnhau a oedd angen caniatâd cynllunio neu beidio yn unig) gan y Swyddog Cynllunio a chynghorwyd yr unigolyn i gyflwyno cais Tystysgrif Defnydd neu Ddatblygiad Cyfreithlon sy’n Bodoli (CLEUD). Roedd ffi ymgeisio CLEUD yn £250 ychwanegol.

Pe bai’r cais am gyngor cyn cyflwyno cais wedi cael ei brosesu’n gywir a’r mater wedi’i archwilio’n llawn, byddai wedi dod yn amlwg nad oedd angen cais CLEUD. Oherwydd camgymeriad y Swyddog Cynllunio roedd yr unigolyn wedi talu £250 ychwanegol am y cais CLEUD nad oedd ei angen arno.

Cafodd ymddiheuriad ynghyd ag ad-daliad o'r ffi.

**Cwyn ynglŷn ag argaeledd Swyddogion Cynllunio i ateb ymholiadau yn y Gwasanaeth Cynllunio (Mawrth 2023).**

Derbyniwyd cwyn gan Asiant Cynllunio oedd â blynyddoedd o brofiad o gyflwyno ceisiadau cynllunio i’r Awdurdod, ynglŷn â’r anawsterau o gael gafael ar Swyddogion Cynllunio ar y ffôn i drafod materion sy’n codi gyda cheisiadau cynllunio cyfredol. Roedd yr Asiant yn anhapus bod disgwyl i ymgeiswyr ac asiantau gyfathrebu â'r Swyddog Cynllunio drwy e-bost a arweiniodd at oedi o ran amseroedd ymateb; tra byddai galwad ffôn cyflym ar gyfer ymholiadau syml yn ddull mwy effeithlon ac effeithiol a fyddai'n osgoi oedi diangen wrth brosesu ceisiadau.

Rhoddwyd ymateb llawn i'r Asiant a chynhaliwyd trafodaethau pellach ar feysydd gwella. O ganlyniad, adolygwyd rhai agweddau o'r gwasanaeth a gwnaed newidiadau, gan gynnwys newidiadau i rota'r Swyddog ar Ddyletswydd.

**EITEM RHIF 12**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 10 Gorffennaf 2024 |
| **TEITL** | **DATGANIAD POLISI TÂL 2024/25 AC ADRODDIAD BLYNYDDOL POLISI TÂL AR GYFER 2023/24** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gwasanaeth Adnoddau Dynol |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/25 a derbyn yr Adroddiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 |

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Roedd Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn gosod gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl. Er bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn, ystyriwyd ei bod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath.

1.2 Mae datganiad ysgrifenedig wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru o'r enw 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru'.

1.3 Mae Datganiad Polisi Tâl yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 i'w weld yn Atodiad 1.

1.4 Mae Atodiad 2 yn dangos cyflogau'r Prif Swyddogion gyda'r Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2023/24 wedi ei osod ar gyfer y ddau gyfarwyddwr a dau wobr cyflog wahanol wedi ei roddi i'r Prif Weithredwr o fewn y cyfnod adrodd.

1.5 Mae Atodiad 3 yn dangos cyflogau'r holl staff eraill gyda'r Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2023/24 wedi ei osod.

1.6 Atodiad 4 yw'r Adroddiad Blynyddol sy'n ofynnol yn ôl y nodiadau canllaw y cyfeirir atynt yn y datganiad ysgrifenedig ym mharagraff 1.2 uchod.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/25.

2.2 Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Polisi Tâl ar gyfer 2023/24.

**Atodiad 1**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**Datganiad Polisi Tâl 2024/25**

## 1. Rhagymadrodd

Roedd Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn gosod gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn.

Rhaid i'r datganiadau hyn fynegi polisïau'r Awdurdod ei hun tuag at amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyflogau ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff neu ('brif swyddogion') a'i weithwyr ar y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiadau polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol (cychwynnodd hyn gyda 2012/13). Rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y  Cyngor (a'u cyhoeddi ar y wefan berthnasol).

Dilynwyd hyn gan Ddatganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Rhagfyr 2015 ar 'Dryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion yn y Sector Gyhoeddus Datganoledig yng Nghymru'. Mae'r canllawiau cysylltiedig yn nodi'r cynnwys a argymhellir yn y Datganiad Polisi Tâl Blynyddol ac Adroddiadau Blynyddol.

## 2. Polisi Tâl ar gyfer Prif Swyddogion

Mae'r Awdurdod yn diffinio ei Brif Swyddogion fel y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) a'r Cyfarwyddwyr. Mae'r Awdurdod yn cyflogi Prif Swyddogion o dan delerau ac amodau JNC. Mae'r JNC ar gyfer Prif Swyddogion yn negodi codiadau cyflog costau byw blynyddol cenedlaethol (DU) ar gyfer y grŵp hwn. Mae gan Brif Swyddogion a gyflogir o dan delerau ac amodau'r JNC hawl cytundebol i unrhyw godiadau cyflog cenedlaethol a bennir gan y JNC a bydd yr Awdurdod felly'n talu'r rhain yn ôl yr angen.

O ganlyniad i'r cytundeb y daethpwyd iddo ar 1 Tachwedd, 2023 mewn perthynas â'r Dyfarniadau Tâl Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr Gwasanaethau Llywodraeth Leol ('Llyfr Gwyrdd') 2023/24, cynyddwyd cyflog yr holl staff o 2 hicyn. Cafodd y dyfarniad cyflog ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill, 2023.

Gosodwyd y Dyfarniad Cyflog hwn o 2 gynyddiad i'r ddau Gyfarwyddwr hefyd.

Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Tachwedd 2023, yn unol â’r trefniant ar gyfer gweddill staff yr Awdurdod ar gyfer dyfarniad cyflogau 2022/23, penderfynwyd ychwanegu dau hicyn cyflog ar raddfa’r Prif Weithredwr.Cafodd y dyfarniad cyflog ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill, 2022.

Nid yw'r Awdurdod yn talu unrhyw daliadau bonws i'w Brif Swyddogion. Fodd bynnag, mae dilyniant cynyddrannol drwy'r strwythur cyflog yn ddarostyngedeig i werthusiad perfformiad blynyddol a gadarnheir gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeiryddion y Pwyllgorau Cynllunio a Mynediad a Pherfformiad ac Adnoddau.

Bydd pecyn tâl Prif Swyddogion yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod cyn eu recriwtio i unrhyw swydd o'r fath.

Mae cyflogau'r Prif Swyddogion i'w gweld yn Atodiad 2 yr adroddiad sy’n atodol i'r Datganiad hwn.

Y berthynas rhwng y pwynt cyflog uchaf (£101,775) a'r pwynt cyflog isaf (£)22,366 yw 1:4.55 (adroddwyd diwethaf y gymhareb hon yn 1:4.59).

Mae'r swydd uchaf o fewn yr Awdurdod bellach yn denu pecyn tâl o fwy na £100,000.

**3. Staff eraill**

Mae rolau staff eraill yn cael eu gwerthuso'n fewnol yn erbyn y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol - Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflogau ac Amodau Gwasanaeth (Llyfr Gwyrdd). Mae'r cysylltiad rhwng y sgoriau gwerthuso swyddi a'r golofn gyflog genedlaethol i'w weld yn Atodiad 4 yr adroddiad sy'n cyd-fynd â'r Datganiad hwn.

**4. Rheoli Doniau Mewnol**

Yn gyffredinol, mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n fewnol ac yn allanol ar yr un pryd.

Mae'r Awdurdod wedi cychwyn ar Gynllun Hyfforddeion Graddedig er mwyn meithrin doniau ‘wedi’u tyfu gartref’ fel petai a thrwy hynny wella cadernid o fewn y tîm cynllunio.

**5. Tâl ar sail Perfformiad**

Mae hyn yn ei le ar gyfer ein Prif Swyddogion – mae dilyniant o fewn eu graddfeydd cyflog yn dibynnu ar gyflawniadau penodol o fewn eu hadolygiadau perfformiad a datblygiad. Dylid nodi bod y swyddogion hyn ar bwynt uchaf eu gradd erbyn hyn.

Nid oes unrhyw elfen o dâl ar sail perfformiad i staff eraill.

**6. Cefnogaeth a ddarperir ar gyfer Staff ar Dâl Is**

Y Cyflog Byw Cenedlaethol o fis Ebrill 2024 ar gyfer 23 oed a hŷn yw £11.44 yr awr.

Mae canlyniad y Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2023/24 yn rhoi cyflog o £11.51 yr awr ar y pwynt cyflog isaf.

**7. Diswyddo ac Ymddeoliad**

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol yr Awdurdod yn cael eu cymhwyso'n gyfartal ac yn deg i’r holl staff waeth beth fo’u gradd, oedran neu ryw ac yn cael eu gweithredu yn unol â rheoliadau’r cynlluniau pensiwn perthnasol.

# Datganiad Polisi Tâl APCE 2024/25

## Cyflogau Prif Swyddogion 2022/23

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | £82,825 - £91,881 |
| Cyfarwyddwyr | £59,505 - £69,666 |

## Cyflogau Prif Swyddogion 2023/24

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | £87,717 - £101,775 |
| Cyfarwyddwyr | £61,588 - £72,105 |

## Cyflogau Prif Swyddogion 2024/25

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | £87,717 - £101,775 |
| Cyfarwyddwyr | £61,588 - £72,105 |

**Cyflogau swyddogion 2023/24 Officer Salaries**

| Graddfa / Grade | Pwyntiau Gwerthuso Swyddi / Job Evaluation Points | Pwyntiau Cyflog / Salary Points | Cyflog / Salary o'r 01.04.23 | Misol / Monthly w.e.f. 01.04.23 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Hyd at 250 | **2 - 3** | £22,366- £22,737 | £1,863.83- £1,894.75 |
| 2 | 251-280 | 2 - 4 | £22,366 - £23,114 | £1,863.83 - £1,926.17 |
| 3 | 281-310 | 3 - 6 | £22,737 - £23,893 | £1,894.75- £1,991.08 |
| 4 | 311-340 | 5 - 8 | £23,500 - £24,702 | £1,958.33 - £2,058.50 |
| 5 | 341-370 | 7 — 13 | £24,294 - £26,873 | £2,024.50- £2,239.42 |
| 6 | 371-400 | 13 - 19 | £26,873 - £29,777 | £2,239.42- £2,481.42 |
| 7 | 401-430 | 19 — 25 | £29,777- £33,945 | £2,481.42 - £2,828.75 |
| 8 | 431-460 | 23 — 29 | £32,076 - £37,336 | £2,673.00 - £3,111.33 |
| 9 | 461-495 | 28 — 32 | £36,648 - £40,221 | £3,054.00 - £3,351.75 |
| 10 | 496-530 | 30 — 34 | £38,223 - £42,403 | £3,185.25 - £3,533.58 |
| 11 | 531-565 | 32 — 36 | £40,221 - £44,428 | £3,351.75 - £3,702.33 |
| 12 | 566-600 | 34 — 38 | £ 42,403 - £46,464 | £3,533.58 - £3,872.00 |
| 13 | 601-635 | 36 - 40 | £ 44,428 - £48,474 | £ 3,702.33 - £4,039.50 |
| 14 | 636-670 | 38 — 42 | £ 46,464 - £50,512 | £3,872.00 - £4,209.33 |
| 15 | 671 ac uwch /and above | 40 — 43 | £ 48,474 - £51,515 | £ 4,039.50 - £4,292.92 |

**ATODIAD 4**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

**ADRODDIAD POLISI TÂL 2023/24**

1. **Rhagymadrodd**

   Mae'r adroddiad hwn yn dilyn canllawiau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei datganiad ysgrifenedig 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru'.

2. **Polisi Tâl ar gyfer Prif Swyddogion**

   Mae'r Awdurdod yn diffinio ei Brif Swyddogion fel y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) a'r ddau Gyfarwyddwr (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir).

3. **Graddfeydd Tâl**

   Mae'r swyddogion hyn wedi derbyn cyflogau yn unol â Datganiad Polisi Tâl 2023/24 ac Atodiad 2 o'r adroddiad atodol.

   | | |
   |---|---|
   | Prif Weithredwr | £87,717 - £101,775 |
   | Cyfarwyddwyr | £61,588 - £72,105 |

4. **Pensiwn**

   Mae'r holl swyddi hyn wedi bod yn destun taliad o gyfraniadau pensiwn gweithwyr ar y gyfradd y cytunwyd arni'n genedlaethol o 8.5% i 9.9%.

5. **Buddiannau mewn Nwyddau / Trwy Garedigrwydd a Buddiannau Anhrethadwy**

   Ni ddyfarnwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau na buddion di-dreth.

6. **Cyfansoddiad rhyw y Tîm Hŷn**

   Mae'r Uwch Dîm yn cynnwys tri dyn

7. **Manylion pecynnau diswyddo, gan gynnwys achosion busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r trefniadau ymadael ac sy'n cynrychioli gwerth gwirioneddol am arian**

   Yn 2023/24, ni dderbyniodd unrhyw ddeiliad swydd uwch becyn diswyddo.

**ITEM NO. 13**

| | |
|---|---|
| **MEETING** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 10 Gorffennaf 2024 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL GWIRFODDOLI A LLES 2023** |
| **ADRODDIAD GAN** | Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r adroddiad i ddiweddaru'r Awdurdod ar gynnydd y Strategaeth Gwirfoddoli 2021-2026 |

## 1. CEFNDIR

Ym mis Ionawr 2020 cymeradwyodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol y Strategaeth Datblygu Gwirfoddolwyr 21-2026 a mabwysiadu'r Strategaeth gwirfoddoli newydd ar gyfer y Parc Cenedlaethol gyda ffocws newydd ar lesiant. Mae hyn yn cyd-fynd gyda dyhead Llywodraeth Cymru i bobl fanteisio a chael budd o agweddau iechyd a lles cadarnhaol y gall Parciau Cenedlaethol eu darparu.

Felly, mae swyddogion wedi cynhyrchu adroddiad blynyddol i ddiweddaru'r Awdurdod ar y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran yr amcanion a amlinellir yn y strategaeth. (Atodiad 1)

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â chanlyniadau A5 a B1 o Gynllun Eryri, gan adrodd yn ôl i'r Pennaeth Partneriaethau drwy'r cynllun gweithredu bob chwarter, sydd yn berthnasol i bwrpasau a dyletswyddau statudol Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

## 2. ADRODDIAD CYNNYDD

Dechreuodd gwaith ar yr adroddiad atodol ym mis Ionawr 2024. Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei rannu yn 5 rhan, gan roi trosolwg o'r datblygiadau mewn cyfleoedd gwirfoddoli a lles sydd yn cynnwys;

- Cynllun gwirfoddoli Caru Eryri
- Wardeiniaid Gwirfoddol a Cheidwaid Ifanc
- Digwyddiadau lles
- Llogi tramper
- Diweddariadau manwl ar ddangosyddion perfformiad allweddol

## 3. CAMAU NESAF

Mae’r adroddiad bellach mewn cyfnod lle gofynnir am farn yr aelodau a chroesawir adborth ar yr adroddiad i’w trafod yn y pwyllgor. Bydd unrhyw argymhellion pellach gan y grŵp yn cael eu gweithredu yn yr adroddiad fel bo’r angen.

**ARGYMHELLION**
**I archwilio a thrafod yr adroddiad blynyddol.**

I’r aelodau:

1. Gymeradwyo cynnwys adroddiad blynyddol 2023 a chynghori ar unrhyw nodau neu amcanion o’r Strategaeth datblygu gwirfoddolwyr 2021-2026.

**Atodiad 1: Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Lles 2023**

**Atodiad 2: Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Lles 2022**

**Atodiad 3: Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Lles 2021**

**Atodiad 4: Strategaeth Datblygiad Gwirfoddoli 2021-2026**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GWIRFODDOLI A LLES 2023

EITEM RHIF 13 - Atodiad 1



PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK



eryri.llyw.cymru

# Cynnwys:


## 1 GWIRFODDOLI

1.1 Caru Eryri

1.2 Wardeniaid Gwirfoddol

1.3 Ymgysylltu Ieuenctid

1.4 Digwyddiadau Corfforaethol

1.5 Staff APCE yn Gwirfoddoli

## 2 LLES

2.1 Teithiau Cerdded Tywys Meddylgar / Ymwybyddiaeth Ofalgar

2.2 Ioga Awyr Agored

2.3 Ysgol y Goedwig

2.4 Cerdded a Gwehyddu

2.5 Taith Gerdded y Mis y Wardeniaid

## 3 LLOGI TRAMPYR

## 4 DIWEDDARIADAU DPA 2024











# 1 GWIRFODDOLI

## 1.1 Caru Eryri

**Ystadegau allweddol ar gyfer 2023:**

**69**

**Dyddiau a dreuliwyd yn gofalu am Eryri**

**1641**

**Oriau dreuliwyd yn Gwirfoddoli**

**153**

**Gwirfoddolwyr**

**Hyd y llwybrau troed gafodd eu cynnal a'u cadw =**

**28km**

**Cyfanswm bagiau sbwriel =**

**479.5**

**Cyfanswm pwysau'r sbwriel a gasglwyd =**

**1,180.75kg**

Yn 2023, dathlodd rhaglen wirfoddoli Caru Eryri flwyddyn lwyddiannus arall, a ddechreuodd pan gafwyd cydnabyddiaeth genedlaethol, pann enillwyd gwobr Arwyr Sbwriel Landmark a gynhaliwyd gan Cadwch Brydain yn Daclus, mewn seremoni a gynhaliwyd yn Nhŷ'r Senedd.

Trwy gydol y flwyddyn, ehangodd Caru Eryri ei fentrau a'i ymdrechion allgymorth. Cyflwynwyd llwybr newydd yn Abergwyngregyn, gan arallgyfeirio ymhellach y cyfleoedd i wirfoddolwyr gyfrannu at ymdrechion cadwraeth.

Yn ogystal, partneriwyd â'r rhaglen Pobl i Bobl er mwyn cynnwys ffoaduriaid yng ngweithgareddau Caru Eryri, gan feithrin cynwysoldeb a galluogi cyfnewid diwylliannol.

Cynyddodd nifer y diwrnodau cynnal a chadw llwybrau troed, gan ddangos ymroddiad hyd yn oed mwy datblygiedig tuag at warchod tirwedd naturiol Eryri. Cynhaliwyd gweithgareddau glanhau traethau hefyd, gan fynd i'r afael ag anghenion cadwraeth arfordirol. Cefnogwyd ymgyrchoedd cenedlaethol fel Spring Clean Cymru a'r Real 3 Peaks, gan gynyddu effaith Caru Eryri ar raddfa ehangach.

Roedd ymgysylltu ag ymwelwyr yn ganol-bwynt, fe wnaed ymdrechion penodol ar lwybr Llanberis, llwybr Watkin ac ardal Ogwen er mwyn gwella profiadau ymwelwyr. Dywedodd y gwirfoddolwyr eu bod yn teimlo mai'r lleoliadau hyn oedd yn cynnig y cyfle mwyaf i gael effaith ystyrlon.

O ran ymgysylltu  digidol, cynhaliodd Caru Eryri rwydwaith cymdeithasol cymedrol ond ymgysylltiol, gyda 467 o ddilynwyr Facebook a 356 o ddilynwyr Instagram. Gwasanaethodd y presenoldeb ar-lein hwn fel llwyfan ar gyfer allgymorth a chyfathrebu gyda gwirfoddolwyr a phartneriaid presennol a darpar wirfoddolwyr.

Rhoddwyd blaenoriaeth i hyfforddiant gwirfoddolwyr, gyda Mike Raine yn rhoi cymorth i dîm staff partneriaeth Caru Eryri trwy gyfrwng y sesiynau hyfforddi. Nod y sesiynau hyn oedd gwella sgiliau gwirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn rolau arwain o fewn y cynllun, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i fynychu cwrs Cymorth Cyntaf REC. Mynychodd 14 o wirfoddolwyr yr hyfforddiant, a manteisiodd 7 o'r rheiny ar y cyfle i arwain grwpiau drwy gydol yr haf.

Ar ddiwedd y tymor, mynegodd Caru Eryri ddiolch i'w gwirfoddolwyr ymroddedig trwy gyfres o weithdai gwerth chweil. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys teithiau cerdded a sgyrsiau addysgiadol yn ymdrin â phynciau fel natur a daeareg Eryri, yn ogystal â strategaethau ar gyfer rheoli peryglon yng nghefn gwlad.

Roedd y cyfarfod terfynol, a gynhaliwyd yn Y Fricsan, yn cynnwys noson pizza Nadoligaidd, gan roi cyfle haeddiannol i wirfoddolwyr ymlacio a dathlu eu cyfraniadau i'r rhaglen.





# Adborth Gwirfoddolwyr:

"Roedd yn wych cael y cyfle i wirfoddoli yn fy nghymuned"

"Roeddwn i wrth fy modd yn cael y cyfle i wneud rhywbeth gwerth chweil wrth fynd am dro i fyny mynydd gyda phobl **o'r un anian!**"

"Cyfle gwych i roi rhywbeth yn ôl i'r ardal a chael cwrdd â pobl ddiddorol!"

"Mae'n bleser treulio amser yn y dirwedd anhygoel hon ... Mae cysylltu â phobl o'r un anian a gwneud gwaith ymarferol hefyd yn dda iawn i'ch iechyd meddwl a'ch lles."

"Profiad gwych a gwerth chweil. Cyfle i roi rhywbeth yn ôl am y mwynhad mae Eryri wedi ei roi i mi ers blynyddoedd lawer."

"Rydw i'n caru popeth am y diwrnodau gwirfoddoli, mae rhoi rhywbeth yn ôl mor bwysig."

"Ymunodd fy ffrind a minnau â'r sesiynau casglu sbwriel ar Lwybr Llanberis ychydig o weithiau a chael ein syfrdanu gymaint roeddem yn mwynhau gwneud hyn ... Rhoddodd ymdeimlad gwych ein bod yn gwneud gwahaniaeth tra'n helpu ein lles meddyliol a chorfforol! Fedra i ddim diolch digon i chi."

"Wnes i fwynhau gweithio gyda gweddill y tîm. Mae pawb yn teimlo mor angerddol am eu perthynas â'r dirwedd, ac yn awyddus i rannu eu profiad a'u gwybodaeth."

"Mae Caru Eryri wedi rhoi'r cyfle i mi roi rhywbeth yn ôl am gael byw mewn rhan mor brydferth o Gymru. Mae'n golygu fy mod i'n cael mynd allan i weld golygfeydd godidog tra'n gwneud rhywfaint o les ar yr un pryd. Rydw i wedi bod mewn gweithdai gwych hefyd na fyddwn yn gwybod amdanynt fel arall ac rydw i wedi dysgu llawer am ddaeareg, fflora a ffawna Eryri."

"Cynllun a chyfle hollol wych. Dyma'r peth gorau rydw i wedi'i wneud eleni! Mae pawb mor groesawgar. Diolch yn fawr! Buaswn yn annog pawb i gymryd rhan y flwyddyn nesaf."

"Mae'n wych gallu rhoi ychydig o amser yn ôl, rheoli'r llwybrau troed, clirio sbwriel, ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd yn ogystal â chwrdd â phobl newydd a diddorol. Diolch yn fawr iawn ac edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf."



# 1.2 Wardeiniaid Gwirfoddol

**Ystadegau Allweddol**

Cyfrannodd Wardeiniaid Gwirfoddol De Eryri gyfanswm oriau o **446**

Cyfanswm y gwirfoddolwyr **11**

Cyfrannodd Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa gyfanswm oriau o **1463**

Cyfanswm y gwirfoddolwyr **30**



Meddai Alun Jones, Warden Ardal Yr Wyddfa "Mae cynllun Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa wedi bod yn rhedeg ers dros 10 mlynedd bellach, ac roedd y cynllun yn 11 oed yn 2023. Profodd 2023 unwaith eto pa mor werthfawr yw'r gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu, gan gasglu 616 bag o sbwriel. Maen nhw'n rhan annatod o'r tîm, yn patrolio llwybrau'r Wyddfa bob dydd Mercher, Sadwrn a dydd Sul drwy gydol y cyfnodau prysuraf, gan roi cyngor hanfodol i gerddwyr, a hefyd clirio unrhyw sbwriel maen nhw'n dod o hyd iddo yn y dirwedd hardd.

Yn fy marn i, mae llwyddiant y gwasanaeth Wardeniaid Gwirfoddol yn ganlyniad i ba mor ymroddedig, angerddol, a gweithgar ydyn nhw yn eu rôl, ac rwy'n credu'n wirioneddol y byddai'r mynydd yn lle llawer gwaeth hebddynt".





# 1.3 Ymgysylltu Ieuenctid

Yn 2023, roedd ein rhaglen Ceidwaid Ifanc yn ffynnu ac fe recriwtiwyd 24 o gyfranogwyr brwdfrydig newydd a ddechreuodd ar daith o antur a chadwraeth awyr agored. Er gwaethaf yr her logistaidd a berir gan argaeledd trafnidiaeth cyfyngedig, darparwyd ar gyfer 7 o fynychwyr ym mhob sesiwn, gan sicrhau profiad deniadol i bawb.

Daeth Rhaglen Ceidwaid â chymysgedd deinamig o bersonoliaethau a safbwyntiau ynghyd gyda chwilfrydedd a rennir a chariad at yr awyr agored.

Ym mis Gorffennaf, manteisiodd dau o'r Ceidwaid Ifanc ar y cyfle i fynychu'r Gwersyll Ceidwaid Iau yn Nenmarc. Cynhaliwyd penwythnos preswyl yng Nghanolfan Ieuenctid 'YHA Snowdon Ranger' ym mis Mawrth ar gyfer yr holl Ceidwaid Ifanc, gan roi cyfle iddynt ymgysylltu a chreu cysylltiadau da ar gyfer cydweithio yn y flwyddyn i ddod. Cynhaliwyd cyfanswm o 11 sesiwn drwy gydol y flwyddyn, a phwysicaf oll, cryfhawyd cysylltiad y bobl ifanc â'r ardal, yr amgylchedd naturiol a'u cariad tuag at yr awyr agored trwy'r gweithgareddau yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt, a'r trafodaethau ystyrlon yn ystod pob sesiwn. Cyfrannodd hynny yn ei dro at greu'r Maniffesto Ieuenctid, gan roi llais i bobl ifanc ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Parc Cenedlaethol ac ymdeimlad o berthyn yn eu cymuned.

Yn ogystal â'r rhaglen Ceidwaid Ifanc, drwy gydol y flwyddyn rydym wedi bod yn weithgar yn ymgysylltu â grwpiau ieuenctid amrywiol ar dasgau cadwraeth. Mae ein perthynas â'r Cyngor Astudiaethau Maes (CAM/FSC), Rhyd y Creuau, yn parhau wrth iddynt ddod â grwpiau Dug Caeredin i gynorthwyo i adfer Parc Mwynglawdd yng Nghoedwig Gwydir. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud, hefyd gyda Choleg Myddleton, Dinbych wedi bod yn cynorthwyo i gael gwared ar goed conwydd i ddiogelu rhywogaethau cen prin ar y safle hwn.

Gan weithio gyda Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd rydym wedi datblygu partneriaeth lle rydym yn paru ysgolion lleol â gwaith cadwraeth y gallant ei gwblhau a chael perchnogaeth dros brosiect penodol. Un enghraifft o hyn yw disgyblion Ysgol Hafod Lon yn cynnal a chadw'r ardd synhwyraidd ym Mhlas Tan y Bwlch.

Rhoddir cyfle i'r myfyrwyr ddatblygu sgiliau ymarferol a chysylltu â byd natur yn eu hamgylchedd lleol.

Rydym wedi croesawu nifer o grwpiau o fyfyrwyr prifysgol o Fangor, Aberystwyth, a rhaglenni rhyngwladol gan gynnwys Ysgoloriaeth Chevening a Phrifysgol Efrog Newydd i Eryri yn 2023. Mae ymgysylltu â'r grwpiau amrywiol hyn o fyfyrwyr yn hyrwyddo cyd-weithredu ac mae'n meithrin y genhedlaeth nesaf o bencampwyr amgylcheddol ar raddfa fyd-eang.





# 1.4 Digwyddiadau Corfforaethol

Mae cydweithio â grwpiau corfforaethol i ymgymryd â gwaith cadwraeth yn cynnig llu o fanteision i bawb  dan sylw.
Mae cynnwys y grwpiau hyn yn ein gwaith nid yn unig yn ein cefnogi i gwblhau ein hymdrechion cadwraeth, ond hefyd yn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol dros eu gweithwyr ac yn rhoi cyfle i adeiladu tîm. Yn ogystal, mae'r grwpiau corfforaethol yn elwa o gyhoeddusrwydd cadarnhaol am eu rôl wrth gyfrannu at gadwraeth amgylcheddol. Rydym yn parhau i feithrin cydweithrediad â'r gymuned trwy fentrau gwirfoddoli corfforaethol, gan gryfhau'r berthynas rhwng APCE a busnesau lleol.




Mae'r tabl isod yn dangos y gwaith gwirfoddol y mae grwpiau corfforaethol wedi cyfrannu tuag atynt ar ffurf amser ac ymdrechion yn 2023.

| Dyddiad | Cwmni | Nifer y Gwirfoddolwyr | Gweithgaredd | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|
| 12/01/2023 | Sykes Holiday Cottages | 10 | Plannu Coed | Rhyduchaf, Y Bala |
| 24/03/2023 | EA Technology | 17 | Plannu Coed | Pant y Neuadd, Y Bala |
| 06/04/2023 | Always Aim High Events | 8 | Cynnal a chadw llwybrau troed | Llwybr Llanberis, Yr Wyddfa |
| 20/04/2023 | Trust Payments | 12 | Plannu Coed | Ogwen |
| 12/09/2023 | Sykes Holiday Cottages | 6 | Cynnal a chadw llwybrau troed | Llwybr PYG, , Yr Wyddfa |
| 26/09/2023 | Sykes Holiday Cottages | 10 | Cynnal a chadw llwybrau troed | Allt Moses, Yr Wyddfa |

# 1.5 Staff yn Gwirfoddoli

Rhoddwyd y cyfle i staff ac aelodau APCE wirfoddoli dros gyfnod o ddau ddiwrnod. Gwahoddwyd cydweithwyr i gymryd rhan yn y dyddiau arbennig hyn, un ym mis Mawrth ac un arall ym mis Tachwedd 2023.
Yn ystod y digwyddiadau hyn, cyfrannodd y staff yn weithredol drwy blannu 300 metr o wrych yn Yr Ysgwrn a datgelu cylchoedd cerrig Neolithig hynafol ar y Carneddau trwy glirio eithin. Fel arwydd o werthfawrogiad am eu gwaith caled, mwynhaodd y staff gawl cynnes a malws melys wedi'u tostio.



# 2 LLES

Y llynedd, cynhaliodd Parc Cenedlaethol Eryri ei gyfres fwyaf helaeth o ddigwyddiadau lles hyd yma, gan gynnig ystod amrywiol o weithgareddau gyda'r nod yn y pen draw o hyrwyddo lles meddyliol a chorfforol gan ddefnyddio ein hasedau naturiol fel adnodd iechyd. Roedd yr amserlen yn cynnwys teithiau cerdded ymwybyddiaeth ofalgar tywysedig, sesiynau ioga awyr agored, ysgol goedwig, gweithdai cerdded a gwehyddu, a theithiau cerdded misol dan arweiniad wardeiniaid.

Cafodd y cyfranogwyr gyfle i ymgolli yn natur Eryri wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd i leihau straen, cynyddu ymdeimlad o lesiant, a chymryd rhan mewn gweithgareddau cysylltu â natur.
Roedd llwyddiant y digwyddiadau lles hyn yn amlwg yn ôl y lefel uchel o gyfranogiad, sy'n dangos diddordeb cynyddol mewn lles cyfannol a'r awydd i gysylltu â natur. Trwy'r mentrau hyn, mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi unigolion i elwa ar y manteision a geir wrth dreulio amser yng nghefn gwlad, gan hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol yn y gymuned.



## 2.1 Teithiau cerdded meddylgar

Roedd y teithiau cerdded meddylgar / ymwybyddiaeth ofalgar dan arweiniad yn gyfle i unigolion arafu, gwerthfawrogi eu hamgylchedd ac ymarfer technegau ymwybyddiaeth ofalgar yng nghanol y dirwedd dawel.

| | | |
|---|---|---|
| **Ionawr** | Llwybr Clogau, Bontddu | 8 cyfranogwr |
| **Chwefror** | Llyn Mair, Maentwrog | 10 cyfranogwr |
| **Mawrth** | Rhaeadr Aber, Abergwyngregyn | 9 cyfranogwr |
| **Ebrill** | Bwlch Drws Ardudwy | 10 cyfranogwr |
| **Mai** | Llyn y Parc, Betws y Coed | 8 cyfranogwr |
| **Gorffennaf** | Taith Gerdded, Dolgellau | 5 cyfranogwr |
| **Awst** | Llwybr y Jiwbilî, Penmaenmawr | 5 cyfranogwr |
| **Medi** | Cwm Ciprwth, Cwm Pennant | 6 cyfranogwr |
| **Hydref** | Coed Dolfriog, Nantmor | 12 cyfranogwr |
| **Tachwedd** | Cwm Cynfal, Llan Ffestiniog | 9 cyfranogwr |
| **Rhagfyr** | Llyn Geirionydd a Chrafnant | 9 cyfranogwr |

## 2.2. Ioga Awyr Agored

Roedd sesiynau ioga awyr agored yn cynnig cyfle unigryw i gysoni'r corff a'r meddwl wrth anadlu yn yr awyr iach.





| | | |
|---|---|---|
| **Sesiwn Dydd Mawrth Mehefin** | Llyn Mair | 6 o gyfranogwyr |
| **Sesiwn Sul Mehefin** | Traeth Harlech | 18 o gyfranogwyr |
| **Sesiwn Dydd Mawrth Gorffennaf** | Traeth Harlech | 13 o gyfranogwyr |
| **Sesiwn Sul Gorffennaf** | Llyn Mair | 10 cyfranogwr |
| **Sesiwn Dydd Mawrth Awst** | Llyn Mair | 11 cyfranogwr |
| **Sesiwn Sul Awst** | Traeth Harlech | 10 cyfranogwr |



## 2.3 Ysgol y Goedwig

Roedd gweithgareddau ysgol y goedwig yn caniatáu i blant ac oedolion ailgysylltu â natur trwy brofiadau ymarferol fel crefftau coetir ac archwilio bywyd gwyllt.



| | | |
|---|---|---|
| **31/05/23** | Llyn Mair, Maentwrog | 8 plentyn |
| **26/07/23** | Farchynys, Bontddu | 6 plentyn |
| **29/07/23** | Yr Ysgwrn, Trawsfynydd | 10 plentyn |
| **30/08/23** | Coed Bryn Berthynnau, Capel Curig | 6 plentyn |

## 2.4 Cerdded a Gwehyddu

Roedd gweithdai cerdded a gwehyddu yn cyfuno manteision therapiwtig cerdded gyda mynegiant creadigol gwehyddu, gan gynnig profiad cyfannol a oedd yn ymgysylltu â'r corff a'r meddwl fel ei gilydd.



| | | |
|---|---|---|
| **25/02/23** | Llyn Llywelyn, Beddgelert Forest | 6 cyfranogwr |
| **25/03/23** | Betws y Coed | 7 cyfranogwr |
| **23/04/23** | Cwm Idwal | 5 cyfranogwr |
| **31/05/23** | Llyn Llydaw, Yr Wyddfa | 4 cyfranogwr |

# 2.5 Tai Gerdded y Mis y Wardeniaid

Roedd teithiau tywys misol dan arweiniad wardeiniaid yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar waith, hanes ac ymdrechion cadwraeth y Parc, gan gyfoethogi dealltwriaeth a mwynhad cyfranogwyr o'r dirwedd.

| | | |
|---|---|---|
| **Ioan Davies** | Cwm Penamnen, Dolwyddelan | 6 cyfranogwr |
| **Myfyr Tomos** | Foel Ispri, Llanelltyd | 11 cyfranogwr |
| **Alan Pritchard** | Cwm Idwal | 3 cyfranogwr |
| **David P. Jones** | Craig y Ddinas | 5 cyfranogwr |
| **Arwel Morris** | Cefnddwygraig, Y Bala | 5 cyfranogwr |
| **Robat Davies** | Llwybr Panorama | 3 cyfranogwr |



**Adborth gan gyfranogwyr:**

"Roeddwn wrth fy modd â'r digwyddiadau fynychais i, sef y daith gerdded ymwybyddiaeth ofalgar, dwy sesiwn Ioga a'r arddangosfa 'Geiriau Coll'. Byddwn yn bendant yn talu i fynychu. Roeddwn i'n teimlo'n hyfryd wedyn. Diolch i ti Etta am drefnu ac i'r bobl hyfryd sy'n rhedeg y sesiynau. Roedd rhain yn fendigedig."

"Fe wnes i wir fwynhau'r daith ymwybyddiaeth ofalgar, cafodd ei threfnu'n dda iawn gyda staff ac arweinwyr gwybodus. Diolch yn fawr"

"Mynychais ddau ddigwyddiad ioga awyr agored na fyddai wedi bod yn bosibl pe bai wedi bwrw glaw, felly ni fyddwn wedi archebu lle pe bawn wedi gorfod talu wrth archebu. Roedd y digwyddiadau yn bleserus iawn, er ni ddylid caniatáu cŵn mewn dosbarth ioga. Daeth un person â'i chi i'r digwyddiad cyntaf, a oedd yn rhedeg yn rhydd ac yn tynnu sylw ac yn fy atal rhag awgrymu bod fy chwaer-yng-nghyfraith yn dod gyda mi i'r ail ddigwyddiad gan bod ganddi ofn cŵn."

"Mae'n daith ymwybyddiaeth ofalgar hyfryd. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw. Rwy'n caru rhain gymaint. Diolch yn fawr"

"Diolch am y cyfleoedd hyn. Er y byddwn yn hapus i dalu, rwy'n credu bod y ffaith eu bod yn rhad ac am ddim yn bwysig i annog pobl sydd wir eu hangen. Tybed a fyddai modd cael system i allu rhoi cyfraniad - ond bod y teithiau cerdded yn parhau i fod am ddim? Rwy'n credu bod cymaint o waith a meddwl yn cael ei roi i mewn i'r digwyddiadau hyn. Rwyf mor ddiolchgar amdanynt fel rhywun sydd â phroblemau iechyd sydd angen mynd allan mewn cwmni. Diolch yn fawr IAWN."

# 3 TRAMPYR

Profodd yr achosion o Logi'r Trampyr gynnydd o 20% o'i gymharu â'r llynedd, diolch i broses archebu symlach a oedd yn ei gwneud yn fwy cyfleus i gwsmeriaid. Ymhlith y llwybrau Mynediad i Bawb a ffafrir oedd Lôn Gwyrfai a Llwybr Mawddach. Yn ogystal, gwelodd un o'r trampyrs a leolir yng Nghoedwig Beddgelert ddefnydd rheolaidd gan ymwelwyr a oedd yn aros ar safle Forest Holidays. Mae ein cytundeb gyda Beddgelert Forest Holidays yn parhau i ffynnu, ac rydym hefyd yn ddiolchgar i'r gwasanaeth Wardeinio am eu cymorth parhaus wrth iddynt ddarparu'r trampyr i'r cwsmeriaid yn y lleoliadau lle gofynnir amdanynt.

forestholidays



# 4 – Diweddariadau DPA

## Tabl o'r Strategaeth Gwirfoddoli

Mae'r tabl isod yn dod o'r Strategaeth Gwirfoddoli, sy'n manylu ar gynnydd pob un o'r camau gweithredu a amlinellir yn y strategaeth. Mae'n cyflwyno data gan gynnwys rhifau ac oriau gwirfoddoli, gyda thargedau ac argymhellion blynyddol sy'n destun adolygiad ac addasiadau fel y'u dogfennir ym mhob adroddiad blynyddol.

| Gweithred | Metrig | Sut y byddwn ni'n mesur | Pwy fydd yn casglu'r data a sut y caiff ei adrodd? | Targed ac Argymhellion 2023 | Canlyniad 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Creu cyfleoedd a chefnogi mentrau sy'n galluogi pobl ifanc, anabl, sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i wirfoddoli. | Nifer y gwirfoddolwyr (gan gynnwys ffigurau penodol ar gyfer grwpiau targed) | System Better Impact ac adrodd ar brosiectau | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y gwirfoddolwyr Pobl ifanc : 10<br><br>Pobl anabl: 10<br><br>Wedi'i hallgau'n gymdeithasol a Pobl heb gynrychiolaeth ddigonol: 10 | Nifer y gwirfoddolwyr<br>Pobl Ifanc (14-24) : 179<br>25 – 50 : 90<br>50+ : 154 |
| Penodi gwirfoddolwyr â rolau penodol a darparu hyfforddiant yn ogystal â digwyddiadau gwirfoddoli i bobl nad ydynt yn gallu ymrwymo i weithgareddau rheolaidd. | Nifer y gwirfoddolwyr unigol a rhai sy'n gwirfoddoli dro ar ôl tro | Adroddiad ar symudiadau gwirfoddoli Caru Eryri - Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer Gwirfoddolwyr Caru Eryri: 50<br><br>Nifer wardeiniaid gwirfoddol Yr Wyddfa: 50 | Nifer Gwirfoddolwyr Caru Eryri : 132<br><br>Nifer Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 30<br><br>Nifer Wardeiniaid Gwirfoddol De Eryri: 11 |
| Sefydlu rolau gwirfoddoli newydd mewn ardaloedd eraill o fewn y PC ar wahân i ardal Yr Wyddfa e.e. Wardeiniaid Gwirfoddol ardal y De. Bydd y broses recriwtio yn dechrau yn 2021. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli a gwirfoddolwyr yn ôl lleoliad daearyddol eang | Wardeiniaid Gwirfoddol wedi'u recriwtio a chael hyfforddiant cyn dechrau tymor 2022 | Swyddog Gwirfoddoli a Lles a Phencampwyr | Cadw niferoedd y Wardeiniaid Gwirfoddol Cader Idris | Cyflawnwyd y targed oherwydd llwyddwyd i gadw nifer o Wardeiniaid Gwirfoddol De Eryri.<br><br>Shifftiau Wardeiniaid Gwirfoddol De Eryri : 445.50 o oriau gwirfoddoli |
| Datblygu mwy o grwpiau gwirfoddol mewnol ar gyfer: Bioamrywiaeth, Awyr Dywyll, Prosiectau Cadwraeth (LIFE, Carneddau) a phrosiectau eraill yn y dyfodol | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli yn ôl adran/prosiect | Adrodd ar brosiectau ar System Better Impacr | Swyddog Gwirfoddoli a Lles a staff y prosiect | Mae'r targed ar gyfer sesiynau garddio ym Mhlas Tan y Bwlch yn her barhaus.<br><br>Parhau i gefnogi swyddogion i gydlynu amrywiaeth ddiddorol o gyfleoedd gwirfoddoli. | O ddechrau gwanwyn 2023 i ddechrau'r haf, mynychodd disgyblion Ysgol Hafod Lon sesiynau garddio misol ym Mhlas Tan y Bwlch.<br><br>Yn ystod Pasg 2024, bydd Cyfiawnder (HGC) yn cynnal sesiynau garddio wythnosol ym Mhlas Tan y Bwlch fel rhan o'r cynllun ad-dalu cymunedol.<br><br>Nifer y Gwirfoddolwyr Awyr Dywyll: 6<br><br>Nifer y diwrnodau gwirfoddoli bioamrywiaeth a rheoli coetir: 8<br><br>Nifer y diwrnodau gwirfoddoli Cynnal a Chadw Llwybrau Troed: 9<br>Nifer y Dyddiau gwirfoddoli Prosiect Carneddau: 21<br><br>Nifer y Prosiect Diwrnodau gwirfoddoli LIFE: 3<br><br>Nifer y diwrnodau adfer mawndir: 0 |

| Gweithred | Metrig | Sut y byddwn ni'n mesur | Pwy fydd yn casglu'r data a sut y caiff ei adrodd? | Targed ac Argymhellion 2023 | Canlyniad 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Bydd prosiectau fel Yr Ysgwrn yn dyblu nifer y gwirfoddolwyr o 15 i 30 drwy gynnal ffeiriau gwirfoddol a boreau coffi ar y safle i ledaenu'r gair, a thrwy hysbysebu rolau ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn papurau lleol | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli yn ôl adran/prosiect | Adroddiad gan Staff Yr Ysgwrn | Swyddog Gwirfoddoli a Lles a Rheolwr Treftadaeth Ddiwylliannol | Parhau i recriwtio gwirfoddolwyr Yr Ysgwrn ymhellach drwy gynnal boreau coffi rheolaidd ar y safle a hysbysebu rolau yn ehangach. | Nifer gwirfoddolwyr Yr Ysgwrn: 8 |
| Parhau i gynnig y Cynllun Ceidwaid Ifanc i bobl ifanc 14-16 oed a darparu cefnogaeth a chyngor ar draws y sefydliad i alluogi swyddogion i drefnu a rheoli cyfleoedd gwirfoddoli. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol | Adroddiad gan y Swyddog Pobl Ifanc | Swyddog Gwirfoddoli a Lles, Warden Ardal, Swyddog Pobl Ifanc | Parhau i gefnogi Swyddog Pobl Ifanc i ddarparu amrywiaeth ddiddorol o Cyfleoedd gwirfoddoli i'r Ceidwaid Ifanc. | Nifer y Ceidwaid Ifanc: 24<br><br>Nifer Dyddiau Ceidwaid Ifanc: 11 |
| Er mwyn hyrwyddo gwirfoddoli ymhlith staff ac aelodau, byddwn yn trefnu dau ddiwrnod gwirfoddoli i staff ac aelodau bob blwyddyn. Bydd gan bob aelod o staff yr hawl i wirfoddoli hyd at 15 awr y flwyddyn ar gyfer adrannau eraill o fewn yr Awdurdod. | Nifer y staff ar y diwrnodau gwirfoddoli | Adroddiad ar nifer y diwrnodau gwirfoddoli staff | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Yn ogystal â threfnu dau ddiwrnod gwirfoddoli'r flwyddyn, annog staff ac aelodau i gymryd rhan mewn cynlluniau gwirfoddoli fel Caru Eryri. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli staff: 2<br><br>Nifer y staff wnaeth gymryd rhan: 14 |
| Datblygu ac annog gweithio gyda grwpiau a noddir corfforaethol ar brosiectau sydd o fudd i'r naill a'r llall. Mae gwirfoddoli corfforaethol yn faes sydd â photensial ar gyfer twf sylweddol ar gyfer gwirfoddoli ac ar gyfer cynhyrchu incwm. Bydd yr arian yn ein galluogi i ail-fuddsoddi mewn gwirfoddoli oherwydd fe fyddwn mewn gwell sefyllfa i gyflenwi ODP a dillad pwrpasol ar gyfer gwirfoddolwyr. | Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn diwrnodau gwirfoddoli corfforaethol | Adroddiad ar nifer y diwrnodau gwirfoddoli corfforaethol | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y gwirfoddolwyr corfforaethol: 80<br>Annog grwpiau mawr i ddod i wirfoddoli gyda ni am ddiwrnod i fynd i'r afael â gwaith cadwraeth sydd angen nifer o bobl i gymryd rhan. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli corfforaethol:6<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr corfforaethol: 63 |
| Parhau i weithio gyda Chymdeithas Eryri, y Bartneriaeth Awyr Agored, ac eraill i annog mwy o wirfoddoli i gefnogi pwrpasau'r Parc Cenedlaethol (a phartneriaid eraill fel y bo'n briodol). | Adroddiad naratif ar gyflawni hyn fel rhan o'r adroddiad blynyddol. | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Parhau â'r gwaith hwn, gyda'r nod o ehangu cyfleoedd gwirfoddoli yn ardal ddeheuol y Parc drwy weithio gyda'r Wardeniaid ardal a grwpiau lleol e.e. Coleg Meirion, Cwmni Nod Glas a Mantell Gwynedd | Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd i wirfoddolwyr gymryd rhan ynddynt ar draws y Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd. Gyda gwaith partneriaeth parhaus yn digwydd gyda Chymdeithas Eryri a staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gallwn gynnig y cyfleoedd hyn yn rheolaidd gydag amserlen wirfoddoli brysur yn rhedeg trwy gydol y flwyddyn erbyn hyn. |
| Sicrhau o leiaf dau ddiwrnod gwaith gwirfoddol gyda Chymdeithas Eryri bob mis. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli | Adroddiad gan Gymdeithas Eryri | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | *Yn 2022 cynhaliwyd 10 diwrnod gwaith gwirfoddol y mis ar gyfartaledd mewn partneriaeth â Chymdeithas Eryri.*<br><br>*Ar gyfer 2023, mae gwaith yn parhau ar y targed hwn gyda'r nod o gynnal 10 diwrnod gwaith y mis ar gyfartaledd.* | *Nifer dyddiau Caru Eryri: 69*<br><br>*Ar gyfartaledd yn 2023 cynhaliwyd 6 diwrnod gwirfoddoli y mis mewn partneriaeth â Chymdeithas Eryri.* |

| Gweithred | Metrig | Sut y byddwn ni'n mesur | Pwy fydd yn casglu'r data a sut y caiff ei adrodd? | Targed ac Argymhellion 2023 | Canlyniad 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn cydweithio'n strategol â sefydliadau eraill sy'n defnyddio gwirfoddolwyr cadwraeth yn Eryri er mwyn rhannu arfer da, hyfforddiant ac ati. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli | Adroddiad gan staff Cymdeithas Eryri | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Fel uchod, gan ychwanegu mwy o ffocws ar hyfforddiant yn arbennig ar gyfer arweinwyr gwirfoddol Caru Eryri. | Cyfanswm nifer y diwrnodau gwirfoddoli: 110 |
| Chwilio am gyfleoedd gyda phartneriaid ar gyfer diwrnodau hyfforddi achrededig er mwyn uwchsgilio gwirfoddolwyr. | Nifer y digwyddiadau hyfforddi a'r nifer sydd wedi'u hyfforddi | Adroddiad 'Better Impact' | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Parhau i gynnig hyfforddiant Cymorth Cyntaf REC i wirfoddolwyr a chwilio am gyfleoedd eraill ar gyfer datblygiad pellach pan fydd y gyllideb yn caniatáu. | Nifer y diwrnodau hyfforddi gwirfoddolwyr :8<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi: 96 |
| Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws ardal y Parc Cenedlaethol - rhai am un diwrnod yn unig, eraill sydd angen ymrwymiad dros sawl awr bob mis gan wirfoddolwyr. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol | Adroddiad 'Better Impact' | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y Gwirfoddolwyr: 250<br><br>Nifer y Dyddiau Gwirfoddoli: 500 | Nifer y gwirfoddolwyr: 500<br><br>Nifer y diwrnodau gwirfoddoli: 256 |
| Cefnogi'r gwasanaeth Wardeinio gyda'u defnydd hwy o wirfoddolwyr | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli yn ôl adran / prosiect a lleoliad daearyddol | Adroddiad ar oriau cofrestru | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Parhau i gefnogi'r gwasanaeth Wardeinio gyda'u defnydd o wirfoddolwyr drwy drefnu diwrnodau cynnal a chadw llwybrau troed rheolaidd yn ogystal â chynorthwyo gyda phrosiectau eraill yn ôl yr angen.<br><br>Cafodd wardeiniaid hyfforddiant ar 'Better Impact' a chafodd sifftiau Wardeiniaid Gwirfoddol eu hysbysebu ar y feddalwedd. | Nifer y sifftiau Warden Gwirfoddol Yr Wyddfa: 114<br><br>Nifer dyddiau Warden Gwirfoddol De Eryri: 49 |
| Wardeniaid gwirfoddol yn ymgymryd â mwy nag un rôl, o bosibl yn cynorthwyo gyda gweithgareddau ymgysylltu fel arwain neu ofalu am y rhai sydd yn y cefn ar deithiau tywys y PC pan fydd rhaglenni newydd ar waith | Nifer y gwirfoddolwyr yn ôl adran | Adroddiad 'Better Impact' | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Drwy alinio Wardeiniaid Gwirfoddol â Better Impact, bydd yn eu hannog i gymryd rhan ym mhob cyfle arall. | Mae Wardeniaid Gwirfoddol yn cymryd rhan mewn mwy o amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli gan gynnwys plannu coed a gwrychoedd, plannu blodau gwyllt a chynorthwyo mewn prosiectau bioamrywiaeth eraill gyda'r Wardeniaid Ardal. |
| Cynorthwyo gwirfoddolwyr sydd â phrofiad o ddarparu gwasanaeth hir yn eu datblygiad personol megis cyflawni elfennau ar gyfer Cymwysterau Safonau Cenedlaethol. | Nifer y digwyddiadau hyfforddi a'r nifer sydd wedi'u hyfforddi | Adroddiad 'Better Impact' | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â gwirfoddolwyr gwasanaeth hir i weld sut y gallwn gefnogi datblygiad personol.<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr wedi cwblhau Cymorth Cyntaf REC: 30 | Nifer y gwirfoddolwyr wedi cwblhau Hyfforddiant Caru Eryri: 42<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr wedi cwblhau cwrs Cymorth Cyntaf REC: 5<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr wedi cwblhau Cwrs Llysgenhadon Eryri:<br><br>Efydd: 51<br><br>Arian: 2<br><br>Aur: 68 |

| Gweithred | Metrig | Sut y byddwn ni'n mesur | Pwy fydd yn casglu'r data a sut y caiff ei adrodd? | Targed ac Argymhellion 2023 | Canlyniad 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio dulliau recriwtio effeithiol i sicrhau ein bod yn cyrraedd ystod eang o bobl. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Mantell Gwynedd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Conwy a grwpiau diddordeb arbennig eraill. | Nifer y gwirfoddolwyr | Adroddiad 'Better Impact' | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Annog pob gwirfoddolwr cofrestredig i gymryd rhan weithredol yn y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael. | Nifer y Gwirfoddolwyr sydd wedi'u cofrestru ar Better Impact: 638 |
| Marchnata ein cyfleoedd gwirfoddoli drwy ddefnyddio'r dulliau canlynol; rhestru cyfleoedd sydd ar gael ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn Canolfannau Gwirfoddoli lleol; manteisio ar ddigwyddiadau cyhoeddus er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y cyfleoedd gwirfoddoli; sefydlu tudalen 'cysylltu â ni' ar wefan newydd yr Awdurdod, rhoi gwybodaeth am wirfoddoli gyda'r Awdurdod; Rhannu delweddau o weithgareddau gwirfoddoli drwy'r cyfryngau cymdeithasol ynghyd â gwybodaeth ar sut i gymryd rhan. | Defnyddio dulliau recriwtio effeithiol i sicrhau ein bod yn cyrraedd ystod eang o bobl. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Mantell Gwynedd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Conwy a grwpiau diddordeb arbennig eraill. | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Parhau i ddefnyddio'r un dulliau recriwtio. | Yn 2023 mynychodd staff APCE yr holl Ffeiriau Glas yn y colegau lleol a'r undebau i hyrwyddo'r cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc.<br><br>Mae tîm Cyfathrebu APCE yn rhannu cyflawniadau gwirfoddolwyr yn rheolaidd ar ein cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan, yn ogystal â ffurflenni cyfryngau eraill. |
| Parhau i gynnwys diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth am wirfoddoli mewn atodiadau / erthyglau mewn cyhoeddiadau ac adroddiadau, datganiadau i'r wasg, erthyglau sy'n dathlu ac yn diolch i wirfoddolwyr, hysbysebion, a deunydd wedi'i argraffu yn y Canolfannau Croeso ayyb. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Enwebu 7 gwirfoddolwr i gymryd rhan yn Wythnos Genedlaethol Gwirfoddolwyr ym mis Mehefin. | Parhau i ddathlu ein gwirfoddolwyr anhygoel a'r gwaith maen nhw'n ei wneud i warchod Eryri. |
| Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio Sign Up i gydlynu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa. Rydym wedi cyflwyno system rheoli gwirfoddolwyr ar-lein newydd o'r enw 'Better Impact' i'n gwirfoddolwyr Caru Eryri. Os bydd hyn yn gweithio'n llwyddiannus drwy gydol y tymor byddwn yn edrych ar ddefnyddio'r feddalwedd hon i gydlynu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer holl brosiectau gwirfoddoli'r Parc Cenedlaethol. | Mae system rheoli gwirfoddolwyr newydd wedi'i sefydlu.<br><br>Defnyddir system rheoli gwirfoddolwyr ar gyfer mesur ac adrodd ar DPAau. | Adroddiad ar feddalwedd Better Impact a Sign Up | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Wardeiniaid gwirfoddol yn uno â Better Impact yn 2023. | Cwblhawyd. |

# CASGLIAD

I gloi, mae 2023 wedi bod yn flwyddyn o gyfraniadau sylweddol ar draws y gwahanol fentrau gwirfoddoli yn Eryri. Trwy ymroddiad ein gwirfoddolwyr, rydym wedi gweld llawer o gynnydd mewn ymdrechion cadwraeth, mwy o ymgysylltu â grwpiau ieuenctid a sectorau corfforaethol, a hefyd gwella profiadau ymwelwyr trwy gyfrwng Caru Eryri. Mae'r cynllun penodol hwn wedi dangos effaith gweithio mewn partneriaeth, gyda gwirfoddolwyr yn derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol am eu cyfraniad i gadwraeth amgylcheddol, ac mae'n parhau i dyfu o nerth i nerth bob blwyddyn.

Yn yr un modd, mae'r rhaglen Wardeiniaid Gwirfoddol yn dangos pa mor werthfawr yw eu hymrwymiad i ddiogelu'r mynyddoedd, gan gyfrannu oriau lawer at gadw'r llwybrau'n lân a chynorthwyo ymwelwyr. Mae'r gwirfoddolwyr nid yn unig wedi cyfoethogi'r Parc Cenedlaethol gyda'u hamser a'u hymroddiad ond hefyd wedi creu arbedion cost sylweddol i'r Awdurdod. Drwy gyfateb i oriau gwirfoddoli â'r cyflog byw cyfartalog, mae gwirfoddolwyr gyda'i gilydd wedi arbed dros £40,000 i'r Awdurdod. Mae hyn yn tynnu sylw at werth aruthrol cyfraniadau gwirfoddolwyr i'n sefydliad ac wrth iddynt gefnogi'r gwaith o gyflawni ein cynllun rheoli a'n hymdrechion cadwraeth.

Gan edrych ymlaen at 2024, mae Parc Cenedlaethol Eryri yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo lles a chynwysoldeb, yn ogystal ag annog pobl i gymryd rhan mewn cynlluniau gwirfoddoli. Bydd gweithgareddau lles rheolaidd, gan gynnwys y teithiau cerdded meddylgar / ymwybyddiaeth ofalgar o dan arweiniad, sesiynau ioga awyr agored, a dosbarthiadau ysgolion coedwig, yn parhau i gael eu cynnig, gan ddarparu cyfleoedd i ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd i gysylltu â natur a blaenoriaethu eu hiechyd meddyliol a chorfforol wrth dreulio amser yn Eryri. Yn ogystal, bydd ymdrech barhaus i wella a datblygu ein cynnig o gyfleoedd gwirfoddoli, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hygyrch, yn ymgysylltu ac yn effeithio ar wirfoddolwyr o bob oed a chefndir.

Wrth i ni ddechrau cynllunio ar gyfer 2024, edrychwn ymlaen at adeiladu ar lwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf a pharhau i gydweithio â gwirfoddolwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid i ddiogelu harddwch naturiol a threftadaeth Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GWIRFODDOLI A LLES 2022







# Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Lles


| | |
|---|---|
| **1 Gwirfoddoli** | |
| **1.1** | Caru Eryri |
| **1.2** | Wardeiniaid Gwirfoddol |
| **1.3** | Ceidwaid Ifanc |
| **1.4** | Gwirfoddolwyr Awyr Dywyll |
| **1.5** | Digwyddiadau Corfforaethol |
| **1.6** | Dug Caeredin/ Grwpiau Coleg |
| **1.7** | Yr Ysgwrn |
| **1.8** | Staff yn Gwirfoddoli |
| **2 Lles** | |
| **2.1** | Teithiau Cerdded Meddylgarwch |
| **2.2** | Yoga Awyr Agored |
| **2.3** | Ysgol Goedwig |
| **2.4** | Cefnogi Ymwelwyr o'r Wcráin |
| **2.5** | Digwyddiadau Lles Staff |
| **3 Tramper** | |
| **3.1** | Archebion a Lleoliadau |
| **3.2** | Gwaith Hyrwyddo |
| **4** Diweddariad ar Ddangosyddion Perfformiad | |
| **5** Beth sydd i ddod yn 2023 | |



# 1- Gwirfoddoli


**1.1 - Caru Eryri**
**Ystadegau Allweddol 2022:**
**105 o ddiwrnodau yn Gofalu am Eryri**
**2640 o oriau gwirfoddoli**
**87 o wirfoddolwyr**
**Cyfanswm bagiau o sbwriel: 438**
**Cyfanswm pwysau: 970kg**


Gwnaeth tîm Caru Eryri waith rheolaeth ymwelwyr pwysig ar hyd y llwybrau mwyaf poblogaidd gan roi cefnogaeth i'r adran Wardeinio ar y ddaear drwy gynghori'r cyhoedd a chadw'r llwybrau a meysydd parcio heb sbwriel. Roedd y llwybrau yn cynnwys Llwybr Llanberis, Llwybr Watkin, Rhyd Ddu a Llwybr Cwellyn, Llyn Dinas ac Aberglaslyn, Capel Curig, Ogwen a Llyn Tegid. Roedd shifftiau rheolaidd ar ddyddiau Gwener, Sadwrn a Sul ac y cynnal a chadw llwybrau ar ddyddiau Mercher.

Ymgyrchoedd Cenedlaethol: Yn ystod Gwanwyn Glân Cymru 2022, wedi ei drefnu mewn partneriaeth a Cadwch Gymru'n Daclus, daeth 18 o wirfoddolwyr i batrolio pedwar prif lwybr yr Wyddfa i'r copa i glirio'r mynydd cyn y tymor prysur. Casglwyd 106kg o sbwriel ar y diwrnod yma. Dyma'r diwrnod casglu sbwriel cyntaf y tymor. Y diwrnod casglu sbwriel olaf y tymor oedd y Real 3 Peaks Challenge a daeth 16 o wirfoddolwyr i gymryd rhan i gasglu 45kg o sbwriel oddi ar y mynydd.

Crëwyd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i brosiect Caru Eryri ar ddechrau 2022 i ddenu mwy o gyhoeddusrwydd i'r cynllun er mwyn cynyddu cyfleoedd recriwtio, ac i rannu negeseuon pwysig â'r cyhoedd. Roedd y negeseuon hyn yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd mynd a sbwriel gartref, y cod cefn gwlad, a rhagarchebu parcio a lle i aros. Y cyrhaeddiad mwyaf i'r negeseuon yma oedd 217 mil. Ar y dudalen Facebook cyfanswm nifer o bobl oedd wedi hoffi oedd 267, gyda chyrhaeddiad mwyaf o 5.6 mil, Mae gan y dudalen Instagram 276 o ddilynwyr. Y dudalen Trydar yw'r lleiaf poblogaidd gyda chyfanswm o 37 o ddilynwyr.




*Graff o Facebook

Cynyddodd y prosiect ei gysylltiad ag arweinwyr mynydd lleol drwy ddefnyddio cyllideb y prosiect i gyflogi pum arweinydd profiadol i arwain grwpiau o wirfoddolwyr. Roedd yr arweinwyr mynydd yn cael eu blaenoriaethu dros staff prosiect i arwain grwpiau'r bartneriaeth eleni er mwyn cynyddu capasiti staff ar brosiectau gwirfoddoli eraill. Roedd hyn yn caniatáu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli.


Cynigiwyd y cyfle i wirfoddolwyr gymryd rhan mewn cwrs cymorth cyntaf. Cynhaliwyd un cwrs yn y Bala ym mis Mai ac un ym Metws y Coed ym mis Gorffennaf. Cwblhaodd 17 o wirfoddolwyr y cwrs a bellach maent wedi cymhwyso mewn cymorth cyntaf.

Ar ddechrau'r tymor cynhaliwyd tri sesiwn Awyr Agored ar yr 2$^{il}$ o Ebrill, 4$^{ydd}$ o Fai a'r 9$^{fed}$ o Fehefin. Dau yn Ogwen ac un ym Metws y Coed. Roedd y sesiynau yma'n cael eu cynnig i wirfoddolwyr newydd ac i wirfoddolwyr profiadol i'w diweddaru ar beth yr oedd y cynllun Caru Eryri, a beth i'w ddisgwyl wrth ddod allan i wirfoddoli gyda ni, tips ar ymgysylltu gyda'r cyhoedd a sut y mae'r Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli a'r heriau y mae'n ei wynebu. Roedd y sesiynau yma'n cael eu cynnal gan Mike Raine ac roedd yn rhannu ei wybodaeth eang o rywogaethau a chynefinoedd arbennig gyda'r gwirfoddolwyr. Roedd yr hyfforddiant yma'n ddewisol a daeth 23 o wirfoddolwyr i gymryd rhan. Mae adnoddau hyfforddiant eraill ar gael i'r gwirfoddolwyr i'w gweld ar-lein ar Better Impact cyn iddynt fynychu shifft Caru Eryri.

# Adborth Gwirfoddolwyr Caru Eryri

Sut glywsoch chi am gynllun gwirfoddoli Caru Eryri?How did you hear about the Caru Eryri / Care for Snowdonia volunteer scheme?


Answered: 27 Skipped: 0




| ANSWER CHOICES | RESPONSES | |
|---|---|---|
| Wedi cymryd rhan yng nghynllun gwirfoddoli yn 2020/2021.Involved in the volunteer scheme in 2020/2021. | 48.15% | 13 |
| Cyfryngau CymdeithasolSocial media | 11.11% | 3 |
| Gwefan/ rhestr bostio Cymdeithas Eryri Snowdonia Society website/ mailing list | 25.93% | 7 |
| Gwefan Parc Cenedlaethol EryriNational Park Authority website | 3.70% | 1 |
| Ar lafarWord of mouth | 3.70% | 1 |
| PosterPoster | 3.70% | 1 |
| Arall (Nodwch os gwelwch yn dda)Other (please specify) | 3.70% | 1 |
| TOTAL | | 27 |

Oedd y broses cofrestru'n hawdd?Was the sign-up process straightforward?

Answered: 27 Skipped: 0





| ANSWER CHOICES | RESPONSES | |
|---|---|---|
| Oedd Yes | 85.19% | 23 |
| Nac oedd (rhowch wybod i ni pa rhan roedd yn anodd i chi)No (please let us know what you found difficult) | 14.81% | 4 |
| Total Respondents: 27 | | |

# Adborth Gwirfoddolwyr Caru Eryri

Pa agwedd ar nodau Caru Eryi oedd bwysicaf i chi?Which aspect of Caru Eryi's aims were most important to you?


Answered: 27 Skipped: 0




| ANSWER CHOICES | RESPONSES | |
|---|---|---|
| Rheoli SbwrielManaging litter | 81.48% | 22 |
| Cynnal a chadw llwybrau Footpath Maintenance | 37.04% | 10 |
| Ymgysylltu a aelodau o'r cyhoedd Engaging with members of the public | 59.26% | 16 |
| ArolygonSurveys | 14.81% | 4 |
| Total Respondents: 27 | | |

A fyddech chi'n ystyried gwirfoddoli i Caru Eryri eto'r flwyddyn nesaf?Would you consider volunteering for Caru Eryri again next year?

Answered: 27 Skipped: 0




| ANSWER CHOICES | RESPONSES | |
|---|---|---|
| ByswnYes | 96.30% | 26 |
| Na fyswn (pam ddim?)No | 3.70% | 1 |
| Total Respondents: 27 | | |



I ddangos ein gwerthfawrogiad i'r gwirfoddolwyr, cynhaliwyd nifer o wahanol ddigwyddiadau yn arbennig ar eu cyfer, am ddim, roedd y rhain yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **5ed o Hydref** | Cyfeiriannu heibio'r llwybr gyda Mike Raine (mynychodd 5 o bobl) |
| **6ed o Hydref** | taith o amgylch canolfan achub Mynydd (mynychodd 6 o bobl) |
| **11eg o Hydref** | Taith a Sgwrs ar Ffyngau gyda Cynan Jones (mynychodd 8 o bobl) |
| **17eg o Hydref** | Rhaeaadrau, Coedlannau brodorol a Drylliad Awyren yng Ngogledd y Carneddau (mynychodd 4 o bobl) |
| **20fed o Hydref** | Taith Gorffennol Diwydiannol yr Wyddfa gyda Keith Hulse (mynychodd 5 o bobl) |
| **22ain o Hydref** | Taith yr Ysgwrn (mynychodd 3 o bobl) |
| **23ain o Hydref** | Taith Natur yn Eryri gyda Mike Raine – Rhinog Fawr (mynychodd 8 o bobl) |
| **28ain o Hydref** | Noson Ddathlu a Diolch Gofalu am Eryri (mynychodd 21 o bobl) |

Ar y digwyddiad o ddiolch, noson o ddathlu yng Nghlwb Rygbi Bethesda, rhoddwyd mygiau o waith llaw oedd wedi eu gwneud yn arbennig ar gyfer yr achlysur a phecyn o gardiau chwarae ar y thema natur i'r gwirfoddolwyr.



# 1.2 - Wardeniaid Gwirfoddol

Mae Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa wedi gwneud gwahaniaeth positif iawn unwaith eto yn nhermau patrolio'r llwybrau. Y tymor yma mae yna bresenoldeb warden wedi bod ar yr Wyddfa ar 77 o ddyddiau. Mae 36 o wardeiniaid gwirfoddol wedi gwirfoddoli ac wedi gwneud cyfanswm o 272 o shifftiau. Mae hyn yn gyfanswm o 1600+ o oriau gwirfoddol, gan lenwi tua 300 bag o sbwriel, ac wedi bod o gymorth i dros 3000 o bobl.

Yn 2022 am y tro cyntaf, cafodd wardeniaid gwirfoddol eu recriwtio i gynorthwyo'r wardeiniaid ar Gader Idris. Cafodd 11 o wirfoddolwyr eu recriwtio yn arbennig ar gyfer y rôl hon. Cwblhawyd cyfanswm o 35 shifft, sy'n gyfanswm o 220 o oriau gwirfoddoli.





| Dyddiad | Cwmni | Nifer y Gwirfoddolwyr | Gweithgaredd | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|
| 22 Maw | Costain Consulting | 17 | Torri eithin | Anafon, Abergwyngregyn |
| 23 Maw | Costain Consulting | 18 | Plannu coed (740 o goed) | Garnedd Wen, Conwy |
| 30 Maw | Sykes | 12 | Plannu coed | Llechwedd Hen, Frongoch |
| 23 Meh | Sykes | 6 | Rhododendron | Bryn Gwynant |
| 2 Medi | Sykes | 4 | Torri Conwydd | Parc Mine |
| 17 Tach | Finastra | 11 | Plannu Coed | Gwern Gof Isaf |
| 01 Rhag | Finastra | 8 | Plannu Coed | Gwern Gof Isaf |

## 1.3– Ceidwaid Ifanc

Gyda phenodiad Swyddog Pobl Ifanc newydd daeth dychweliad Cynllun Ceidwaid Ifanc. Cynhaliwyd 6 sesiwn ym 2022 oedd yn dilyn y drefn draddodiadol o dasg grŵp cadwraeth yn y bore ac yna gweithgareddau antur yn y prynhawn. Bu i 13 o geidwaid ifanc gymryd rhan yn y cynllun drwy ddysgu sgiliau newydd a gwybodaeth am y Parc Cenedlaethol ac adeiladu hyder yn yr awyr agored. Roedd y dasg cadwraeth yn cynnwys casglu sbwriel, rheolaeth coedwigoedd, a phlannu coed gydag amrywiaeth o weithgareddau fel dringo, ceufadu, a cherdded ceunentydd.

## 1.4 - Gwirfoddolwyr Awyr Dywyll

Yn dilyn llwyddiant recriwtio gwirfoddolwyr i helpu monitro'r awyr dywyll, gwahoddwyd y gwirfoddolwyr i gymryd rhan unwaith eto yn ystod y tymor awyr dywyll. Roedd nifer yn ei gweld yn anodd cymryd rhan eleni oherwydd tywydd garw, ond hefyd yr anghyfleustra o orfod teithio i'r pencadlys yn ystod oriau swyddfa i nôl yr SQM (Mesurydd Ansawdd yr Awyr). Cawsom, fodd bynnag cafwydd 2 ddarlleniad gan wirfoddolwr ifanc oedd wedi gwneud cais i astudio peirianneg awyrofod, a phrofodd y cyfle yma i fod o fudd i'w cais.

## 1.5 - Digwyddiadau Corfforaethol

Rydym yn aml yn cael ymholiadau gan fusnesau neu sefydliadau yn gofyn am gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer eu tîm. Yn enwedig wedi'r strwythur newydd o weithio a phobl yn gweithio o gartref, mae hyn yn rhoi cyfle i sefydliadau i ddod â phawb at ei gilydd i roi hwb i moral a meithrin tîm, yn ogystal â gwneud rhywbeth da i'r amgylchedd. Mae'r tabl isod yn dangos y gwaith y mae grwpiau corfforaethol wedi bod ynghlwm â nhw yn ystod 2022.



# 1.6– Dug Caeredin/ Grwpiau Coleg

Rydym yn cadw perthynas dda gyda Rhyd y Creuau, Field Studies Council fel ein prif gyswllt ar gyfer cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i grwpiau myfyrwyr Dug Caeredin. Yn ogystal â'r grŵp Addysg Chwaraeon ac Awyr Agored sydd yn rhan o goleg Llandrillo gyda hyd at 14 o fyfyrwyr ar y cwrs bob blwyddyn. Mae Coleg Myddleton, Dinbych hefyd yn mynychu dyddiau gwirfoddoli yn rheolaidd fel rhan o'u cwricwlwm. Mae'r myfyrwyr wedi bod yn gweithio ar safle mwynglawdd Parc, yng Nghoed Gwydir, yn helpu i dynnu'r coed conwydd fel bod coed cynhenid yn tyfu ac i warchod y cen prin sydd yn tyfu yno. Mae cynnydd mawr wedi digwydd ar y safle ac mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i gael safle lle mae grwpiau yn gallu dychwelyd i weld y gwelliant sydd o'u cyfraniad.







## 1.1 – Yr Ysgwrn

Cynhaliwyd ffair wirfoddoli yn yr Ysgwrn ar y 9fed o Ebrill. Diwrnod agored i annog pobl i alw heibio os oedd ganddynt ddiddordeb derbyn mwy o wybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli yma. Fodd bynnag, roedd hefyd yn gyfle da i'r gwirfoddolwyr profiadol ddychwelyd i gael dal i fyny wedi'r safle gau dros y gaeaf. Cyfrannodd 10 gwirfoddolwr i redeg yr Ysgwrn eleni drwy groesawu grwpiau, helpu yn y caffi, a rhoi taith o'r tŷ fferm.

## 1.6– Staff Volunteering

Gan fod staff yn cael 2 ddiwrnod llawn i wirfoddoli bob blwyddyn, cafodd y staff i gyd wahoddiad i gymryd rhan mewn 2 ddiwrnod gwirfoddoli yn arbennig i staff yn 2022. Roedd y digwyddiadau yn cynnwys diwrnod plannu coed yn Nhrawsfynydd ar y 27 o Ebrill (daeth 7 aelod o staff), a diwrnod cloddio arfau neolithig ar y Carneddau ar y 3ydd o Hydref (daeth 13 aelod o staff). Gwnaeth rhai aelodau staff gymryd rhan mewn monitro niferoedd ymwelwyr ar yr Wyddfa a chynnal arolwg ymwelwyr ym Metws y Coed, Llyn Tegid, Aberdyfi a Phen y Pass i waith ymchwil ar lonyddwch i Brifysgol Caerwynt.

## 1.7- Lles

Cafodd y rhaglen Dyddiau Llesiant eu ymestyn yn 2022 i gynnal mwy o ddigwyddiadau mewn nifer o leoliadau ar draws y Parc Cenedlaethol, Cafwyd sesiynau ysgol goedwig ychwanegol yng nghoedwigoedd y Parc Cenedlaethol fel bod plant yn cael eu cynnwys yn y rhaglen. Roedd y digwyddiadau i gyd am ddim a gellid archebu lle drwy'r wefan. Roeddynt yn cael eu hysbysebu yn y cylchlythyr, platfformau cyfryngau cymdeithasol a thrwy Beth am Symud Gogledd Cymru. Mae'r  tablau isod yn dangos sut mae poblogrwydd y digwyddiadau yma wedi cynnal.







## 2.1 – Teithiau Cerdded Meddylgarwch

Cost ymarferwr meddylgarwch £700

| | | |
|---|---|---|
| Mai | Cwm Idwal | 6 mynychwr |
| Mehefin | Craig y Ddinas | 5 mynychwr |
| Gorffennaf | Llwybr Cynwch | 10 mynychwr |
| Awst | Cwm Idwal | 10 mynychwr |
| Medi | Taith Jiwbilî | 9 mynychwr |
| Hydref | Bron Aber | 8 archeb (canslo oherwydd tywydd garw) |
| Tachwedd | Betws y Coed | 9 mynychwr |
| Rhagfyr | Beddgelert | 12 mynychwr |

## 2.2 – Yoga Awyr Agored

Cost hyfforddwr yoga £340

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin | Llyn Mair | 7 mynychwr |
| Gorffennaf | Traeth Harlech | 15 mynychwr |
| Awst | Llyn Mair | 10 mynychwr |
| Medi | Traeth Harlech | 12 mynychwr |

## 2.3 – Ysgol Goedwig

Cost sesiwn i gyflogi athrawon ysgol goedwig £625

| | | |
|---|---|---|
| Mai | Coed Bryn Berthynau, Capel Curig | 6 mynychwr |
| Mehefin | Coed Hafod, Llanrwst | 11 mynychwr |
| Gorffennaf | Coed Farchynys, Bontddu | 15 mynychwr |
| Medi | Coed Llyn Mair, Maentwrog | 9 mynychwr |





## 2.4 – Cefnogi Ymwelwyr o'r Wcráin

Ar ddiwedd y flwyddyn buom yn gweithio gyda dau sefydliad sydd yn cefnogi ymwelwyr o'r Wcráin yng Ngogledd Cymru, sef Pobl i Bobl wedi eu lleoli ym Mangor a chydlynydd ailsefydlu i Gyngor Sir Conwy. Rydym wedi cynnal digwyddiad arbennig o groeso ym Mhlas Tan y Bwlch a theithiau cerdded misol yn y Parc Cenedlaethol yn arbennig ar gyfer y grŵp.

## 2.5 – Digwyddiadau Lles i Staff

Trefnwyd Taith Meddylgarwch arbennig i'r Tîm Ymgysylltu ddod at ei gilydd ym mis Mai. Byddai'n bleser trefnu digwyddiadau o'r fath i adrannau eraill yr Awdurdod.

# 3- Tramper

Gyda'r wefan newydd daeth system archebu ar-lein ar gyfer llogi'r tramper oedd yn gwneud y broses yn llawr mwy llyfn i'r cwsmer ac yn haws i'w reoli. Gall defnyddwyr wneud archeb i logi'r tramper ar gyfer unrhyw lwybr mynediad i bawb sydd wedi ei labelu'n addas i tramper ar y wefan.

## 3.1 – Llogi a Lleoliadau

Yn ogystal â'r archebion sydd yn y tabl, mae 1085 Adventures ym Meddgelert hefyd wedi derbyn dros 50 archebion i'r tramper, gyda thua 10 ohonynt yn ddefnyddwyr sy'n dychwelyd.




| Dyddiad Llogi Tramper | Lleoliad |
|---|---|
| $14^{eg}$ o Chwefror | Llwybr Mawddach |
| $11^{eg}$ o Ebrill | Rhaeadr Fawr |
| $13^{eg}$ o Ebrill | Llwybr Mawddach |
| $14^{eg}$ o Ebrill | Llwybr y Mwynwyr |
| $15^{fed}$ o Ebrill | Llwybr y Mwynwyr |
| $21^{ain}$ o Ebrill | Llwybr Mawddach |
| $3^{ydd}$ o Fai | Moelyci |
| $6^{ed}$ o Fai | Llyn Mair |
| $19^{eg}$ o Fai | Llwybr y Mwynwyr |
| $21^{ain}$ o Fai | Rhaeadr Fawr |
| $24^{ain}$ o Fai | Lôn Gwyrfai |
| $26^{ain}$ o Fai | Rhaeadr Fawr |
| $31^{ain}$ o Fai | Llwybr y Mwynwyr |
| $1^{af}$ o Fehefin | Llwybr y Mwynwyr |
| $6^{ed}$ o Fehefin | Rhaeadr Fawr |
| $18^{fed}$ o Fehefin | Llwybr Mawddach |
| $24^{ain}$ o Fehefin | Llwybr y Mwynwyr |
| $4^{ydd}$ o Orffennaf | Rhaeadr Fawr |
| $8^{fed}$ o Orffennaf | Lôn Gwyrfai |
| $11^{eg}$ o Orffennaf | Llwybr Mawddach |
| $14^{eg}$ o Orffennaf | Llwybr y Mwynwyr |
| $20^{fed}$ o Orffennaf | Rhaeadr Fawr |
| $29^{ain}$ o Orffennaf | Lôn Gwyrfai |
| $8^{fed}$ o Awst | Lôn Gwyrfai |
| $18^{fed}$ o Awst | Lôn Gwyrfai |
| $20^{fed}$ o Awst | Lôn Gwyrfai |
| $22^{ain}$ o Awst | Llwybr Mawddach |
| $25^{ain}$ o Awst | Rhaeadr Fawr |
| $31^{ain}$ o Awst | Lôn Gwyrfai |
| $31^{ain}$ o Awst | Llwybr Mawddach |
| $2^{il}$ o Fedi | Lôn Gwyrfai |
| $13^{eg}$ o Fedi | Lôn Gwyrfai |
| $23^{ain}$ o Fedi | Llwybr Mawddach |
| $26^{ain}$ o Fedi | Llwybr Mawddach |
| $17^{eg}$ o Hydref | Lôn Gwyrfai |





## 3.2 – Gwaith Hyrwyddol y Tramper

Roedd y Rali Ice Trike a gynhaliwyd yn y Bala yn gyfle perffaith i ddangos beth sydd gan Eryri ei gynnig i bobl sydd ag anghenion mynediad ychwanegol.

Darparodd yr Awdurdod eu cerbydau symudedd ar gyfer y digwyddiad oedd yn cynnwys y Trampers a beic newydd 4 olwyn sy’n addas ar gyfer pob math o dir tra hefyd yn hyrwyddo’r buddion a’r cyfleoedd sydd ar gael ar nifer o lwybrau mynediad i bawb ar draws y Parc Cenedlaethol.

Byddwn yn parhau i gydweithio’n agos gyda’r trefnwyr yn y dyfodol i godi ymwybyddiaeth a dangos y gefnogaeth sydd ar gael i bobl gydag anableddau i gael mynediad a mwynhau’r awyr agored.

Yn ystod yr hydref, bu i inni gomisiynu gwneuthurwr ffilmiau, Film Up High gan weithio ar greu cyfres o fideos hyrwyddol i godi ymwybyddiaeth am y llwybrau mynediad i bawb. Gellir gweld y ffilmiau drwy’r dolenni isod, y cyfrinair ar eu cyfer yw SNPA:

| |
|---|
| **https://vimeo.com/772061551** |
| **https://vimeo.com/772062731** |
| **https://vimeo.com/772064287** |
| **https://vimeo.com/772065899** |
| **https://vimeo.com/772067318** |
| **https://vimeo.com/772069303** |
| **https://vimeo.com/772071369** |
| **https://vimeo.com/772073295** |

# 4 – Diweddariadau Dangosyddion Perfformiad

## Tabl o'r Strategaeth Gwirfoddoli

| Gweithred | Metrig | Sut y byddwn yn mesur | Pwy fydd yn casglu'r data a sut y bydd yn cael ei adrodd | Targed 2022 | Canlyniad 2022 | Targedau ac argymhellion 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Creu cynllun cyfleoedd a chefnogaeth sydd yn galluogi pobl ifanc, anabl, rhai sy'n cael eu hallgau'n gymdeithasol a rhai sydd yn cael eu tangynrychioli i wirfoddoli. | Nifer y gwirfoddolwyr (yn cynnwys ffigyrau penodol ar gyfer grwpiau targed) | System Better Impact ac adroddiadau o brosiectau | Swyddog Gwirfoddoli<br><br>a LleS | Addasu'r ffurflen gais gwirfoddoli i gynnwys holiadur ar y categoriau hyn.<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr:<br><br>Pobl ifanc: 10<br><br>Pobl sy'n cael eu hallgau'n gymdeithasol a'u tangynrychioli:10 | Nifer y gwirfoddolwyr:<br><br>Demograffig oedran gwirfoddoli:<br><br>Plant (grwpiau ysgol): 132<br><br>Pobl ifanc (14-24): 87<br><br>25-50: 74<br><br>50+: 115<br><br>Nid oes data ar gael ar gyfer nodweddion gwarchodeig eraill | Nifer y gwirfoddolwyr:<br><br>Pobl ifanc: 10<br><br>Pobl anabl: 10<br><br>Pobl sy'n cael eu hallgau'n gymdeithasol a thangynrychioli: 10 |
| Penodi gwirfoddolwyr i rôl benodol a darparu hyfforddiant yn ogystal â digwyddiadau gwirfoddoli ar gyfer pobl sydd methu ymrwymo i weithgareddau rheolaidd. | Nifer y gwirfoddolwyr un- tro a rhai sy'n aml-wirfoddoli | Adroddiad ar shifftiau gwirfoddoli Caru Eryri o Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y Gwirfoddolwyr Caru Eryri:80<br><br>Nifer y Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa: 35 | Nifer y Gwirfoddolwyr Caru Eryri:84<br><br>Nifer y Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa: 35<br><br>Nifer y Wardeinaid Gwirfoddol Cader Idris: 11 | Nifer y Gwirfoddolwyr Caru Eryri: 50<br><br>Nifer y Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa: 50 |
| Sefydlu rolau gwirfoddoli newydd yn ardaloedd eraill y PC ar wahân i ardal yr Wyddfa e.e. Wardeniaid Gwirfoddol De'r Parc.<br><br>Recriwtio i ddechrau yn 2021 | Nifer y dyddiau o wirfoddoli a gwirfoddolwyr fesul lleoliad daearegol eang | Wardeinaid gwirfoddol wedi eu recriwtio a derbyn hyfforddiant cyn i dymor 2022 ddechrau | Swyddog Gwirfoddoli a Lles a Phrif Wardeinaid. | Nifer o ddyddiau gwirfoddoli:<br><br>Cader Idris: pob penwythnos a gwyl banc o Ebrill i Fedi<br><br>Nifer y ceisiadau ar gyfer Warden Gwirfoddol y De 2022: 10 | Cwblhawyd.<br><br>Wardeiniaid Gwirfoddol Cader Idris<br><br>Nifer o ddyddiau gwirfoddoli: 35 (202 oriau gwirfoddoli) | Cadw'r nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Cader Idris |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ddatblygu mwy o grwpiau gwirfoddoli mewnol ar gyfer: Bioamrywiaeth, Awyr Dywyll, Prosiectau Cadwraeth (LIFE, Carneddau) a phrosiectau eraill yn y dyfodol | Nifer o ddyddiau gwirfoddoli fesul adran/ prosiect | System Better Impact ac adroddiad gan y prosiectau | Swyddog Gwirfoddoli a Lles a staff prosiectau | Targed newydd: sesiynau garddio misol ym Mhlas Tan y Bwlch gyda thîm rheolaidd o 6-10 gwirfoddolwr.<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr Awyr Dywyll: 40<br><br>Nifer y dyddiau gwirfoddoli Bioamrywiaeth a Choedwigoedd:<br><br>Nifer y dyddiau gwirfoddoli prosiect y Carneddau:<br><br>Nifer y dyddiau gwirfoddoli Prosiect LIFE: | Nifer y gwirfoddolwyr Awyr Dywyll: 2<br><br>Nifer y dyddiau gwirfoddoli Rheolaeth Coedwigoedd: 8<br><br>Nifer y dyddiau gwirfoddoli cynnal a chadw llwybrau: 8<br><br>Nifer y dyddiau gwirfoddoli Prosiect y Carneddau: 48<br><br>Nifer y dyddiau gwirfoddoli prosiect LIFE: 2<br><br>Nifer y dyddiau gwirfoddoli Mawndiroedd: | Mae'r targed i gael sesiynau garddio ym Mhlas Tan y Blwch yn her barhaus.<br><br>Parhau i gefnogi swyddogion i gydlynu cyfleoedd gwirfoddoli o ddiddordeb amrywiol. |
| Bydd prosiectau megis yr Ysgwrn yn dyblu'r nifer o wirfoddolwyr o 15 i 30 drwy gynnal ffeiriau gwirfoddoli a boreau coffi ar y safle i ledaenu'r gair, a hefyd yn hysbysebu rolau ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn papurau lleol. | Nifer o ddyddiau gwirfoddoli fesul adran/ prosiect | Adroddiad gan staff yr Ysgwrn | Swyddog Gwirfoddoli a Lles & Rheolwr Treftadaeth Ddiwylliannol | Nifer y gwirfoddolwyr Yr Ysgwrn: 1-12<br><br>*Cynnal ffair wirfoddoli yn yr Ysgwrn ar y 9fed o Ebrill cyn i'r tymor ddechrau i helpu recriwitio.* | Nifer gwirfoddolwyr Yr Ysgwrn:10 | Parhau i recriwtio gwirfoddolwyr drwy gynnal boreau coffi rheolaidd ar y safle a hysbysebu'r rôl yn fwy eang. |
| Parhau i gynnig Cynllun Ceidwad Ifanc i bobl ifanc rhwng 14-16 oed a darparu cefnogaeth a chyngor ar draws y sefydliad i alluogi swyddogion i drefnu a rheoli cyfleoedd gwirfoddoli. Bydd prosiectau megis yr Ysgwrn yn dyblu'r nifer o wirfoddolwyr o 15 i 30 drwy gynnal ffeiriau gwirfoddoli a boreau coffi ar y safle i ledaenu'r gair, a hefyd yn hysbysebu rolau ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn papurau lleol. | Nifer y gwirfoddolwyr a dyddiau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol. | Adroddiad gan y Swyddog Pobl Ifanc | Swyddog Gwirfoddoli a Lles, Warden Ardal, Swyddog Pobl Ifanc. | Bydd Swyddog Ieuenctid yn ei swydd. Bydd 12 o geidwaid ifanc yn cael cynnig y cyfle i fod yn rhan o'r cynllun. | Nifer y Cediwaid Ifanc: 13<br><br>Nifer y dyddiau Ceidwaid Ifanc: 6 | Parhau i gefnogi'r Swyddog Pobl Ifanc a darparu cyfleoedd gwirfoddoli amrywiol i'r Ceidwaid Ifanc. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Drwy hyrwyddo gwirfoddoli i staff ac aelodau byddwn yn trefnu 2 ddiwrnod gwirfoddoli i staff ac aelodau pob blwyddyn. Mae gan bob aelod o staff yr hawl i wirfoddoli hyd at 15 awr y flwyddyn i adrannau eraill o fewn yr Awdurdod. | Nifer y dyddiau gwirfoddoli staff | Adroddiad o nifer o ddyddiau gwirfoddoli staff | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Trefnu 2 ddigwyddiad gwirfoddoli yn arbennig i staff ac aelodau'r Parc Cenedlaethol i gymryd rhan. | Nifer y dyddiau gwirfoddoli staff: 2<br><br>Nifer y staff yn cymryd rhan: 20 | Yn ogystal â threfnu dau ddiwrnod gwirfoddoli y flwyddyn, annog staff ac aelodau i gymryd rhan mewn cynlluniau gwirfoddoli fel Caru Eryri. |
| Datblygu ac annog gweithio gyda grwpiau corfforaethol noddedig ar brosiectau sydd yn gydfuddiannol. Mae gwirfoddoli corfforaethol yn faes gyda'r potensial o dwf sylweddol mewn gwirfoddoli ac ar gyfer cynhyrchu incwm. Bydd y cyllid yn ein caniatáu i ail fuddsoddi mewn gwirfoddoli gan y byddwn mewn gwell lle i ddarparu cyfarpar diogelu personol ac iwnifform i'n gwirfoddolwyr.<br><br>. | Nifer y gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn dyddiau gwirfoddoli corfforaethol | Adroddiad o'r nifer o ddyddiau gwirfoddoli corfforaethol | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y gwirfoddolwyr corfforaethol: 80 | Nifer y dyddiau gwirfoddoli corfforaethol: 7<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr corfforaethol: 76<br><br>*Mae grwpiau corfforaethol yn gallu gwneud ymholiadau am ddiwrnod gwirfoddoli yn syth drwy'r wefan a rhoi rhoddion i gefnogi mentrau gwirfoddoli.* | .Nifer y gwirfoddolwyr corfforaethol: 80<br><br>Annog grwpiau mawr i dodd i wirfoddoli gyda ni am ddiwrnod i ymgymryd â gwaith cadwraeth sydd angen nifer o bobl. |
| Parhau i gydweithio gyda Cymdeithas Eryri, y Bartneriaeth Awyr Agored, ac eraill i annog mwy o wirfoddoli mewn cefnogaeth i bwrpasau'r Parc Cenedlaethol (a phartneriaid eraill fel sy'n briodol) | Adroddiad llafar ar gyflawni hyn fel rhan o'r adroddiad blynyddol | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | *Parhau i gydweithio'n agos gyda'n partneriaid i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli ar draws y Parc Cenedlaethol.* | Mae gweithio mewn partneriaeth ar brosiect Caru Eryri yn annog perthynas dda gyda sefydliadau eraill sydd yn gweithio tuag at ganlyniadau tebyg. | Parhau'r gwaith yma, ac ehangu cyfleoedd gwirfoddoli yn ardaloedd De'r Parc drwy weithio gyda'r wardeniaid ardal a grwpiau lleol e.e. Coleg Meirion, Cwmni Nod Glas a Mantell Gwynedd |
| Sicrhau bod o leiaf dau ddiwrnod gwirfoddoli gyda Chymdeithas Eryri bob mis. | Nifer y dyddiau gwirfoddoli | Adroddiad gan Gymdeithas Eryri | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | *Anelu i wneud o leiaf 6 diwrnod o wirfoddoli gyda Cymdeithas Eryri bob mis.* | *Nifer y dyddiau gwirfoddoli: 15*<br><br>*Nifer y dyddiau Caru Eryri:105* | *Yn 2022, cynhaliwyd 10 diwrnod gwirfoddoli bob mis ar gyfartaledd mewn partneriaeth â Caru Eryri.*<br><br>*Mae gwaith yn parhau ar y targed yma ar gyfer 2023 gyda'r nod o gynnal 10 diwrnod gwaith y mis.* |


| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn cydweithredu'n strategol gyda sefydliadau eraill sydd yn defnyddio gwirfoddolwyr cadwraeth yn Eryri er mwyn rhannu arfer dda, hyfforddiant ag ati. | Nifer y dyddiau gwirfoddoli | Adroddiad gan staff Cymdeithas Eryri | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y dyddiau gwirfoddoli gyda Cymdeithas Eryri | Nifer y dyddiau gwirfoddoli: 15<br><br>Nifer y dyddiau Caru Eryri: 105 | Fel yr uchod, gydag ychwanegiad i roi mwy o sylw ar hyfforddiant yn enwedig i'r arweinwyr gwirfoddoli i Caru Eryri. |
| Ceisio cyfleoedd gyda phartneriaid i gael dyddiau hyfforddiant achrededig i wella medrusrwydd gwirfoddolwyr. | Nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant a'r nifer a hyfforddwyd<br><br>. | Adroddiad o Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y digwyddiadau hyfforddiant: 12<br><br>Nifer o wirfoddolwyr a hyfforddwyd: 60 | Nifer y digwyddiadu hyfforddiant: 6<br><br>Nifer o wirfoddolwyr a hyfforddwyd: 40<br><br>Yn cynnwys Hyfforddiant Cymorth Cyntaf a hyfforddianet Caru Eryri gan Mike Raine. | Parhau i gynnig cyrsiau cymorth cyntaf i wirfoddolwyr a cheisio am gyfleoedd eraill ar gyfer datblygiad pellach pan y bydd cyllideb yn caniatau. |
| Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws y Parc Cenedlaethol- rhai am un diwrnod yn unig, ac eraill yn gofyn am fwy o ymrwymiad dros gyfnod o oriau bob mis gan wirfoddolwyr. | Nifer o wirfoddolwyr a dyddiau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol | Adroddiad o Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer o wirfoddolwyr: 150<br><br>Nifer o ddyddiau gwirfoddoli (shiffitiau): 500 | Nifer o wirfoddolwyr: 206<br><br>Nifer o ddyddiau gwirfoddoli: 485 | Nifer o wirfoddolwyr: 250<br><br>Nifer o ddyddiau gwirfoddoli: 500 |
| Cefnogi'r gwasanaeth Wardeinio yn eu defnydd o wirfoddolwyr | Nifer o ddyddiau gwirfoddoli fesul adran/ prosiect a lleoliad daeryddol | Adroddiad ar oriau o SignUp | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer o ddyddiau gwirfoddoli:<br><br>Yr Wyddfa: 285<br><br>Cader Idris:110<br><br>*Cydweithio gyda'r gwasanaeth Wardeinio i gynnal dyddiau cynnal a chadw llwybrau fel rhan o gynllun Caru Eryri y tymor hwn.*<br><br>*Bydd yn cynnwys 1 diwrnod cynnal a chadw llwybrau y mis.* | Nifer o ddyddiau gwirfoddoli:<br><br>Yr Wyddfa: 272 (1600+ oriau gwirfoddol)<br><br>Cader Idris: 35 (220 oriau gwirfoddol) | Parhau i gefnogi'r gwasaneth Wardeinio yn eu defnydd o wirfoddolwyr drwy amserlennu dyddiau cynnal a chadw llwybrau rheolaidd yn ogystal â chynorthwyo gyda phrosiectau eraill fel yr angen.<br><br>Wardeinaid i roi hyfforddiant ar Better Impact a shiffitau Wardeinaid Gwirfoddol wdi eu hysbysebu ar y feddalwedd. |
| Wardeiniaid Gwirfoddol i ymgymryd â mwy nag un rôl, os bosib yn cynorthwyo gyda gweithgareddau ymgysylltu fel arwain neu ôl farcio teithiau cerdded tywysiedig pan fo rhaglenni newydd mewn lle<br><br>. | Nifer o wirfoddolwyr fesul adran | Adroddiad o SignUp | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol yr Wyddfa: 45<br><br>Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Cader Idris:10<br><br>Mae Wardeinaid Gwirfoddol yn dod yn arweinwyr grŵp i wirfoddolwyr Caru Eryri. | Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol yn arwain grwpiau gwirfoddol Caru Eryri: 3<br><br>Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol yr Wyddfa: 35<br><br>Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Cader Idris: 11 | Drwy ymgorffori Wardeinaid Gwirfoddol i Better Impact bydd yn eu hannog i gymryd rhan mewn cyfleoedd eraill. |


| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynorthwyo gwirfoddolwyr hir-wasanaeth yn eu datblygiad personol fel cyflawni elfennau i'r Cymhwyster Safonau Cenedlaethol. | Nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant a nifer a hyfforddwyd | Adroddiad o Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y gwirfoddolwyr sydd wedi cwblhau hyfforddiant Caru Eryri: 80<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr wedi cwblhau cwrs Cymorth Cyntaf: POB gwirfoddolwr<br><br>Nid oes digon o arian yn y gyllideb i gynnig hyfforddiant Arweinydd Mynydd i wirfoddolwyr y tymor hwn. | Nifer o wirfoddolwyr wedi cwblhau hyfforddiant Caru Eryri: 24<br><br>Nifer o wirfoddolwyr wedi cwblhau cwrs Cymorth Cyntaf: 20<br><br>Ni gynigiwyd hyfforddiant Arweinydd Mynydd yn 2022. | Cadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda gwirfoddolwyr hir wasanaeth i weld sut y gallwn gefnogi eu datblygiad personol.<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr wedi cwblhau cwrs Cymorth Cyntaf: 30 |
| Defnyddio dulliau recriwtio effeithiol i sicrhau ein bod yn cyrraedd ystod eang o bobl. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Mantell Gwynedd, Cyngor gweithredu Gwirfoddol a grwpiau o ddiddordeb arbennig eraill. | Nifer y gwirfoddolwyr | Adroddiad o Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y gwirfoddolwyr wedi cofrestru ar Better Impact: 450<br><br>Nifer o wirfoddolwyr uniongyrchol: 50 | Nifer y gwirfoddolwyr wdi cofrestru ar Better Impact: 599<br><br>Mae'r holl wirfoddolwyr newydd bellach yn cofrestru'n uniongyrchiol drwy Better Impact | Annog pob gwirfoddolwr sydd wedi coftrestru i gymryd rhan yn y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael. |
| Datblygu proses recriwtio a sefydlu cadarn. Bydd hyn yn cynnwys pecyn anwytho yn egluro pob agwedd o waith gwirfoddoli yn ogystal â chofrestru i'r cynllun Llysgenhadon. | Pecyn anwytho wedi ei ddatblygu.<br><br>Mae gwirfoddolwr newydd a rhai sydd wedi eu sefydlu 'n barod wedi cael pecyn anwytho. | Adroddiad o Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | *Ar wefan newydd y Parc Cenedlaethol, bydd gwirfoddolwyr yn cael eu harwain yn syth i Better Impact. Bydd hefyd blwch ymholiadau ar gyfer unigolion, colegau a grwpiau corfforaethol.* | *Blwch ymholiadau ar wirfoddoli ar gael ar ywefan.*<br><br>*Gwirfoddolwyr yn cael eu harwain i gofrestru i wirfoddoli dyddiau gwaith ar Better Impact.*<br><br>*Pecynnau gwybodaeth yn cael eu hanfon i wirfoddolwyr gyda swyddi penodol.* | *Annog gwirfoddolwyr i weithio tuag at fod yn Lysgenhaodn aur.* |
| Marchnata ein cyfleoedd gwirfoddoli drwy ddefnyddio'r dulliau canlynol: rhestru'r cyfleoedd sydd ar gael ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn canolfannau gwirfoddoli; cymryd mantais o ddigwyddiadau cyhoeddus i ennyn diddordeb i'r cyfleoedd gwirfoddoli; sefydlu tudalen 'cysylltu' ar y wefan newydd, gan roi gwybodaeth ar wirfoddoli gyda'r Awdurdod; rhannu lluniau o weithgareddau gwirfoddoli. | Nifer o wirfoddolwyr a dyddiau gwirfoddoli.<br><br>Tudalen gwirfoddoli wedi ei sefydlu ar y wefan newydd. | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Parhau i ddefnyddio yr un dulliau recriwtio | Mynychu ffeiriau gwirfoddoli Mantell Gwynedd yn rheolaidd i hyrwyddo'r cyfleoedd gwirfoddoli yn y Parc Cenedlaethol.<br><br>Canmol gwaith ein gwirfoddolwyr ar ein cyfryngau cymdeithasol | Parhau i ddefnyddio'r un dulliau recriwtio. |


| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Parhau i gynnwys diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth ar wirfoddoli mewn erthyglau/ atodiadau mewn cyhoeddiadau ac adroddiadau, datganiadau i'r wasg, erthyglau yn dathlu a diolch i wirfoddolwyr, hysbysiadau a gwaith print mewn canolfannau gwybodaeth ac ati. | Nifer y gwirfoddolwr a dyddiau gwirfoddoli i grwpiau targed penodol | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Parhau i ddathlu ein gwirfoddolwyr anhygoel. | Gwerthfawrogiad o'n gwirfoddolwyr yn cael ei ddangos drwy gynnal digwyddiadau diolch ar ddiwedd y tymor ac mewn cyhoeddiadau. | Ethol 7 gwirfoddolwr i gymryd rhan yn yr Wythnos Gwirfoddoli ym mis Mehefin, |
| Rydym ar hyn o bryd yn defnyddio SignUp i gydlynu'r cyfleoedd gwirfoddoli i Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa. Rydym wedi cyflwyno system rheoli gwirfoddoli ar-lein o'r enw Better Impact i'n gwirfoddolwyr Caru Eryri. Os yw hyn yn gweithio'n llwyddiannus drwy'r tymor byddwn yn edrych ar ddefnyddio'r feddalwedd i gydlynu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer yr holl brosiectau gwirfoddoli yn y Parc Cenedlaethol. | System reoli gwirfoddolwyr newydd ewdei ei sefydlu. System reoli gwirfoddoli yn cael ei ddefnyddio i fesur ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad | Adroddiad o feddalwedd Better Impact a system Sign Up | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Parhau i ddefnyddio'r feddalwedd Rheoli Gwirfoddoli | Parhaodd y Wardeiniaid Gwirfoddol i ddefnyddio SignUp yn 2022.<br><br>Roedd pob digwyddiad gwirfoddoli arall yn cael ei gydlynu drwy Better Impact. | Wardeinaid Gwirfoddol yn cyfuno i ddefnyddio Better Impact yn 2023. |

# 5 – Beth sydd i ddod yn 2023

- Wardeiniaid Gwirfoddol yn cyfuno i ddefnyddio Better Impact
- Caru Eryri yn dechrau'r tymor gyda Gwanwyn Glân Cymru ac yn gorffen yn gyda'r real 3 Peaks Challenge.
- Gwaith cadwraeth ar draws y Parc Cenedlaethol gyda Chymdeithas Eryri.
- Cefnogi Cwmni Nod Glas i sefydlu grŵp gwirfoddoli yn Ninas Mawddwy.
- Teithiau Cerdded Meddylgarwch ar y dydd Sadwrn cyntaf o bob mis.
- Yoga awyr agored 2 waith y mis yn ystod yr haf.
- Ysgol Goedwig yn ystod gwyliau ysgol.
- Sesiynau Coed Actif gyda Coed Lleol yng nghoedwigoedd y Parc Cenedlaethol.
- Cerdded a Gwehyddu
- Taith y mis gyda Warden
- Sesiynau gwirfoddoli misol gyda grwpiau ieuenctid Gwynedd
- Teithiau cerdded misol gyda Pobl i Bobl


Teithiau Cerdded Meddwlgarwch
Guided Mindful Walks
Ymunwch gyda ni ar ein teithiau cerdded meddwlgarwch o gwmpas Parc Cenedlaethol Eryri gyda'r arweinydd Davy Greenough. Wrth fwynhau taith gerdded gymhedrol, byddwn yn cerdded fel grŵp gan fwynhau'r amgylchedd naturiol a bydd amser am seibiant rheolaidd gyda chyfnodau myfyrdod byr.
Join our guided mindful walk around Snowdonia National Park with qualified guide Davy Greenough. Enjoying a moderate walk, we walk as a group enjoying the natural environment and there will be regular stops with short, guided meditations along the way.
Archebwch le drwy sganio'r QR
To book your place scan the QR
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis
First Saturday of every month
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY
eryri.llyw.cymru


Ymunwch â ni y tymor hwn i
BLANNU COED
ym Mharc Cenedlaethol Eryri
Join us this season to
PLANT TREES
in Eryri National Park
COFRESTRWCH HEDDIW / SIGN UP TODAY




Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol yn eich gwahodd i
Gerdded a Gwehyddu
The Eryri National Park Authority invites you to
Walking and Weaving
eryri.llyw.cymru




Taith Gerdded y Mis gyda Warden
Warden's Walk of the Month
Ionawr 28 / January 28
De / South
Chwefror 11 / February 11
Gogledd / North
Mawrth 18 / March 18
De / South
Ebrill 14 / April 14
Gogledd / North
Mai 20 / May 20
De / South
Mehefin 7 / June 7
Gogledd / North
Gorffennaf 21 / July 21
De / South
Awst 9 / August 9
Gogledd / North
Medi 16 / September 16
De / South
Hydref 21 / October 21
Gogledd / North
Tachwedd / November 16
De / South
Rhagfyr 2 / December 2
Gogledd / North
Archebwch eich lle ar ein wefan
Reserve your place on our website
eryri.llyw.cymru


CARU ERYRI CARE FOR SNOWDONIA
YMUNWCH Â'R TÎM
i helpu warchod Eryri haf yma
JOIN THE TEAM
to help care for Snowdonia this summer
• Diwrnodau hel sbwriel cyson pob Dydd Gwener, Sadwrn a Sul
• Gwaith cynnal a chadw llwybro
• Arolygon sbwriel
• Hyfforddiant awyr agored gyda Mike Raine
• Teithiau cerdded gyda arweinydd mynydd
• Regular litter picks every Friday, Saturday and Sunday
• Footpath maintenance days
• Litter surveys
• Outdoor training with Mike Raine
• Mountain walks with mountain leaders
COFRESTRWCH HEDDIW / SIGN UP TODAY


YMUNWCH A'R TÎM
I HELPU I OFALU AM LWYBRAU CERDDED DINAS MAWDDWY
JOIN THE TEAM
TO HELP CARE FOR FOOTPATHS AT DINAS MAWDDWY
• Diwrnodau gwirfoddoli Cadwraeth a chynnal a chadw llwybrau
• Cyfarfod ffrindiau newydd, ymarfer corff a boddhad o wybod eich bod yn gwneud rhywbeth i helpu.
• Footpath Maintenance and Conservation volunteer days
• Meeting new friends, exercise and the satisfaction of knowing that you're doing something to help.
COFRESTRWCH HEDDIW / SIGN UP TODAY


Ioga Awyr Agored
Outdoor Yoga
Ymunwch â ni ar draeth Harlech a Llyn Mair, am sesiwn 2 awr yoga gyda Tracey Jocelyn. Bydd y sesiwn yma'n addas ar gyfer dechreuwyr a rhai mwy profiadol. Os yw'r tywydd yn braf, beth am orffen y sesiwn wrth nofio?
Join us on the beautifully scenic Harlech Beach and Llyn Mair, for a 2 hour yoga session with Tracey Jocelyn. This session is suitable for beginners and experienced yogis alike. If the weather is fine, why not follow it with a swim?
Mawrth / Tuesday - 06/06/23 - Llyn Mair
Dydd Sul / Sunday - 25/06/23 - Traeth Harlech Beach
Dydd Mawrth / Tuesday - 04/07/23 - Traeth Harlech Beach
Dydd Sul / Sunday - 30/07/23- Llyn Mair
Dydd Mawrth / Tuesday - 08/08/23 - Llyn Mair
Dydd Sul / Sunday - 27/08/23 - Traeth Harlech Beach
Am ragor o wybodaeth sganiwch y côd QR gyda chamera eich ffôn clyfar.
For more information scan the QR code with your smartphone camera.
Bydd y sesiynau yn dechrau am 10:00 ac yn gorffen am 12:00
The sessions will start at 10:00 and finish at 12:00
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY
eryri.llyw.cymru


UN BAG GWAHANIAETH MAWR
ONE BAG BIG DIFFERENCE
Ymunwch â Gwanwyn Glân Cymru
17 Mawrth - 2 Ebrill 2023
Join Spring Clean Cymru
17 March - 2 April 2023
caru cymru
Gwanwyn Glân Cymru
Spring Clean Cymru
Ymunwch ag ymgyrch Gwanwyn Glân Cymru wrth i ni reoli sbwriel a darparu gwybodaeth ac arweiniad i ymwelwyr.
Join the Spring Clean Cymru campaign as we manage litter levels and provide information and guidance to visitors.
Y bwriad yw casglu sbwriel oddi ar Yr Wyddfa cyn i'r tymor prysur ddechrau. Gan gerdded 4 o'r llwybrau byddwn yn anelu i gyrraedd y copa ar y diwrnod hwn!
The aim is to collect litter off Yr Wyddfa before the busy season starts. Patrolling 4 of the main routes we will be aiming to reach the summit on this day!
CARU ERYRI CARE FOR SNOWDONIA
Dyddiad / Date:
02/04/2023
Hyd / Duration:
9:00 - 16:00
Lefel ffitrwydd: Heriol
Fitness level: Demanding
eryri.llyw.cymru

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GWIRFODDOLI A LLES

EITEM RHIF 13 - Atodiad 3





# Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Lles


1- **Gwirfoddoli**

1.1– Caru Eryri

1.2– Digwyddiadau Corfforaethol

1.3- Dug Caeredin

1.4- Gwirfoddolwyr Awyr Dywyll

2- **Lles**

2.1 – Dydd Mercher Lles

2.2 – Digwyddiad lles staff

3- **Tramper**

3.1 – trefnir gan APCE

3.2 – trefnwyd gan 1085 Adventures

4- **Targedau Blynyddol**

# 1- Gwirfoddoli

## 1.1 - Caru Eryri

O fis Awst hyd at ddiwedd mis Medi, gan weithio gyda Chymdeithas Eryri, cynhaliodd ein rhaglen wirfoddoli Caru Eryri sesiynau codi sbwriel 4 diwrnod yr wythnos, ar ddydd Mercher, dydd Gwener a thros y penwythnosau.

Bu staff o bob sefydliad partner yn helpu i redeg y cynllun. Ond ni allem fod wedi cyflawni cymaint ag y gwnaethom heb gymorth Arweinwyr Mynydd (AM) cymwys i gynorthwyo gydag arwain grwpiau. Yr adborth gan wirfoddolwyr oedd eu bod wedi cael llawer mwy o fudd o dreulio'r diwrnod gyda'n AM cymwys gan fod ganddynt lawer o wybodaeth leol ddiddorol i'w rhannu, gan olygu bod ein gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd o'u profiad.

Hyfforddiant: Fe wnaethom gynnal pedwar sesiwn hyfforddi Caru Eryri ar Zoom. Mynychodd 80 o wirfoddolwyr y sesiynau. Mae 18 o wirfoddolwyr wedi mynychu Cwrs Cymorth Cyntaf REC a 7 gwirfoddolwr wedi cwblhau Cwrs Hyfforddi Arweinwyr Mynydd.

Mae'r ddelwedd isod yn dangos yr ystadegau rydym wedi'u casglu o'r cynllun.



**Caru Eryri**

**134**
Diwrnod wedi ei wario yn Caru Eryri

**1653**
O oriau gwirfoddoli

**70**
Gwirfoddolwyr

**453**
Bagiau sbwriel wedi hel

**1033**
Kg collected

Trefnwyd y digwyddiadau canlynol ar gyfer gwirfoddolwyr Caru Eryri i ddangos ein gwerthfawrogiad am eu hymrwymiad a'u gwaith caled dros yr haf:

16/11/21 Natur Eryri gyda Mike Raine yng Nghwm Idwal

18/11/21 Sgiliau Mordwyo Oddi ar y Llwybr Arferol gyda Mike Raine yng Nghwmystradllyn

20/11/21 Sgwrs a Thaith Gerdded ar Orffennol Diwydiannol Yr Wyddfa a sgwrs gyda Keith Hulse ym Mhen y Pass

21/11/21 Taith o amgylch Yr Ysgwrn

22/11/21 Taith dywys yn Ninas Emrys gyda Cheidwad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

23/11/21 Taith dywys yn Nolmelynllyn gyda Cheidwad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

04/12/21 Prynhawn i fynegi diolch ym Mhlas Tan Y Bwlch gyda chyflwyniad ar fynediad yn y Parc Cenedlaethol gan Peter Rutherford Rheolwr Mynediad a Lles PCE

**1.2 - Digwyddiadau Corfforaethol**

Parhaodd ein partneriaeth â Sykes Holiday Cottages eleni, lle gofynnwyd i ni drefnu diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer eu staff. Hyd yn hyn rydym wedi cynnal tri digwyddiad gyda chymysgedd o weithgareddau.

13/10/2021 – Clirio rhododendron ar safle yn Nwygyfylchi – 29 o bobl

20/10/2021 – Gwaredu conifferau yng Nghoed Abergwynant ger y Fawddach – 30 o bobl

01/12/2021 – Plannu coed yn Frongoch, Y Bala – 6 o bobl

09/03/2022 – Plannu Coed – penderfynwyd cynnal un digwyddiad plannu coed arall gan fod llawer wedi tynnu allan o'r un diwethaf oherwydd y tywydd ac ymrwymiadau a oedd a wnelo llwyth gwaith cyn y Nadolig.

Mae 3 chorfforaeth arall wedi cysylltu â ni ar gyfer digwyddiadau gwirfoddoli. Mae Finastra o Fangor wedi gohirio oherwydd niferoedd uchel o Covid pan oeddem wedi cynllunio ein digwyddiad. Bydd Constain Consulting yn dod ym mis Mawrth i glirio eithin oddi ar Moel Faban, a phlannu coed ar y Carneddau. Rydym yn gweithio gyda Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau ar y digwyddiadau hyn, sy'n golygu ein bod yn cael ein cefnogi gan staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chymdeithas Eryri i helpu i gynnal y digwyddiadau. Yn olaf, mae gweithwyr y Grid Cenedlaethol yn awyddus i gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli megis codi sbwriel, cynnal a chadw llwybrau troed ac ati, pan fyddant wedi'u lleoli yma (a fydd o fis Ebrill ymlaen am y 5 mlynedd nesaf). Y nod yw darparu cyfleoedd iddynt gyda chynllun Caru Eryri.

### 1.3 - Grwpiau Dug Caeredin

Yn ystod yr haf, fe wnaethom gynnal cwpl o ddiwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau Dug Caeredin trwy'r Cyngor Astudiaethau Maes (FSC) sydd wedi'i leoli yn Rhyd Y Creuau,  Betws y Coed . Ar 29/07/21 daeth criw o 11 o fyfyrwyr i helpu i waredu Jac y Neidiwr ar safle ger afon Glaslyn yn Llanfrothen. Trefnwyd diwrnod cadwraeth arall ar 24/08/21 yng Nghoed Hafod, Llanrwst lle cliriwyd y coetir o goed Celyn ifanc, gyda 22 o fyfyrwyr yn bresennol. Mae'r FSC wedi mynegi diddordeb mewn trefnu mwy o ddiwrnodau cadwraeth gyda ni eto yn y dyfodol sy'n galonogol. Gyda Swyddog Pobl Ifanc newydd yn ei le, y gobaith yw y byddwn yn gallu cynnal mwy o ddigwyddiadau gwirfoddoli cadwraeth ar gyfer grwpiau fel Dug Caeredin.





### 1.4 - Gwirfoddolwyr Awyr Dywyll

Ym mis Medi, mewn cydweithrediad â'n Swyddog Awyr Dywyll - Dani Robertson fe wnaethom lansio rhaglen wirfoddoli newydd i helpu i fonitro awyr yn y nos. Cofrestrodd dros 47 o bobl eu diddordeb yn y rôl newydd drwy lenwi'r ffurflen gais. Fodd bynnag, pan wnaethom gynnal y sesiynau hyfforddi, 1 yng Nghanolfan Groeso Betws y Coed ac un ar-lein dros zoom, daeth cyfanswm o 21 o bobl ar gyfer yr hyfforddiant. Ers hynny, rydym wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwirfoddolwyr, gan ddarparu cefnogaeth a gwybodaeth am gyfleoedd monitro trwy roi gwybod iddynt am amseroedd newydd y lleuad a phryd yw'r adegau gorau i gofnodi darlleniadau. Mae'r rôl wirfoddoli newydd wedi bod yn hynod werthfawr i'n Swyddog Awyr Dywyll a fyddai wedi cael trafferth mynd allan i'r lleoliadau niferus ar draws y Parc Cenedlaethol i gymryd darlleniadau heb gefnogaeth ein Gwirfoddolwyr Awyr Dywyll.

## 2 - Lles

### 2.1 - Digwyddiadau Dydd Mercher Lles

Prosiect peilot oedd hwn i gynnig cyfle i'r cyhoedd archwilio'r buddion lles y gall gweithgareddau fel ioga, cerdded a myfyrio (o dan arweiniad) yn yr awyr agored.

Roedd y sesiynau ar gael i unrhyw un am ddim. Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol, a thrwy feddygfeydd meddygon teulu gyda'n cysylltiadau trwy'r is-grŵp Iechyd Gwyrdd a drefnir gan BCHB. Yr unig gost o gynnal y gweithgareddau hyn oedd talu'r hwyluswyr.

| Dyddiad | Gweithgaredd | Lleoliad | Mynychwyr |
|---|---|---|---|
| 18/08/21 | Ioga Awyr Agored | Llyn Mair | 8 o bobl |
| 25/08/21 | Taith Gerdded Ymwybyddiaeth Ofalgar | Cwm Idwal | 8 o bobl |
| 01/09/21 | Ioga Awyr Agored | Traeth Harlech | 12 o bobl |
| 08/09/21 | Taith Gerdded Ymwybyddiaeth Ofalgar | Cwm Idwal | 10 o bobl |






**2.2 – Digwyddiadau lles i staff**

Trefnwyd taith gerdded ystyriol yn arbennig ar gyfer staff y Ganolfan Groeso (CC) ar gyfer eu cyfarfod diwedd tymor. Roedd hyn yn cynnwys taith gerdded i Domen y Mur a darparwyd cinio gan Caffi Prysor. Roedd y staff yn ddiolchgar iawn, ac roedd yn ymddangos fel petai pawb wedi mwynhau'r profiad. Os oes gan unrhyw staff ddiddordeb byddwn yn fwy na pharod i drefnu taith gerdded ystyriol / ofalgar arall.



**3 -Cerbyd Tramper Anableddau**

3.1 - Mae’r tabl isod yn dangos manylion llogi’r tramperi a drefnwyd gan APCE

| Dyddiad | Lleoliad | Defnyddiwr | Aelod staff |
|---|---|---|---|
| 16/04/2021 | Rhyd Ddu Lôn Gwyrfai | Cwmni Da | Alun Jones |
| 01/06/2021 | Pen y Pass Llyn Llydaw | Gillian Phillips | Alun Jones |
| 01/06/2021 | Llwybr Mawddach | Sarah Ffermwr | Gethin Corps |
| 21/06/2021 | Lôn Gwyrfai | Kristine Jenkins | Alun Jones |
| 06/07/2021 | Llwybr Mawddach | Alastair Henderson | Gethin Corps |
| 16/08/2021 | Rhaeadr Aber | Kristine Jenkins | Alun Jones |
| 16/08/2021 | Llwybr Mawddach | Chris Stone | Gethin Corps |
| 19/08/2021 | Llwybr Mawddach | Dawn Woodhouse | Gethin Corps |
| 09/09/2021 | Llwybr Mawddach | Neil Morris | Gethin Corps |
| 23/10/2021 | Pen y Pass Llyn Llydaw | Steve Potter | Alun Jones |

3.2 - Ein cytundeb gyda 1085 Adventures

Mae’r tramper wedi cael ei logi gyfanswm o 18 o weithiau ers i 1085 Adventures ei gael ar safle Coedwig Beddgelert o dan ein cytundeb ni. Mae tîm 1085 Adventures wedi adrodd bod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn a bod rhai ymwelwyr wedi dychwelyd. Bydd y cytundeb gyda 1085 Adventures yn parhau trwy gydol 2022 gan ychwanegu’r Davinci Terrain Rider unwaith y bydd y deunyddiau hyrwyddo ar gyfer y wefan wedi’u cwblhau.

**4-Targedau Blynyddol**

| Gweithred | Metrigau | Sut yr ydym yn mesur | Pwy fydd yn casglu'r data a sut y bydd yn cael ei adrodd? | Gwaelodlin 2021 | Targed 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| C1 - Darparu ystod amrywiol o gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl o bob gallu | | | | | |
| Creu cyfleoedd a mentrau cefnogi sy'n galluogi pobl ifanc, anabl a phobl sy'n cael eu tangynrychioli i wirfoddoli. | Nifer o wirfoddolwyr (gan gynnwys ffigyrau penodol ar grwpiau targed) | System 'Better Impacts' ac adrodd o'r prosiectau | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nid ydym yn casglu data ar y categoriau yma ar hyn o bryd, ar wahân i oed y gwirfoddolwyr.<br>Demograffig oed gwirfoddolwyr<br>- Dan 18 : 4<br>- 18-30: 88<br>- 30-50: 119<br>- 50+: 163 | *Addasu ffurflen gais gwirfoddoli i gynnwys holiadur ar y categoriau isod.*<br>*Nifer y gwirfoddolwyr*<br>*Pobl Ifanc: 10*<br>*Pobl anabl: 10*<br>*Pobl sydd yn cael eu tangynryciholi: 10* |
| Penodi gwirfoddolwyr â rolau penodol a darparu hyfforddiant yn ogystal â digwyddiadau gwirfoddoli i bobl sy'n methu ymrwymo i rotas rheolaidd. | Nifer o wirfoddolwyr un waith neu rheolaidd<br>Number of one-off and repeat volunteers | Adroddiad siffitiau gwirfoddoli Caru Eryri o Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer o wirfoddolwyr Caru Eryri: 73<br>Nifer o Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 32 | Nifer o wirfoddolwyr Caru Eryri:80<br>Nifer o Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 35 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sefydlu rolau gwirfod-doli newydd mewn meysydd eraill o fewn y PC ar wahân i ardal yr Wyddfa e.e. Wardeini-aid Patrol ardal ddehe-uol. Bydd y recriwtio yn dechrau yn 2021. | Nifer y diwrnod-au gwirfoddoli a gwirfoddolwyr yn ôl lleoliad daeary-ddol eang | Wardeiniaid Gwirfoddol wedi eu recriwtio a'u hyf-forddi cyn dechrau tymor 2022. | Swyddog Gwirfod-doli a Lles ac Uwch Wardeiniaid | *Nifer o ddyddiau gwirfoddoli:*<br>*8 sifft Caru Eryri ar Cader Idris*<br>*4 sifft Caru Eryri ar Llyn Tegid*<br>*Wardeinaid Gwirfoddol y De heb eu recriwtio yn 2021.* | Nifer o ddyddiau gwirfoddoli:<br>Cader Idris – bob penwythnos a gŵyl banc o Ebrill i Medi<br>Nifer o geisiadau ar gyfer Warden Gwirfoddol y De:10<br>*Llwyddiant mewn cadw gwirfoddolwyr gyda phob Warden Gwirfoddol Yr Wy-ddfa yn dychwelyd o'r tymor diwethaf.* |
| Mwy o grwpiau gwirfoddol mewnol ar gyfer: Bioamrywi-aeth, Awyr Dywyll, Prosiectau Cadwraeth (LIFE, Carneddau) a phrosiectau eraill yn y dyfodol. | Nifer y diwrnod-au gwirfoddoli yn ôl adran / pros-iect | System 'Better Impact' ac adroddiadau o'r pros-iectau. | Swyddog Gwirfod-doli a Lles & project staff | Nifer o Wirfoddolwyr Awyr Dy-wyll: 36<br>Nifer o ddyddiau Gwirfoddoli Bio-amrwyiaeth a Coedwigaeth:<br>Nifer o ddyddiau Gwirfoddoli Prosiect y Carneddau:<br>Nifer o ddyddiau Gwirfoddoli Prosiect LIFE: | Targed newydd: Sesiynau garddio misol ym Mhlas Tan y Bwlch gyda tim rheolaidd o 6-10 o wirfoddolwyr.<br>Nifer o Wirfoddolwyr Awyr Dywyll: 40<br>Nifer o ddyddiau Gwirfoddoli Bioam-rwyiaeth a Coedwigaeth:<br>Nifer o ddyddiau Gwirfoddoli Pros-iect y Carneddau:<br>Nifer o ddyddiau Gwirfoddoli Pros-iect LIFE: |
| Bydd Yr Ysgwrn yn dyblu nifer y gwirfod-dolwyr o 15 i 30 trwy gynnal ffeiriau gwir-foddoli a boreau coffi ar y safle i ledaenu'r gair, a hefyd trwy hys-bysebu rolau ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn papurau lleol. | Nifer y diwrnod-au gwirfoddoli<br>yn ôl adran / prosiect | Adroddiad gan staff Yr Ysgwrn | Swyddog Gwir-foddoli a Lles & Rheolwr Treftadeth Ddiwylliannol | Nifer o wirfoddolwyr Yr Ysgwrn: 6<br>*Gan ddefnyddio nifer o ddulliau gwahanol i hysbysebu yr amrywiol swyddogaethau yn Yr Ysgwrn i recriwtio gwirfoddolwyr lleol a dibynadwy. Yn cynnwys: gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Parc Cenedlae-thol. Gwefan Gwirfoddoli Cymru, hysbyse-bion mewn papurau lleol, posteri o amgylch pentref Trawsfynydd.* | Nifer o wirfoddolwyr Yr Ysgwrn: 10-12<br>*Cynnal Fair Wirfoddoli yn yr Ysgwrn ar y 9fed o Ebrill cyn y tymor i helpu recriwtio.* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Parhau i gynnig y Cynllun Ceidwad Ifanc i bobl ifanc 14-16 oed.<br><br>Darperir cefnogaeth a chyngor ar draws y sefydliad i alluogi swyddogion i drefnu a rheoli cyfleoedd gwirfoddoli. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol | Adroddiad gan Warden Ardal | Swyddog Gwirfoddoli a Lles, Warden Ardal, Swyddog Pobl Ifanc. | Disgwyl i'r Swyddog Pobl Ifanc i ail gychwyn y cynllun. | Bydd Swyddog Pobl Ifanc mewn lle. Bydd 12 Warden Ifanc yn cael cynnig y cyfle i gymryd rhan yn y cynllun. |
| Er mwyn hyrwyddo gwirfoddoli gan aelodau a staff, byddwn yn trefnu 2 ddiwrnod gwirfoddoli ar gyfer staff ac aelodau bob blwyddyn. Bydd gan bob aelod o staff yr hawl i wirfoddoli hyd at bymtheg awr y flwyddyn ar gyfer adrannau eraill yn yr Awdurdod | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer staff | Adroddiad gan nifer o ddyddiau gwirfoddoli staff. | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Ni chwblhawyd unrhyw ddyddiau gwirfoddoli staff eleni oherwydd Covid. | Trefnu dau ddigwyddiad gwirfoddoli yn arbennig i staff ac Aelodau gymryd rhan.<br><br>Cynnig y cyfle i staff i wirfoddoli yng nghynllun Caru Eryri. |

| C2 - Ehangu gweithio mewn partneriaeth trwy wirfoddoli yn drawsadrannol ac yn allanol gyda phartneriaid | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu ac annog gweithio gyda grwpiau a noddir yn gorfforaethol ar brosiectau sydd o fudd i'r naill a'r llall. Mae gwirfoddoli corfforaethol yn faes sydd â'r potensial i wirfoddoli dyfu cryn dipyn ac ar gyfer cynhyrchu incwm. Bydd yr arian yn caniatau i ni ail-fuddsoddi mewn gwirfoddoli gan y byddwn mewn gwell sefyllfa i gyflenwi PPE a gwisg i wirfoddolwyr. | Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn diwrnodau gwirfoddol corfforaethol | Adroddiad gan nifer o ddyddiau gwirfoddoli corfforaethol. | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer o wirfoddolwyr corfforaethol: 65 | Nifer o wirfoddolwyr corfforaethol: 80 |
| Parhau i weithio gyda Chymdeithas Eryri a'r Bartneriaeth Awyr Agored i annog mwy o wirfoddoli i gefnogi pwrpasau'r Parc Cenedlaethol (a phartneriaid eraill fel sy'n briodol). | Adroddiad naratif ar gyflawni hyn fel rhan o'r adroddiad blynyddol. | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | *Mae ein perthynas gyda Cymdeithas Eryri, Partneriaeth Awyr Agored a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi mynd o nerth i nerth, nid yn unig o weithio gyda'n gilydd i gyflawni yr un nod drwy gynllun Caru Eryri ond hefyd drwy ddarparu ystod eang o ddyddiau gwirfoddoli cadwraethol i wirfoddolwyr.* | *Parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli ar draws y Parc Cenedlaethol.* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau o leiaf 2 ddiwrnod gwaith gwirfoddol gyda Chymdeithas Eryri bob mis. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli | Adroddiad gan Cymdeithas Eryri<br>Report from Snowdonia Society | | Wedi ei gwblhau.<br>Nifer o ddyddiau gwirfoddoli:<br>Caru Eryri: 134<br>Arall: 5 | *Anelu i gael o leiaf 6 diwrnod gwirfoddoli gyda Cymdeithas Eryri bob mis.* |
| Cydweithio â'r Bartneriaeth Awyr Agored ar ddigwyddiadau gwirfoddoli gyda grwpiau ysgol, teuluoedd ifanc, grwpiau Adra, Cynllun Dug Caeredin, cynlluniau ad-dalu cymunedol, cynlluniau dychwelyd i'r gwaith, gwasanaeth ieuenctid Gisda, Mind Cymru. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer o ddyddiau gwirfoddoli gyda grwpiau Dug Caeredin: 2 | Bydd y nifer o ddyddiau gwirfoddoli gyda grwpiau Dug Caeredin yn cynyddu eleni gyda chymorth Swyddog Pobl Ifanc.<br>Posibilrwydd o weithio gyda grŵp troseddwyr ifanc yr Ynadon ar brosiect y Carneddau.<br>Cydweithio gyda Gorwel ar Brosiect Llesiant Camau Mawr, gan gyfeirio at gyfleoedd gwirfoddoli. |
| Byddwn yn cydweithredu'n strategol â sefydliadau eraill sy'n defnyddio gwirfoddolwyr cadwraeth yn Eryri er mwyn rhannu arfer dda, hyfforddiant ac ati. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli | Adroddiad gan staff Cymdeithas Eryri<br>Report from Snowdonia Society staff | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer o ddyddiau gwirfoddoli gyda Cymdeithas Eryri: | Nifer o ddyddiau gwirfoddolu gyda Cymdeithas Eryri: |

| C3 - Sefydlu ymrwymiad lefel uchel gan wirfoddolwyr sy'n helpu i gyflawni ein dibenion craidd a'n hamcanion corfforaethol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws ardal y Parc Cenedlaethol - rhai am un diwrnod yn unig, a bydd eraill angen ymrwymiad dros nifer o oriau bob mis gan wirfoddolwyr. Bydd ystod amrywiol o weithgareddau sy'n addas ar gyfer ystod eang o wirfoddolwyr, o weithgareddau gwirfoddol actif i gyfleoedd sy'n addas i'r rhai sy'n llai symudol. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | **Cwblhawyd**<br>Nifer o Wirfoddolwyr:70 (Caru Eryri)<br>42 (Wardeiniaid Gwirfoddol)<br>Nifer o ddyddiau gwirfoddoli:<br>134 (Caru Eryri)<br>284 (Wardeinaid Gwirfoddol) | Nifer o Wirfoddolwyr:<br>150<br>Nifer o ddyddiau gwirfoddoli:<br>(shifftiau): 500 |
| Cefnogi'r Gwasanaeth Wardeiniaid i ddefnyddio gwirfoddolwyr. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli yn ôl adran / prosiect a lleoliad daearyddol | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer o ddyddiau Gwirfoddoli<br>Yr Wyddfa= 284<br>Y De (Cader Idris & Llyn Tegid) = 12 | Nifer o ddyddiau Gwirfoddoli<br>Yr Wyddfa= 285<br>Cader Idris = 110<br>*Cydweithio gyda'r gwasaneth Wardeinio i gynnal dyddiau cynnal a chadw llwybrau fel rhan o gynllun Caru Eryri eleni. Bydd yn cynnwys 1 diwrnod cynnal a chadw llwybrau bob mis.* |
| Wardeiniaid Gwirfoddol yn ymgymryd â mwy nag un rôl, gan gynorthwyo o bosibl gyda gweithgareddau ymgysylltu i gynorthwyo teithiau cerdded dan arweiniad y PC pan sefydlir rhaglen newydd. | Nifer y gwirfoddolwyr yn ôl adran | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 42 | Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 45<br>Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Cader Idris: 10<br>Mae Wardeinaid Gwirfoddol yn dod yn arweinwyr tim i wirfoddolwyr Caru Eryri. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Wardeiniaid Gwirfod-dol yn ymgymryd â mwy nag un rôl, gan gynorthwyo o bosibl gyda gweithgareddau ymgysylltu i gynorth-wyo teithiau cerdded dan arweiniad y PC pan sefydlir rhaglen newydd. | Nifer y gwirfod-dolwyr yn ôl adran | | Swyddog Gwirfod-doli a Lles | Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 42 | Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 45<br><br>Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Cader Idris: 10<br><br>Mae Wardeinaid Gwirfoddol yn dod yn arweinwyr tim i wirfoddolwyr Caru Eryri. |
| Cynorthwyo gwirfod-dolwyr sydd wedi gwa-sanaethu ers cyfnod hir yn eu datblygiad personol er mwyn cyflawni elfennau ar gyfer Cymwysterau Safonau Cenedlaethol. Cynnig ystod o fodiw-lau Craidd Elms fesul achos e.e iechyd a diogelwch, diogelwch tân, cymorth cyntaf, trin â llaw, ymsefydlu â'r Parc Cenedlaethol, a diogelu. | Nifer y digwyd-diadau hyfforddi a nifer wedi'u hyfforddi | | Swyddog Gwirfod-doli a Lles | Nifer o wirfoddolwyr sydd wedi mynychu sesiwn hyfforddiant Caru Eryri:80<br><br>Nifer o wirfoddolwyr sydd wedi cwblhau Cwrs Cymorth Cyntaf REC:18<br><br>Nifer o wirfoddolwyr sydd wedi cwblhau cwrs Arweinydd Mynydd;7 | Nifer o wirfoddolwyr sydd wedi cw-blhau hyfforddiant Caru Eryri: 80<br><br>Nifer o wirfoddolwur sydd wedi cwblhau Cymorth Cyntaf REC: Holl wirfoddolwyr<br><br>Nid oes cyllideb ar ôl i gynnig hyf-forddiant Arweinydd Mynydd i wir-foddolwyr y tymor hwn. |

| C4- Datblygu seilwaith priodol ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio dulliau recriwtio effeithiol er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ystod eang o bobl. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Mantell Gwynedd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Conwy a grwpiau diddordeb arbennig eraill. | Nifer y gwirfoddolwyr | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer o wirfoddolwyr sydd wedi cofrestru ar Better Impact: 389<br>Nifer o wirfoddolwyr uniongyrchol: 105 | Nifer o wirfoddolwyr sydd wedi cofrestru ar Better Impact: 450<br>Nifer o wirfoddolwyr uniongyrchol:50 |
| Datblygu proses recriwtio a sefydlu gadarn. Bydd hwn yn ymdrin â phecyn cyflwyno sy'n ymdrin â phob agwedd ar wirfoddoli yn ogystal â chofrestru (gorfodol) yn y Cynllun Llysgenhadon a modiwlau. | Mae'r pecyn cyflwyno wedi'i ddatblygu.<br>Mae'r holl wirfoddolwyr newydd a phresennol wedi derbyn pecyn cyflwyno. | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Wedi ei gwblhau | *Ar wefan newydd y Parc Cenedlaethol, bydd gwirfoddolwyr newydd yn cael eu cyfeirio'n syth i dudalen Better Impact. Bydd hefyd blwch ymholiadau i unigolion, ysgolion, colegau a grwpiau corfforaethol.* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Marchnata ein cyfleoedd gwirfoddoli trwy ddefnyddio'r dulliau canlynol; rhestru'r cyfleoedd sydd ar gael ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn Canolfannau Gwirfoddoli lleol; manteisio ar ddigwyddiadau cyhoeddus er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y cyfleoedd gwirfoddoli; sefydlu tudalen 'cysylltu â ni' ar wefan newydd yr Awdurdod, gan roi gwybodaeth am wirfoddoli gyda'r Awdurdod; rhannu delweddau o weithgareddau gwirfoddoli trwy'r cyfryngau cymdeithasol ynghyd â gwybodaeth ar sut i gymryd rhan. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli.<br><br>Mae tudalennau gwirfoddoli wedi'u sefydlu ar wefan newydd. | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Wedi ei gwblhau | Parhau i ddefnyddio yr un dulliau recriwtio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Parhau i gynnwys diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth am wirfoddoli mewn atodiadau / erthyglau mewn cyhoeddiadau ac adroddiadau, datganiadau i'r wasg, erthyglau sy'n dathlu a diolch i wirfoddolwyr, hysbysebion a deunydd printiedig yn y Canolfannau Ymwelwyr ac ati. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Wedi ei gwblhau<br><br>Straeon Personol Gwirfoddolwyr ar y wefan newydd y Parc Cenedlaethol gan 3 o'n gwirfoddolwyr rheolaidd.<br><br>1 gwirfoddolwr wedi ei enwebu i 'Park Protector Awards'<br><br>Cynllun Caru Eryri wedi ei enwebu ar gyfer 'Extra Mile Award' yn nghylchgrawn GO. | Parhau i ddathlu ein gwirfoddolwyr arbennig.<br><br>Enwebu 7 gwirfoddolwr i gymryd rhan yn Wythnos Genedlaethol Gwirfoddoli yn mis Mehefin. |
| Hefyd, er mwyn sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol â mudiadau sy'n gweithio gyda grwpiau difreintiedig, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Yn yr un modd byddwn yn targedu ysgolion, colegau a chlybiau perthnasol wrth annog pobl ifanc i wirfoddoli. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol | | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Ar hyn o bryd mae'r mwyafrif o grwpiau yn ymholiadau sydd yn dod i mewn. | Byddwn yn cysylltu a sefydliadau penodol yn uniongyrchol pan fydd y gallu yn caniatau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio 'Sign Up' i gydlynu cyfleoedd gwirfoddoli i'r Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa. Rydym wedi cyflwyno system ar-lein newydd o'r enw Better Impact ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr Caru Eryri. Os bydd yn gweithio yn llwyddiannus byddwn yn edrych ar ddefnyddio'r system ar draws prosiectau gwirfoddoli y Parc. | System rheoli gwirfoddolwyr newydd wedi'i sefydlu.<br><br>Defnyddir system rheoli gwirfoddolwyr i fesur ac adrodd ar DPA. | Adroddiad o systemau 'Better Impact' a 'Sign Up'. | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Wedi ei gwblhau<br><br>Bydd Wardeiniaid Gwirfoddol yn parhau i ddefnyddio'r system 'Sign Up' i gydlynu shiffitiau gwirfoddoli. Mae Wardeiniaid gwirfoddol yn gweinyddu hwn eu hunain.<br><br>Mae pob cyfle gwirfoddoli a shifftiau Caru Eryri wedi ei hysbysebu drwy ddefnyddio 'Better Impact'. | Parhau i defnyddio'r feddalwedd Rheolaeth Gwirfoddoli gyfredol |

**Beth sydd i ddod yn y flwyddyn o'n blaenau…**

- Mae cynllun Caru Eryri ar y trywydd iawn i ail ddechrau erbyn y Pasg. Nid ydym yn credu y bydd recriwtio gwirfoddolwyr yn broblem eleni gan fod gennym dros 300 o bobl wedi ymuno â Better Impact. Eleni, yn ogystal â diwrnodau cadwraeth a chynnal a chadw llwybrau troed, mae Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE wedi cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau cadwraeth eraill, gan gynnwys mapio a gwaredu rhododendron, gwaredu Bresych Sgwnc Americanaidd, yn ogystal â Jac y Neidiwr. Trwy wreiddio'r cyfleoedd hyn yn rota Caru Eryri, bydd nid yn unig yn cynnig ystod ddiddorol o gyfleoedd i'n gwirfoddolwyr, ond hefyd yn helpu i brosiect LIFE gyrraedd un o'u Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) i recriwtio a hyfforddi dros 100 o wirfoddolwyr i fonitro safleoedd ar gyfer aildyfiant Rhywogaethau Ymledol Estron (RhYE).
- Bydd Dydd Mercher Lles yn cael eu cynnal unwaith eto ym mis Ebrill, gyda Thaith Gerdded Ymwybyddiaeth Ofalgar yn cael ei threfnu mewn gwahanol ardaloedd ar draws y Parc Cenedlaethol – pob un ar ddydd Mercher cyntaf pob mis hyd at fis Hydref. Bydd sesiynau Ioga awyr agored yn dychwelyd yn ysbeidiol yn Llyn Mair ac ar Draeth Harlech ar ddydd Mercher olaf pob mis. Byddwn hefyd yn trefnu rhywfaint o nofio gwyllt ar ôl y sesiwn yoga – cewch ddewis cymryd rhan yn hyn neu beidio!
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â thîm y Carneddau i drefnu cymaint o ddigwyddiadau gwirfoddoli corfforaethol â phosibl. Sonnir am y digwyddiadau corfforaethol sydd i ddod uchod (1.2).
- Bydd Grŵp cerdded merched newydd o'r enw 'Camau Mawr' yn dechrau ym mis Mawrth 2022. Byddwn yn gweithio gyda Gorwel , i gynnig y cyfle i oroeswyr trais domestig sy'n byw mewn llochesi i gymryd rhan mewn teithiau cerdded misol yn yr awyr agored, i wella sgiliau mynydd, ysbrydoli hunan hyder a lles. Rydym hefyd yn ffodus i gael cefnogaeth y Bartneriaeth Awyr Agored ar y prosiect hwn. Ariennir y prosiect hwn gan gronfa Llwybrau Llesiant.
- Byddwn yn recriwtio ar gyfer rôl wirfoddoli newydd ym mis Mawrth ar gyfer Wardeniaid Gwirfoddol Cader Idris. Rydym yn gweithio'n agos gyda Wardeniaid yr ardal i hyfforddi gwirfoddolwyr i batrolio llwybrau yn Ne Eryri, ac i addysgu ac annog sgiliau cynnal a chadw sylfaenol dodrefn mynediad fel camfeydd a gatiau a draeniau.
- Bydd ein Davinci Terrain Rider newydd yn cael ei lansio i'r cyhoedd a pharatoi'r deunyddiau hyrwyddo ar gyfer ein gwefan newydd.

**Etta Trumper – Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant APCE - Ionawr 2022**

# STRATEGAETH GWIRFODDOLI

## 2021-2026

EITEM RHIF 13 - Atodiad 4



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY



eryri.llyw.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cynnwys** | **2** |
| **Cefndir** | **3** |
| **Buddion Gwirfoddoli** | **5** |
| **Ein Hegwyddorion** | **6** |
| **Y Strategaeth ar gyfer datblygu gwirfoddolwyr** | **7** |
| **Camau Gweithredu** | **9** |
| **Adolygu a Diweddaru** | **14** |
| **Atodiadau** | Error! Bookmark not defined.**5** |


**Covid 19:**

Ysgrifennwyd y strategaeth hon yn ystod cyfnod pandemig Covid 19 sydd wedi dylanwadu ar rai agweddau ar y strategaeth. Gan fod buddion gwirfoddoli o fewn Parciau Cenedlaethol wedi dod yn fwy a mwy pwysig i gymunedau Cymru yn ystod yr amseroedd hyn, byddwn yn ceisio bod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion sy'n dod i'r amlwg fel y bo'n briodol trwy gadw at bolisïau ac urddau Llywodraeth Cymru.

Mae hefyd yn realistig disgwyl y gallai fod rhywfaint o rwystr i gynnydd a gweithgareddau oherwydd cyfyngiadau Covid.

# 1. Cefndir

Mae cymunedau Eryri wedi datblygu traddodiad cryf o wirfoddoli ac mae hyn wedi'i wreiddio mor ddwfn fel nad yw llawer yn sylweddoli eu bod yn wirfoddolwyr mewn gwirionedd. Er enghraifft bob blwyddyn, mae nifer yr Eisteddfodau a gynhelir gymaint ag 17; mae 29 cangen o Merched y Wawr yn yr ardal ac 11 cangen o Sefydliad y Merched; 14 o grwpiau meithrin; 10 Aelwyd / Uwch Adran o'r Urdd a 14 Ffermwyr Ifanc. Cynhelir deuddeg Sioe Wledig bob blwyddyn ac mae yna 9 Papur Newydd Cymunedol; 5 Tîm Achub Mynydd, 3 gorsaf Sefydliad Achub Brenhinol Cenedlaethol (RNLI), 2 gangen o Ramblers Cymru a 70 o Glybiau Chwaraeon Awyr Agored ym Mharc Cenedlaethol Eryri - pob un yn dibynnu ar y gwaith a wneir gan wirfoddolwyr.

Yn ogystal, mae yna nifer o elusennau cenedlaethol yn gweithredu yn Eryri - o ran cadwraeth a threftadaeth, mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol bresenoldeb sylweddol ; mae hefyd nifer o sefydliadau cadwraeth a sefydliadau eraill fel Cymdeithas Eryri, Coed Cadw; RSPB; Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru ac ati. Eto, mae symudiadau a sefydliadau eraill fel Cymorth i Fenywod, y Groes Goch, Ambiwlans St Johns, Cymorth Gofalwyr, Hafal, Cymdeithas Alzheimers, Age Cymru ac ati, i gyd yn dibynnu ar gyfraniadau sylweddol gan wirfoddolwyr i gyflawni eu nodau a'u hamcanion.

Yn wahanol i nifer o Barciau Cenedlaethol eraill, nid oedd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri draddodiad cryf o weithio'n uniongyrchol gyda gwirfoddolwyr. Hyd at y blynyddoedd diwethaf roedd ein prif berthynas yn ymwneud â Chymdeithas Eryri - ac mae'r APC yn gweld gwerth yn ac yn gwerthfawrogi'r berthynas gref a chydweithredol hon. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r staff sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr yn perthyn i'r Gwasanaeth Wardeiniaid, ac hefyd Yr Ysgwrn sydd yn dibynnu ar wirfoddolwyr i weithio ar y safle. Y nod yw ymestyn y defnydd o wirfoddolwyr i bob adran arall yn yr Awdurdod. I'r perwyl hwn, bydd angen cynnal trafodaethau a dyrannu adnoddau i alluogi hyn.

Mae datblygu a hyrwyddo gwirfoddoli wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a ddaeth i rym yn 2015. Mae cynllun 5 ffordd i lesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru (GIG) yn gysylltiedig â gwirfoddoli gan ei fod yn rhoi cyfle i bobl gysylltu â phobl yn y gymuned, bod yn actif, dysgu rhywbeth newydd, rhoi amser i helpu eraill a chymryd sylw. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ar y budd y gall gwirfoddoli gael ar iechyd meddwl.

Daeth Deddf yr Amgylchedd (2016) i rym, sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd a fynegir yn y Ddeddf Llesiant ac sy'n cynnig arweiniad ar reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd gweithio rhyng-gysylltiedig sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r amgylchedd, yr economi a'n cymunedau lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn dod i rym Mawrth 2021. Nod y Ddyletswydd yw annog y broses o wneud penderfyniadau tecach, gan sicrhau bod gan y strategaeth ganlyniadau cyfartal i'r rhai sy'n profi anghydraddoldebau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol.

Wrth weithredu'r strategaeth wirfoddoli byddwn yn gweithio yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Mae gweithgaredd gwirfoddol yn hanfodol i ddatblygu llawer o elfennau a nodwyd yng Nghynllun Eryri. (Cynllun Rheoli statudol y Parc Cenedlaethol 2020-25). Mae'r Strategaeth wedi'i osod i gyd-fynd halinio â chanlyniadau *A5 a *B1 o Gynllun Eryri.

* Allbwn A5: Mae cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol wrth ofalu am gynllun tir, cynefinoedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

* Allbwn B1: Bod y Parc Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles.

# 2. Buddion Gwirfoddoli

- Gall gwirfoddoli ddarparu ystod eang o fuddion gan gynnwys cynnydd mewn cyflogadwyedd, gwell iechyd a lles, a rhyngweithio cymdeithasol.
- Gall gwirfoddolwyr fod yn gaffaeliad mawr i unrhyw sefydliad. Maent yn cyfrannu amser, egni a thalentau a gallant hefyd ennyn brwdfrydedd, darparu sgiliau newydd a gwella ymgysylltiad cymunedol a gallant fod yn llysgenhadon effeithiol i'r Awdurdod.
- Gall gwirfoddoli roi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith. Mae prosiect Wardeiniaid yr Wyddfa eisoes yn sicrhau bod dysgwyr Cymraeg yn cael eu paru â siaradwyr Cymraeg wrth iddynt gyflawni eu rolau gwirfoddoli.
- Gall gwirfoddoli i'r Awdurdod wella dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol a'i bwrpasau, ac fod yn ffordd dda o ymgyfarwyddo'n well ag Eryri a dod o hyd i ffyrdd newydd o fwynhau ei Rhinweddau Arbennig.
- Mae gwirfoddoli yn gyfle i ddatblygu cysylltiadau â chymunedau lleol, sy'n golygu gallen gefnogi'r cymunedau lleol lle bo angen.

**Rhesymau'r Awdurdod dros gynnwys gwirfoddolwyr, yn ei waith yw:**

- er mwyn rhoi cyfleoedd i unigolion a grwpiau o bobl wneud gwahaniaeth, trwy eu sgiliau personol, eu diddordebau a'u brwdfrydedd, i gadwraeth a gwella Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol yn y tymor hir ac er mwyn i'r cyhoedd eu deall a'u mwynhau.
- cynnig persbectif newydd, ffordd newydd o gael mynediad i'r Parc Cenedlaethol, fel y gall pobl sydd wedi coleddu'r ased cenedlaethol hwn ers amser maith roi rhywbeth yn ôl, tra gall y rhai nad ydynt wedi ei ddarganfod eto ddod o hyd i ffyrdd newydd o brofi ei Rinweddau Arbennig.
- galluogi / annog gwirfoddolwyr i ;
  - ddatblygu sgiliau, gwybodaeth neu ddiddordebau a magu hyder i chwarae rhan mwy gweithredol yn eu cymuned eu hunain.
  - datblygu a dilyn mentrau drostynt eu hunain a'u cymunedau, lle byddai'r rhain yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, gan ychwanegu at ansawdd eu bywyd eu hunain
  - Rhannu eu gwell dealltwriaeth amgylcheddol gyda cynulleidfa ehangach
  - mwynhau gweithgareddau diogel, hygyrch a gwerth chweil ac annog a chefnogi eu dinasyddiaeth a'u datblygiad personol.

# 3. Ein Hegwyddorion

**Mae cyfranogiad gwirfoddolwyr yn cael eu tanategu gan yr egwyddorion canlynol**

**Amgylchedd cadarnhaol a chefnogol i wirfoddolwyr.**

Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i drin gwirfoddolwyr yn deg ac i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i hwyluso ein gwaith, megis talu costau teithio, amser staff ac ati. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau diogelwch gwirfoddolwyr trwy sicrhau bod mesurau digonol fel asesiadau risg ar waith a bod gwirfoddolwyr a staff yn dilyn rheoliadau iechyd a diogelwch yr Awdurdod. Byddwn yn sicrhau bod ein gwirfoddolwyr yn cael cefnogaeth a goruchwyliaeth addas. Mae gweithgaredd gwirfoddol yn ffurf gadarnhaol o hamdden; bydd yr Awdurdod yn helpu gwirfoddolwyr i gael boddhad, mwynhad a datblygiad personol, gan ddarparu'r hyfforddiant i'w galluogi i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

**Bod staff a gwirfoddolwyr yn gyfforddus ac yn hyderus i weithio ochr yn ochr â'u gilydd.**

Dylai gwirfoddolwyr ategu a chefnogi staff cyflogedig ac ni ddylid eu defnyddio i gymryd lle staff taledig neu i danseilio eu cyflog na'u hamodau gwasanaeth. Dylai cyfranogiad gwirfoddolwyr fod o fudd i'r ddwy ochr - lle mae gwirfoddolwyr yn ennill profiad yn y sector a lle gallant ategu a chefnogi gwaith staff y PC. Er mwyn prif ffrydio gwirfoddoli yng ngwaith yr Awdurdod, bydd yr Awdurdod yn ychwanegu gweithio gyda gwirfoddolwyr at ddisgrifiad swydd yr holl staff lle mae hyn yn briodol. Bydd yr Awdurdod yn cydnabod yn gyhoeddus ei werthfawrogiad o'r cyfraniad a wneir gan wirfoddolwyr e.e. trwy rannu straeon teithiau gwirfoddoli a threfnu digwyddiad blynyddol i ddathlu eu cyfraniad.

**Rolau amrywiol i bobl amrywiol.**

Bydd yr Awdurdod yn ymrwymedig i ddefnyddio dulliau teg a chynhwysol o ddenu gwirfoddolwyr a sicrhau bod ein gwirfoddolwyr yn adlewyrchu'r gymuned ehangach. Rydym yn ymdrechu i ddatblygu amrywiaeth eang o gyfleoedd gwirfoddoli i alluogi pobl o'r cymunedau lleol ac o grwpiau a chymunedau nad ydynt wedi cymryd rhan yng ngwaith gwirfoddol yr Awdurdod o'r blaen i wneud hynny. Rhoddir anogaeth i bobl o gymunedau lleol a chan grwpiau a chymunedau nad ydynt, o'r blaen, wedi bod yn rhan o weithgaredd gwirfoddol gyda'r Awdurdod. Bydd gwirfoddolwyr yn gallu cyfrannu at bob agwedd o'n gwaith - nid oes cyfyngiad ar y sgiliau a'r arbenigedd y gall gwirfoddolwr eu cynnig.

# Y Strategaeth ar gyfer Datblygu Gwirfoddolwyr

## 4.1 Ein Gweledigaeth

**Darparu ystod eang o rolau a chyfleoedd gwirfoddoli ysgogol a gwerth chweil i gymysgedd amrywiol o bobl a all weithio ochr yn ochr â staff yr Awdurdod i gyflawni ein pwrpasau.**

Pwrpasau statudol yr Awdurdod yw:

- ➔ gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol;
- ➔ hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau Rhinweddau Arbennig yr ardal.

Wrth ddilyn y ddau bwrpas hyn, rhaid i'r Awdurdod geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y parc cenedlaethol.

## 4.2 Canlyniad

**Canlyniad 1** - Darparu ystod amrywiol o gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl o bob gallu

**Canlyniad 2** - Ehangu gweithio mewn partneriaeth trwy wirfoddoli yn drawsadrannol ac yn allanol gyda phartneriaid

**Canlyniad 3** - Sefydlu ymrwymiad lefel uchel gan wirfoddolwyr sy'n helpu i gyflawni ein dibenion craidd a'n hamcanion corfforaethol

**Canlyniad 4** - Datblygu seilwaith priodol ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr

# 5. Y Camau Gweithredu

*Sefydlir llinell sylfaen ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yn 2021 ac yna gosod targedau wedi hynny.*

| **Canlyniad a Rhagwelir** | **Trosolwg o'r gweithredoedd** | **Targed/DPA** |
|---|---|---|
| C1 - Darparu ystod amrywiol o gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl o bob gallu | Creu cyfleoedd a mentrau cefnogi sy'n galluogi pobl ifanc, anabl a phobl sy'n cael eu tangynrychioli i wirfoddoli. | Nifer o wirfoddolwyr (gan gynnwys ffigyrau penodol ar grwpiau targed) |
| | Penodi gwirfoddolwyr â rolau penodol a darparu hyfforddiant yn ogystal â digwyddiadau gwirfoddoli i bobl sy'n methu ymrwymo i rotas rheolaidd. | Nifer o wirfoddolwyr |
| | Sefydlu rolau gwirfoddoli newydd mewn meysydd eraill o fewn y PC ar wahân i ardal yr Wyddfa e.e. Wardeiniaid Patrol ardal ddeheuol. Bydd y recriwtio yn dechrau yn 2021. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli a gwirfoddolwyr yn ôl lleoliad daearyddol eang |
| | Mwy o grwpiau gwirfoddol mewnol ar gyfer: Bioamrywiaeth, Awyr Dywyll, Prosiectau Cadwraeth (LIFE, Carneddau) a phrosiectau eraill yn y dyfodol. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli yn ôl adran / prosiect |
| | Bydd Yr Ysgwrn yn dyblu nifer y gwirfoddolwyr o 15 i 30 trwy gynnal ffeiriau gwirfoddoli a boreau coffi ar y safle i ledaenu'r gair, a hefyd trwy hysbysebu rolau ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn papurau lleol. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli yn ôl adran / prosiect |

| | | |
|---|---|---|
| | Parhau i gynnig y Cynllun Ceidwad Ifanc i bobl ifanc 14-16 oed. Darperir cefnogaeth a chyngor ar draws y sefydliad i alluogi swyddogion i drefnu a rheoli cyfleoedd gwirfoddoli. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol |
| | Er mwyn hyrwyddo gwirfoddoli gan aelodau a staff, byddwn yn trefnu 2 ddiwrnod gwirfoddoli ar gyfer staff ac aelodau bob blwyddyn. Bydd gan bob aelod o staff yr hawl i wirfoddoli hyd at bymtheg awr y flwyddyn ar gyfer adrannau eraill yn yr Awdurdod. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer staff |
| C2 - Ehangu gweithio mewn partneriaeth trwy wirfoddoli yn drawsadrannol ac yn allanol gyda phartneriaid | Datblygu system strwythur a phroses ar gyfer defnydd trawsadrannol o wirfoddolwyr a phrosiectau gwirfoddol e.e. cefnogi'r adran Cadwraeth ac Amaeth | Mae strwythur a phrosesau wedi'u sefydlu a'u hyrwyddo'n dda yn fewnol. |
| | Datblygu ac annog gweithio gyda grwpiau a noddir yn gorfforaethol ar brosiectau sydd o fudd i'r naill a'r llall. Mae gwirfoddoli corfforaethol yn faes sydd â'r potensial i wirfoddoli dyfu cryn dipyn ac ar gyfer cynhyrchu incwm. Bydd yr arian yn caniatau i ni ail-fuddsoddi mewn gwirfoddoli gan y byddwn mewn gwell sefyllfa i gyflenwi PPE a gwisg i wirfoddolwyr. | Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn diwrnodau gwirfoddol corfforaethol |
| | Parhau i weithio gyda Chymdeithas Eryri a'r Bartneriaeth Awyr Agored i annog mwy o wirfoddoli i gefnogi pwrpasau'r Parc Cenedlaethol (a phartneriaid eraill fel sy'n briodol). | Adroddiad naratif ar gyflawni hyn fel rhan o'r adroddiad blynyddol. |
| | Sicrhau o leiaf 2 ddiwrnod gwaith gwirfoddol gyda Chymdeithas Eryri bob mis. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli |
| | Cydweithio â'r Bartneriaeth Awyr Agored ar ddigwyddiadau gwirfoddoli gyda grwpiau ysgol, teuluoedd ifanc, grwpiau Adra, Cynllun Dug Caeredin, cynlluniau ad-dalu cymunedol, cynlluniau dychwelyd i'r gwaith, gwasanaeth ieuenctid Gisda, Mind Cymru. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli |

| | | |
|---|---|---|
| | Byddwn yn cydweithredu'n strategol â sefydliadau eraill sy'n defnyddio gwirfoddolwyr cadwraeth yn Eryri er mwyn rhannu arfer dda, hyfforddiant ac ati. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli |
| | Ymchwilio i gyfleoedd gyda phartneriaid i drefnu diwrnodau hyfforddi achrededig megis adnabod rhywogaethau a daeareg  er mwyn uwchsgilio gwirfoddolwyr. | Nifer y digwyddiadau hyfforddi a nifer wedi'u hyfforddi |
| C3 - Sefydlu ymrwymiad lefel uchel gan wirfoddolwyr sy'n helpu i gyflawni ein dibenion craidd a'n hamcanion corfforaethol | Byddwn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws ardal y Parc Cenedlaethol - rhai am un diwrnod yn unig, a bydd eraill angen ymrwymiad dros nifer o oriau bob mis gan wirfoddolwyr. Bydd ystod amrywiol o weithgareddau sy'n addas ar gyfer ystod eang o wirfoddolwyr, o weithgareddau gwirfoddol actif i gyfleoedd sy'n addas i'r rhai sy'n llai symudol. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol |
| | Cefnogi'r Gwasanaeth Wardeiniaid i ddefnyddio gwirfoddolwyr. Mae'r Gwasanaeth Wardeiniaid wedi bod yn allweddol i wirfoddoli, rheoli Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa a threfnu a rheoli tasgau gwaith. Mae'r ffordd y mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei weinyddu a'i gefnogi yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad i'r gwasanaeth gwirfoddol yn llwyddiannus. Gyda mwy o aelodau staff yn cael eu recriwitio i ymuno â'r gwasanaeth Wardeiniaid mae'n debygol y bydd mwy o gapasiti i wirfoddoli o fewn APCE wrth symud ymlaen. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli yn ôl adran / prosiect a lleoliad daearyddol |
| | Wardeiniaid Gwirfoddol yn ymgymryd â mwy nag un rôl, gan gynorthwyo o bosibl gyda gweithgareddau ymgysylltu i gynorthwyo teithiau cerdded dan arweiniad y PC pan sefydlir rhaglen newydd. | Nifer y gwirfoddolwyr yn ôl adran |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynorthwyo gwirfoddolwyr sydd wedi gwasanaethu ers cyfnod hir yn eu datblygiad personol er mwyn cyflawni elfennau ar gyfer Cymwysterau Safonau Cenedlaethol. Cynnig ystod o fodiwlau Craidd Elms fesul achos e.e iechyd a diogelwch, diogelwch tân, cymorth cyntaf, trin â llaw, ymsefydlu â'r Parc Cenedlaethol, a diogelu. | Nifer y digwyddiadau hyfforddi a nifer wedi'u hyfforddi |
| C4- Datblygu seilwaith priodol ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr | Defnyddio dulliau recriwtio effeithiol er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ystod eang o bobl. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Mantell Gwynedd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Conwy a grwpiau diddordeb arbennig eraill. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol |
| | Datblygu proses recriwtio a sefydlu gadarn. Bydd hwn yn ymdrin â phecyn cyflwyno sy'n ymdrin â phob agwedd ar wirfoddoli yn ogystal â chofrestru (gorfodol) yn y Cynllun Llysgenhadon a modiwlau. | Mae'r pecyn cyflwyno wedi'i ddatblygu.<br>Mae'r holl wirfoddolwyr newydd a phresennol wedi derbyn pecyn cyflwyno. |
| | Marchnata ein cyfleoedd gwirfoddoli trwy ddefnyddio'r dulliau canlynol; rhestru'r cyfleoedd sydd ar gael ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn Canolfannau Gwirfoddoli lleol; manteisio ar ddigwyddiadau cyhoeddus er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y cyfleoedd gwirfoddoli; sefydlu tudalen 'cysylltu â ni' ar wefan newydd yr Awdurdod, gan roi gwybodaeth am wirfoddoli gyda'r Awdurdod; rhannu delweddau o weithgareddau gwirfoddoli trwy'r cyfryngau cymdeithasol ynghyd â gwybodaeth ar sut i gymryd rhan. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli.<br><br>Mae tudalennau gwirfoddoli wedi'u sefydlu ar wefan newydd. |
| | Parhau i gynnwys diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth am wirfoddoli mewn atodiadau / erthyglau mewn cyhoeddiadau ac adroddiadau, datganiadau i'r wasg, erthyglau sy'n | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol |

| | | |
|---|---|---|
| | dathlu a diolch i wirfoddolwyr, hysbysebion a deunydd printiedig yn y Canolfannau Ymwelwyr ac ati. | |
| | Hefyd, er mwyn sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol â mudiadau sy'n gweithio gyda grwpiau difreintiedig, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Yn yr un modd byddwn yn targedu ysgolion, colegau a chlybiau perthnasol wrth annog pobl ifanc i wirfoddoli. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol |
| | Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio 'Sign Up' i gydlynu cyfleoedd gwirfoddoli i'r Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa. Rydym wedi cyflwyno system ar-lein newydd o'r enw Better Impact ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr Caru Eryri. Os bydd yn gweithio yn llwyddiannus byddwn yn edrych ar ddefnyddio'r system ar draws prosiectau gwirfoddoli y Parc. | System rheoli gwirfoddolwyr newydd wedi'i sefydlu.<br><br>Defnyddir system rheoli gwirfoddolwyr i fesur ac adrodd ar DPA. |

# 6. Adolygu a Diweddaru

**Bydd yr Awdurdod yn adolygu effeithiolrwydd y Strategaeth bob 3 blynedd.**

**Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi llwyddo?**

- Bydd llinell sylfaen yn cael ei gosod yn 2021-22 ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)s a nodir yn adran 5, ac adroddir arni bob blwyddyn wedi hynny.

# Atodiadau

## Atodiad: Polisïau a Gweithdrefnau Perthnasol

**YMARFER**

Mae'r nodiadau canlynol yn ymwneud ag agweddau allweddol mewn perthynas â chyfranogiad gwirfoddolwyr.

**Hyrwyddo gwirfoddoli**

**Gellir rhoi' r cyfleoedd canlynol ar waith i hyrwyddo gwirfoddoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri, lle bo hynny'n ddymunol ac yn briodol:**

- Rhoi sylw yng nghyhoeddiadau ac adroddiadau'r Awdurdod, a gwefan yr Awdurdod, gan roi gwybod am gyfleoedd cyffredinol a phenodol gydag adnodd ar-lein i fynegi diddordeb
- Rhoi hysbysiadau a deunyddiau printiedig mewn Canolfannau Croeso a chanolbwyntiau lleol eraill
- Cyhoeddi datganiadau i'r wasg ac atodiadau sy'n dathlu cyflawniadau a gwasanaethau gwirfoddol
- Gosod byrddau 'A' mewn safleoedd gwaith a digwyddiadau cyhoeddus lle mae'r Awdurdod yn cael ei gynrychioli
- Siarad â gwirfoddolwyr profiadol sy' n frwdfrydig
- Cysylltu â sefydliadau defnyddwyr a grwpiau diddordeb arbennig a chydweithio â hwy
- Cysylltu â chanolfannau gwirfoddoli lleol
- Rhoi gwybod am wefannau ac asiantaethau eraill sy'n hyrwyddo gwirfoddoli

**Recriwtio**

**Bydd y broses recriwtio yn cynnwys y camau canlynol, fel arfer;**

1. Derbyn datganiad o ddiddordeb cyffredinol trwy lythyr, galwad ffôn neu e-bost
2. Anfon gwybodaeth bellach am y Parc Cenedlaethol, gwaith yr Awdurdod a chyfleoedd gwirfoddoli presennol / arfaethedig
3. Derbyn ffurflen gais wedi'i chwblhau

4. Cyfarfod ag aelod o staff APCE - mae’r trafodaethau’n cael eu strwythuro bob amser ac yn cael eu hanelu at gytuno ar y ffordd orau i wirfoddolwyr arfaethedig ddefnyddio eu profiad, eu harbenigedd neu eu hamser i helpu'r Awdurdod, eu cymuned neu gorff priodol arall a gwireddu eu potensial eu hunain.

**Cyfleoedd Cyfartal**

Er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb wrth wirfoddoli, bydd yr Awdurdod yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl ifanc - yn enwedig i bobl ifanc lleol a'r rheini sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau sy'n hyrwyddo hunan ddatblygiad a bod yn ddinasyddion da
- Yn lle gosod terfyn oedran, bydd barn y gwirfoddolwyr yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar y gweithgareddau y mae ef neu hi'n cymryd rhan ynddynt
- Bydd cyfleoedd gwirfoddoli addas ar gael i bawb, waeth beth yw eu hiaith, ethnigrwydd neu ddiwylliant
- Gweithio gyda sefydliadau cynrychiadol ac unigolion i annog pobl ag anableddau i gefnogi gwaith yr Awdurdod ac i wasanaethu eu cymuned
- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb i staff a gwirfoddolwyr perthnasol
- Gweithio gyda sefydliadau cynrychiadol ac unigolion i annog a galluogi pobl o gymunedau lleiafrifoeol ethnig i gefnogi gwaith yr Awdurdod, a lle bo'n briodol, i wasanaethu eu cymunedau ar yr un pryd
- Ymdrechu i gael mynediad at fwy o weithgareddau gwirfoddol trwy gyfrwng trafnidiaeth gyhoeddus
- Sicrhau nad yw gwirfoddoli i'r Awdurdod byth yn peryglu cymhwysedd gwirfoddolwr i gael lwfansau neu fudd-daliadau statudol
- Hyrwyddo cydweithio rhwng gwirfoddolwyr yr Awdurdod a phobl o gymunedau lleol
- Ymdrechu i alluogi pobl i wirfoddoli i Barc Cenedlaethol Eryri, hyd yn oed pan nad ydynt yn gallu rhoi o’u hamser oherwydd amgylchiadau personol

**Sesiynau sefydlu a hyfforddiant**

Daperir unai sesiwn anwytho a hyfforddiant neu sesiwn friffio a goruwchwyliaeth ddefnyddiol i bawb sydd yn cael eu derbyn fel gwirfoddolwr.. Mae hyn yn ddibynnol ar hyd y cyfnod gwirfoddoli a gofynion y weithgaredd. Mae’r dibenion ar gyfer y prosesau hyn fel a ganlyn:

- Rhoi dealltwriaeth o amcanion yr Awdurdod, y rheswm dros waith y gwirfoddolwyr a sut mae'n cyd-fynd â rhaglen gyffredinol yr Awdurdod
- Galluogi gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn ddiogel ac yn effeithiol
- Helpu gwirfoddolwyr i ddatblygu'n bersonol, i fwynhau gweithgareddau a'u hannog i barhau i wirfoddoli

**Cytundebau Gwirfoddoli**

Bydd yr Awdurdod yn rhoi ***Cytundeb Gwirfoddoli*** anffurfiol i bob gwirfoddolwr, ar ffurf e-bost neu lythyr, gan nodi'r hyn y gall pob un ei ddisgwyl gan y llall, gan gynnwys, lle bo'n briodol, crynodeb o'r gwaith penodol y bydd y gwirfoddolwr yn ei wneud.

**Cymorth a datrys problemau**

Bydd bob gwirfoddolwr yn cael cymorth a chyngor gan aelod o staff dynodedig a fydd hefyd yn eu helpu i ymdrin ag unrhyw broblemau posib. Gall gwahanol bobl gyflawni'r rôl fentora hon ar wahanol adegau pan fo'r person yn gwirfoddoli i'r Awdurdod.

Bydd unrhyw gŵyn yn erbyn aelod o staff y PC yn cael ei hystyried trwy Bolisi Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth yr Awdurdod. Bydd unrhyw gŵyn yn erbyn gwirfoddolwr yn cael eu hystyried gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol a'r Pennaeth Personél, a fydd yn casglu'r 'dystiolaeth' berthnasol, yn cyfweld y person y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn (gyda chydymaith, os dymunir y person hwnnw), ac yn penderfynu a oes angen cymryd camau angenrheidiol, a pha rai os hynny.

**Iechyd a Diogelwch**

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod a'r codau ymarfer o ran gweithio diogel yn berthnasol i staff y PC, gwirfoddolwyr a myfyrwyr ar leoliadau gwaith (gan gynnwys "plant a phobl ifanc"). Maent i gyd ar gael i'w harchwilio ym mhob un o sefydliadau parhaol yr Awdurdod.

**Bydd pob gwirfoddolwr...**

- yn cael ei friffio ar faterion iechyd a diogelwch yn briodol o ran manyleb, fel rhan o'i raglen ymsefydlu / briffio
- (neu grŵp o wirfoddolwyr) yn cael pecyn cymorth cyntaf sy'n briodol ar gyfer gweithgaredd y dydd.

Bydd pob tasg a safle gwaith wedi bod yn destun asesiad risg. Bydd pawb sy'n goruchwylio gwirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant ynghylch cynnal asesiadau o'r fath. Bydd cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddarparu ar gyfer sefyllfaoedd lle mae angen ychwanegu at ddillad awyr agored arferol y gwirfoddolwr neu lle gallai’r dillad gael eu baeddu neu eu difrodi wrth gael eu defnyddio.

**Yswiriant**

Mae gwirfoddolwyr yn cael eu hyswirio gan yswiriant Damweiniau Personol yr Awdurdod wrth gyflawni tasgau y maent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer.

Nid oes yswiriant Damweiniau Personol ar gael ar gyfer gwirfoddolwyr anffurfiol neu achlysurol. Fodd bynnag, byddai yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr yr Awdurdod yn yswirio’r Awdurdod yn erbyn unrhyw hawliad am esgeulustod, lle dilynir y gweithdrefnau priodol.

Rhaid i unrhyw un sy'n gyrru wrth gyflawni busnes yr Awdurdod sicrhau ei fod wedi’i yswirio gan yr yswiriant (busnes) priodol. Yn unol â hynny, dylid darparu dogfennaeth i'r Awdurdod ymlaen llaw.

**Costau**

Bydd costau teithio gwirfoddolwyr yn cael eu had-dalu:

- ar gyfradd a bennir yn flynyddol ar gyfer teithio mewn car, gyda thâl ychwanegol lle mae gwirfoddolwyr eraill yn cael eu cludo yn yr un car.
- yn llawn lle mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei defnyddio.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu had-dalu am gostau teithio (milltiroedd) perthnasol o fewn ffin y Parc Cenedlaethol, oni bai bod Pennaeth y gwasanaeth perthnasol wedi cytuno ar drefniant arall ymlaen llaw.

Bydd APCE yn ad-dalu costau rhesymol eraill lle cytunir â'r aelod staff perthnasol.

**Cysylltiadau Staff / Gwirfoddolwyr**

Bydd y cyfnod ymsefydlu ar gyfer yr holl staff newydd yn cynnwys sesiwn friffio ar y cymorth gwirfoddol presennol ac arfaethedig sy'n cael ei roi ar waith yr Awdurdod, gyda thrafodaeth ar gyfleoedd i roi cymorth gwirfoddol i waith y swyddog newydd, ac eithrio lle cytunir bod hynny'n amhriodol. Anogir aelodau staff i ystyried gwirfoddolwyr fel cydweithwyr.

Bydd hyfforddiant ynghylch gweithio gyda gwirfoddolwyr, eu goruchwylio neu eu cefnogi yn cael ei roi i aelodau staff a gwirfoddolwyr gyda'i gilydd ac yn ôl yr angen.

**Hunaniaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol**

Mae gwirfoddolwyr profiadol a phobl eraill sy'n gweithio i Awdurdod y Parc Cenedlaethol am unrhyw gyfnod sylweddol yn cael crys polo, siaced â logo, bathodyn ag enw a cherdyn adnabod, neu rai o'r eitemau hyn, fel sy'n briodol. Dylai dillad eraill fod yn briodol ar gyfer cynrychioli'r Awdurdod, yn unol ag amodau gwaith ac yn ôl synnwyr cyffredin. Bydd dillad sy'n cael eu hystyried yn gyfarpar diogelu personol yn cael eu darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle mae angen ychwanegu at ddillad awyr agored arferol y gwirfoddolwr neu lle gallai'r dillad gael eu baeddu neu eu difrodi trwy gael eu defnyddio.

**Yr Iaith Gymraeg**

Bydd angen i wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau rheng flaen ar ran yr Awdurdod naill ai fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu fod yng nghwmni siaradwr Cymraeg rhugl. Byddwn yn annog pobl nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg i wirfoddoli a dysgu'r iaith trwy gynnal sesiynau iaith.

**Diogelu Plant**

Mae Polisi Diogelu Plant yr Awdurdod a'r asesiad risg priodol yn nodi ei fod yn ofynnol i wirfoddolwyr wneud cais am Ddatgeliad i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pennaeth Personél.

**Ymddygiad a chyfrinachedd**

Yn gyffredinol, bydd gwirfoddolwyr yr Awdurdod yn dod ar draws gwybodaeth sensitif yn llai aml na’u cydweithwyr yn y PC. Fodd bynnag, ni ddylai gwirfoddolwyr ei chael hi’n anodd cadw at y disgwyliad eu bod yn trin gwybodaeth a roddir iddynt yn gyfrinachol, lle bo hynny’n briodol.

**Diogelu Data**

Bydd data personol gwirfoddolwyr yn cael ei warchod, fel y disgrifir ym Mholisi Diogelu Data’r Awdurdod. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei gofrestru fel Rheolwr Data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac mae'n cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol diogelu data fel y nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 (GDPR). Mae gan wirfoddolwyr hawl i dderbyn copi o'u data personol eu hunain trwy gyflwyno Cais Mynediad Personol.

**EITEM RHIF 14**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 10fed o Orffennaf, 2024 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD ADLEWYRCHU CYNLLUN YR WYDDFA, 2024** |
| **ADRODDIAD GAN** | Catrin Glyn, Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed gan Gynllun Yr Wyddfa ers ei lansio yn 2018, a'i hysbysu o'r broses o adolygu'r cynllun. |

## 1. CEFNDIR

### 1.1 Lansio Cynllun Yr Wyddfa yn 2018

Datblygwyd Cynllun Yr Wyddfa gan Bartneriaeth Yr Wyddfa sef grŵp o sefydliadau sy'n cydweithio'n agos â'i gilydd ar Yr Wyddfa ac o'i chwmpas. Arweiniwyd y gwaith hwn gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) ac fe lansiwyd y Cynllun yn 2018 yn dilyn proses ymgynghori eang gyda chymunedau, defnyddwyr y mynydd, partneriaid a grwpiau lleol o ddiddordeb. Cytunwyd ar y weledigaeth isod, gyda phob partner yn ymroi yn llwyr i anelu tuag ati ac i weithredu'r pwyntiau o fewn y cynllun gweithredu.

Noder er nad yw'r gwaith o greu cynllun rheolaeth ar gyfer Yr Wyddfa yn broses statudol, mae proffil uchel y mynydd a phwysigrwydd Yr Wyddfa yn golygu fod cynllun partneriaeth o'r fath yn hanfodol.

### 1.2 Gweledigaeth Partneriaeth Yr Wyddfa

Byddwn yn cydweithio i ofalu am harddwch ac etifeddiaeth eithriadol Yr Wyddfa ac i sicrhau ecosystem iach a chynhyrchiol lle mae gwasanaethau integredig yn cydweithio i ddiwallu anghenion tymor hir yr amgylchedd lleol, cymunedau, diwylliant a phrofiad ymwelwyr.

Byddwn yn gweithredu i warchod ei chymeriad unigryw, gan sicrhau bod pobl yr ardal yn cael eu cynnwys, ac yn cyfrannu er eu budd eu hunain ac er budd yr economi leol.

Ein nod yw gweld pawb yn parchu, mwynhau, deall a gofalu am y mynydd a'i amgylchedd.

## 1.3 Prif Brosiectau

Mae sawl prosiect wedi deillio o'r ymgynghoriad cychwynnol hwnnw gan gynnwys: Cylchdaith Yr Wyddfa, Ap Llwybrau'r Wyddfa, Rhaglen Llysgennad Eryri, Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen (gan gynnwys system rhagarchebu ym Mhen y Pass), menter Yr Wyddfa Ddi-blastig a gwella isadeiledd (e.e. uwchraddio toiledau a gosod sgriniau gwybodaeth digidol mewn mannau penodol).

## 2. ADRODD I'R AELODAU

Mae Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa a'r Rheolwr Partneriaethau wedi adrodd yn ôl i'r Aelodau yn gyson ers lansio'r cynllun yn 2018. Gweler isod restr lawr o'r achosion hynny:

- → Awdurdod, Gorffennaf 2019 – Diweddariad Cynllun Yr Wyddfa.
- → Gweithgor, Medi 2020 - Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth.
- → Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, Tachwedd 2020 – Diweddariad Cynllun Yr Wyddfa.
- → Gweithgor, Ebrill 2021 – Diweddariad Cynllun Yr Wyddfa.
- → Gweithgor, Hydref 2021 - Diweddariad Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth.
- → Gweithgor, Hydref 2022 – Diweddarid Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth.

Gan i'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth gymryd blaenoriaeth dros y blynyddoedd diwethaf, ac i Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa fod i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth yn ystod 2023, nid oes diweddariad uniongyrchol ar y cynllun yn ei gyfanrwydd wedi bod ers 2021. Serch hynny mae cylchlythyron cyson wedi eu cyhoeddi drwy gydol y cyfnod.

## 3. CYNNYDD

Gweler **Atodiad 1: Adroddiad Adlewyrchu Cynllun Yr Wyddfa** am ddiweddariad ar sut mae Partneriaeth Yr Wyddfa wedi ymdrin â'r pwyntiau gweithredu a nodwyd yn y cynllun gwreiddiol ers ei lansio yn 2018.

## 4. PROSES ADOLYGU

Y bwriad wrth lansio'r cynllun gwreiddiol oedd cynnal proses adolygu bob 5 mlynedd. I'r perwyl hwn bydd y cynllun yn cael ei adolygu eleni gyda'r gobaith o lansio fersiwn ddiwygiedig cyn haf 2025.

Mae Adroddiad Adlewyrchu Cynllun Yr Wyddfa yn sylfaen gref ar gyfer y broses adolygu o ran gweld beth sydd wedi ei gyflawni, beth sydd dal angen ei wneud, yn ogystal ag adnabod unrhyw fylchau a phrosiectau newydd sydd angen eu cysidro yng nghyd-destun y weledigaeth.

Bydd y broses hon yn cael ei gweithredu law yn llaw gyda staff perthnasol APCE, partneriaid, rhanddeiliad a'r cymunedau pan fod hynny'n briodol. Bydd y gwaith rhoi ystyriaeth lawn i bolisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn cyfrannu tuag at y broses o adolygu ein prif gynlluniau statudol sef Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Bwriedir i adolygu'r canlynol:

1. Aelodaeth Partneriaeth Yr Wyddfa
2. Rhanddeiliaid Partneriaeth Yr Wyddfa
3. Yr Wyddfa heddiw (data)
4. Yr heriau
5. Themâu'r cynllun
6. Y cynllun gweithredu
7. Sut y byddwn yn cadw golwg ar gynnydd
8. Dangosyddion llwyddiant
9. Unrhyw faterion eraill perthnasol.

Mae'r gwaith wedi ei ddechrau yn fewnol gyda gweithdy cychwynnol staff wedi ei gynnal ar y 14eg o Ebrill, 2024 i drafod y canlynol: ydi'r weledigaeth yn parhau'n addas, heriau, adolygu partneriaid/rhanddeiliaid a pherthnasau gweithio newydd.

## 5. CAMAU NESAF

- → Cynnal gweithdy gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i drafod y canlynol: ydi'r weledigaeth yn parhau'n addas, heriau, adolygu partneriaid/rhanddeiliaid a pherthnasau gweithio newydd.
- → Adolygu'r cynllun gyda'r bwriad o lansio fersiwn ddiwygiedig cyn haf 2025.

## 6. ARGYMHELLION

1. Derbyn Adroddiad Adlewyrchu Cynllun Yr Wyddfa fel adroddiad cynnydd ar waith y bartneriaeth ers lansio Cynllun Yr Wyddfa yn 2018.
2. Nodi fod y broses o adolygu Cynllun Yr Wyddfa wedi dechrau ac y bydd yr Aelodau yn derbyn diweddariadau llawn a chyson.

ITEM NO. 14 - Appendix

# ADOLYGIAD ADLEWYRCHU

## CYNLLUN YR WYDDFA, 2024

Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa: Catrin Glyn



SNOWDONIA NATIONAL PARK

PARC CENEDLAETHOL ERYRI

eryri.llyw.cymru

# Dadansoddiad

## Prif lwyddiannau

Ers sefydlu Cynllun Yr Wyddfa yn 2018 mae'r Bartneriaeth wedi wynebu un o gyfnodau mwyaf heriol ein sector pan darodd y pandemig yn 2020. Search hynny, mae'r Bartneriaeth wedi cyflawni'r mwyafrif o'r pwyntiau gweithredu ag ymrwymwyd iddynt ac wedi profi llwyddiannau ysgubol. Dros y blynyddoedd diwethaf, daeth y Bartneriaeth yn fforwm effeithiol i rannu gwybodaeth, adnabod cyfleoedd cydweithio a rhannu adnoddau. Erbyn hyn mae gan y Bartneriaeth brofiad helaeth o arwain ar brosiectau arloesol, mynd i'r afael a heriau dwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Wrth adlewyrchu ar y gwaith sydd wedi ei gyflawni mae llwyddiannau amlwg i'w dathlu megis y canlynol: peilot arloesol Rhodd Eryri gyfrannodd tuag at gynnal a chadw'r llwybrau, ail-frandio a gwelliannau sylweddol i rwydwaith Sherpa'r Wyddfa, system rhagarchebu ym Mhen y Pass, gwasanaeth ychwanegol y T10 yn Ogwen, hyfforddi dros fil o unigolion a pherchnogion busnes drwy gynllun Llysgennad Eryri, ap Llwybrau'r Wyddfa, cynlluniau Wardeiniaid Gwirfoddol a Charu Eryri a datblygiad cyffroes menter Yr Wyddfa Ddi-blastig.

## Heriau

Mae'r Bartneriaeth wedi wynebu sawl her ers sefydlu Cynllun Yr Wyddfa ac yn parhau i brofi heriau newydd yn gyson. Mae Cofid 19 wedi trawsnewid nid yn unig ffyrdd o weithio a chyfarfod, ond gwelwyd newid ym mhatrymau ymweld ymwelwyr i'r Wyddfa ag i Eryri. Mae effaith hyn ar waith y Bartneriaeth wedi bod yn eithriadol o ddylanwadol ac wedi golygu newid trywydd o dro i dro. Enghraifft o'r newid hyn ydyw fod mwy wedi darganfod lleoliadau oedd yn gymharol ddistaw o ran ymwelwyr pan lansiwyd y Cynllun gwreiddiol, sydd wedi rhoi rhai o gymunedau o gwmpas ardal Yr Wyddfa o dan bwysau sylweddol. Er bod yr effeithiau yn rai cyfarwydd (sbwriel, campio gwyllt, cŵn yn rhydd, parcio anghyfreithlon), roedd y niferoedd uchel yn chwyddo'r effeithiau i lefelau na welwyd o'r blaen. Daethpwyd hyn a heriau nad oedd llawer o son amdanynt cyn y pandemig i'r wyneb megis cerbydau gwersylla yn aros dros nos mewn amryw o leoliadau ar draws y Parc, baw dynol ar Yr Wyddfa, nofio yn yr awyr agored a deheuad pobl i fod wrth ddŵr e.e. Afon Cwm Llan.

Un o'r prosiectau mwyaf heriol heb os nag oni bai yw'r prosiect parcio a thrafnidiaeth. Er bod y gwaith amlasiantaethol hwn yn profi'n heriol iawn ar brydiau, mae partneriaethau gweithio effeithiol wedi ei datblygu a'i meithrin, ac mae gwelliannau wedi eu profi ar lawr gwlad mewn amser cymharol fyr. Search hynny, mae disgwyliadau partneriaid a chymunedau yn uchel ac mae datrys y mater yn parhau'n dalcen caled i'r Bartneriaeth.

Yn ychwanegol i hyn oll, mae'r diffyg buddsoddiad yn golygu nad yw'r adnoddau na'r arian gan y Bartneriaeth i fedru cyflawni rhai o bwyntiau gweithredu yn y tymor byr e.e. prosiect parcio a thrafnidiaeth, cysylltedd ffôn. Search hynny, mae'r hyn sydd wedi ei gyflawni dros y chwe blynedd ddiwethaf yn achos i'w ddathlu ac yn gosod sylfaen gref i'r Bartneriaeth ar gyfer parhau gayda'r gwaith hollbwysig hwn.

Adroddiad Adlewyrchu Cynllun Yr Wyddfa: Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa

Noder fod y gweithredoedd a restrir yn y golofn gyntaf wedi eu cynnwys air am air yng Nghynllun Yr Wyddfa. Crynodeb yn unig yw'r tabl hwn o waith sydd wedi ei gyflawni gan APCE a Phartneriaeth Yr Wyddfa ers lansio Cynllun Yr Wyddfa yn 2018. Os am fwy o fanylion am unrhyw fater sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn cysylltwch â Catrin Glyn, Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa: catrin.glyn@eryri.llyw.cymru.

| | Gweithredoedd Cynllun Yr Wyddfa | Statws | Gweithredu pellach |
|---|---|---|---|
| Gweithgareddau, Anturiaethau ac Addysg Awyr Agored<br>Gweledigaeth: Parchu'r mynydd, pobl, cymunedau a diwylliant yr ardal, a thwristiaeth | | | |
| 1. | Cynnwys y gymuned a rhanddeiliaid yn natblygiad Cylchdaith Yr Wyddfa a blaenoriaethu'r rhannau i'w datblygu. | Mae'r llwybr cyhoeddus o Ben Y Pass i lawr i orsaf bŵer Nant Gwynant wedi'i gwblhau. | → Adolygu opsiynau a chwmpas pellach ar gyfer rhannau anorffenedig.<br>→ Cwblhau'r rhan nesaf o'r Orsaf Bŵer i lawr i Lyn Gwynant ac ymlaen i eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Hafod y Llan. O'r fan honno, ymuno â'r rhan sydd eisoes wedi'i gwella tuag at Feddgelert. Mae ymgynghoriadau ar y gweill ar hyn o bryd.<br>→ Uwchraddio llwybr Rhyd Ddu trwy fferm Ffridd Uchaf i adleoli'r llwybr ceffylau presennol i gysylltu'n uniongyrchol â Lon Gwyrfai.<br>→ Parhau i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid wrth i'r prosiect ddatblugu. |
| 2. | Cyngor Gwynedd, CBS Conwy ynghyd ag APCE, Cyfoeth Naturiol Cymru, a grwpiau cymunedol sefydledig i gydweithio i wella cyfathrebu a chydlynu digwyddiadau, a datblygu adnodd canolig ar gyfer trefnwyr digwyddiadau. | → Gofyniad cofrestru newydd ar gyfer digwyddiadau wedi'u trefnu a gwell trefn o rannu gwybodaeth gyda'r trefnwyr mewn modd canolog a chyson.<br>→ Grŵp newydd wedi ei sefydlu yn sgîl COVID-19 ar gyfer rhannu datganiadau ar ran yr holl bartneriaid perthnasol o dan arweiniad Cyngor Gwynedd. | Yn digwydd |

## Adroddiad Adlewyrchu Cynllun Yr Wyddfa: Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa

Noder fod y gweithredoedd a restrir yn y golofn gyntaf wedi eu cynnwys air am air yng Nghynllun Yr Wyddfa. Crynodeb yn unig yw'r tabl hwn o waith sydd wedi ei gyflawni gan APCE a Phartneriaeth Yr Wyddfa ers lansio Cynllun Yr Wyddfa yn 2018. Os am fwy o fanylion am unrhyw fater sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn cysylltwch â Catrin Glyn, Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa: catrin.glyn@eryri.llyw.cymru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. | Datblygu Cynlluniau Wardeiniaid Gwirfoddol a Cheidwaid Ifanc i annog wardeiniaid ifanc a gwirfoddolwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth ynghylch y Côd Cefn Gwlad, sgiliau mynydda a pherchnogaeth gyfrifol ar gŵn. | **Wardeiniaid Gwirfoddol:** Cynllun yn eistedd o fewn yr Adran Wardeinio ac wedi datblygu'n sylweddol ers 2014. Cynigir pecyn gwybodaeth a nifer o gyrsiau hyfforddiant gan gynnwys Cymorth Cyntaf, natur leol a sesiwn gyda Thîm Achub Llanberis. Erbyn hyn mae 50 gwirfoddolwr rheolaidd gyda thimau allan 3 gwaith yr wythnos rhwng y Pasg a hanner tymor Hydref (dydd Sadwrn/Sul/Mercher a Gwyliau Banc). Yn ogystal â phatrolio'r 6 llwybr, mae'r gwirfoddolwyr yn mynd â'r fan wybodaeth i'r mannau poblogaidd (e.e. Nantgwynant).<br><br>Caru Eryri: Cynllun wedi ei ddatblygu fel ymateb i Cofid 19 ond yn parhau i gael ei weithredu. Mae'r cynllun yn cynnwys hyfforddi gwirfoddolwyr i ddod yn arweinwyr gwirfoddol, sy'n golygu arbed arian drwy beidio gorfod talu Arweinwyr Mynydd.<br><br>Bydd siaradwr rhugl Cymraeg a dysgwr/rhywun di-gymraeg yn cael eu paru os yn bosib.<br><br>Meddalwedd rheoli gwirfoddolwyr '*Better Impact*' wedi ei sefydlu i reoli'r holl wirfoddolwyr (Wardeiniaid Gwirfoddol a Caru Eryri). Dros 700 o unigolion ar y | **Wardeiniaid Gwirfoddol:** Bwriad i gynnal a chadw'r gwasanaeth.<br><br>**Caru Eryri:** Parhau i gydweithio ar y cynllun gan addasu'n flynyddol yn dilyn adborth gan y gwirfoddolwyr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | system. Hyn yn galluogi'r swyddogion i reoli'r data a chofnodi oriau gwirfoddol yn fwy cywir ac mewn modd mwy effeithiol.<br><br>Ail-lansiwyd y Cynllun Ceidwaid Ifanc yn 2022 sy'n cynnal un digwyddiad y mis sy'n gyfuniad o hanner diwrnod o waith cadwraeth (e.e. plannu coed, clirio rhywogaethau ymledol, hel sbwriel ayyb), neu waith addysgiadol (e.e. ymweld â lleoliadau o bwys fel Yr Ysgwrn/Amgueddfa Lechi), a hanner diwrnod o weithgareddau awyr agored (e.e. cerdded ceunant, dringo ayyb. Cynhaliwyd ymweliad preswyl yn Rhyd Ddu ac fe gaeth 2 ymweld â Denmarc drwy Gynllun Ceidwaid Ifanc Rhyngwladol Eurocamp.<br><br>Mae 35 ar y rhestr gyda 27 unigolyn yn cymryd rhan yn rheoliad yn y gweithgareddau. Mae'r mwyafrif yn dod o ogledd y Parc (Bethesda, Dinas, Caernarfon, Bangor, Blaenau Ffestiniog), tua 3 o dde'r Parc (Y Bala, Dolgellau, Tywyn), a 5 yn dod o du allan i ffiniau'r Parc (Llandudno/Conwy/Llanelwy).<br><br>Mae eu cefndiroedd yn amrywio o: yn ymwneud fel rhan o Wobr *Duke of Edinburgh*, Ffermwyr Ifanc, yn fyfyrwyr coleg neu ysgolion bonedd, o'r tu allan i'r | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | system addysg yn gyfan gwbl (e.e. wedi eu cyfeirio gan Bernados), a rhai ag anghenion ychwanegol iechyd meddwl gyda chymysgedd o siaradwyr Cymraeg a dysgwyr. | |
| 4. | Datblygu cyfleoedd iechyd a lles drwy'r grŵp "Cael Gogledd Cymru i Symud". | → Cyfres o ddigwyddiadau meddylgarwch/llesiant e.e. yoga, Ysgol goedwig, teithiau cerdded/meddylgarwch.<br>→ Yn dueddol o osgoi'r Wyddfa oherwydd yr angen am leoliadau tawel/heddychlon.<br>→ Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant yn cynrychioli'r Awdurdod ar grŵp *Nature and Wellbeing Community of Interest* ac yn diweddaru'r grŵp ar agweddau llesiant a'r cyfleoedd sydd ar gael yn Eryri. Pwrpas y cyfarfod yw bod y Swyddogion Iechyd yn cael eu diweddaru ac yn rhannu'r wybodaeth gyda'u cleientiaid a'u cymunedau. | Parhau gyda'r gwaith hwn. |
| 5. | Yn ôl y gofyn, trwsio a gwella llwybrau'r ucheldir i ansawdd da ac i safon tirwedd sensitif. | Mae'r Adran Wardeinio yn gyfrifol am y gwaith parhaus o gynnal a chadw'r llwybrau. Gallai'r gwaith hwn ar Yr Wyddfa gynnwys: gwneud llwybrau mewn mannau serth yn fwy diogel drwy wneud gwaith pitsio dros y graig i wella cyfeiriad llwybr, gwaith draenio a gwaith arbenigol o osod cerrig *(stone pitching)*.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth gyda | Mae'r gwaith hwn yn waith parhaus ond enghraifft o weithiau ar y gweill yw: trafodaethau am waith sylweddol ym Mwlch y Moch i geisio dargyfeirio cerddwyr rhag dilyn y llwybr tuag at Grin Goch, a gwelliannau i Lwybr Watkin (ar frig y llwybr). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Chymdeithas Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Bartneriaeth Awyr Agored ar gyfleoedd gwirfoddol i gynnal a chadw llwybrau e.e. clirio draeniau (Caru Eryri). | |
| 6. | Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a dysgwyr sy'n gweithio yn y sectorau awyr agored a gwirfoddol, ac annog a chefnogi'r defnydd a dathlu'r Gymraeg. | Cynhaliwyd hyfforddiant gosod cerrig *(stone pitch)* er mwyn cynyddu'r nifer o unigolion gyda'r sgiliau arbenigol i wneud y gwaith. Roedd yr hyfforddiant hwn wedi ei drefnu ar y cyd rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ag APCE ac fe'i mynychwyd gan 10 o unigolion gan gynnwys pobl leol a siaradwyr Cymraeg.<br><br>Annog gwirfoddolwyr Caru Eryri i gyflawni'r hyfforddiant Llysgennad Eryri sydd yn cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg a phwysigrwydd yr iaith yn yr ardal.<br><br>Nifer o wirfoddolwyr Caru Eryri wedi cyflawni hyfforddiant Llysgennad Eryri:<br><br>Efydd: 51<br>Arian: 2<br>Aur: 68 | |
| 7. | Pwyntiau ailgylchu ger bob man mynediad ac annog defnydd o gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio, ar y cyd gyda chynllun cymhelliant i gael gwared â sbwriel o'r | → Yn dilyn adroddiad gan *Share Impact* a *Travel Without Plastic*, y pwynt gweithredu hwn wedi ei adolygu a'i integreiddio i fenter Yr Wyddfa Ddi-blastig. | → Swydd Swyddog Di-blastig wedi ei hymestyn.<br>→ Cynhadledd Copa 1 gydag ieuenctid yr ardal.<br>→ Datblygu syniadau a sbardunwyd gan Copa |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mynydd drwy grŵp Wyddfa Lân. | → Swyddog Yr Wyddfa Ddi-blistig wedi ei benodi ar gytundeb 2 flynedd.<br>→ Gweithio ochr yn ochr â busnesau, cymunedau ac ysgolion i sicrhau bod neges gref yn cael ei chyflwyno ar sail dealltwriaeth glir.<br>→ Cynllunio'r dynodiad Di-blastig<br>→ Cefnogi busnesau yn yr ardal i gyrraedd y statws di-blastig.<br>→ Gwaith ymgysylltu gyda'r sector amaeth.<br>→ Gwella casglu data a chreu system monitro prosiect e.e. cydweithio ag Ysgol Newid Ymddygiad Prifysgol Bangor.<br>→ Ymgyrch Mabinogi.<br>→ Banancam – codi ymwybyddiaeth am sbwriel organig.<br>→ Cynnal arbrawf tynnu bin o faes parcio Cwellyn yn gyfan gwbl.<br>→ Gosod ffynhonnau ail-lenwi ym Mhen y Pass, Rhyd Ddu a Phont Bethania. | 1.<br>→ Ymgyrch Com-B gyda Phrifysgol Bangor.<br>→ Cynllunio etifeddiaeth i'r prosiect.<br>→ Siop Swop. |
| Seilwaith a Gwasanaethau Ymwelwyr<br>Gweledigaeth: Seilwaith ardderchog a gwasanaethau cydgysylltiedig | | | |
| 8. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd yn cydlynu arolwg o anghenion defnyddwyr gyda busnesau twristiaeth yn cyflwyno gwybodaeth ynghylch cludiant a pharcio. Defnyddio canlyniadau i adolygu a gwella'r gwasanaeth Sherpa. | Comisiynwyd Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth lawn ar gyfer ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen.<br><br>Cyflwynwyd yr argymhellion i bartneriaid, cymunedau a sefydliadau gan sicrhau cefnogaeth mewn egwyddor i'r weledigaeth | Mae'r swyddog a'r Rheolwr Partneriaethau yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau fod gwelliannau i'w gweld ar lawr gwlad. Er bod y gwaith amlasiantaethol hwn yn heriol ac yn hynod amrywiol, mae partneriaethau gweithio effeithiol yn cael eu meithrin gan y swyddog a'r Rheolwr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | hirdymor.<br><br>Sicrhawyd cefnogaeth gan Drafnidiaeth Cymru a llwyddwyd i gynnal ymgynghoriad cymunedol eang a rhoi rhai o'r argymhellion cychwynnol ar waith<br><br>Y math o welliannau sydd wedi eu gweithredu hyd yn hyn yw: system rhagarchebu ym Mhen y Pass, system parcio a theithio yn Ogwen, gwell rheolaeth parcio ar yr A5 yn Ogwen ac yn Nantgwynant, cyflwyno gwasanaeth rheolaidd y T10 drwy Ddyffryn Ogwen, ailfrandio a gwelliannau i wasanaeth Sherpa'r Wyddfa, a negeseuon teithio cynaliadwy ar wefannau cyfryngau cymdeithasol APCE. | Partneriaethau.<br><br>Grŵp mewnol parcio a thrafnidiaeth APCE yn cyfarfod yn rheolaidd.<br><br>Mae Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa yn eistedd ar Grŵp Trafnidiaeth Parciau Cenedlaethol y DU – fforwm ar gyfer rhannu syniadau a dysgu am fentrau yn ymwneud â thrafnidiaeth mewn parciau cenedlaethol eraill.<br><br>Yn ogystal â'r uchod, sefydlwyd Grŵp Gweithredu i ymdrin â materion strategol yn ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth sy'n cynnwys y partneriaid allweddol (Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac APCE). Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd ers ei sefydlu yn ystod 2022 ac yn trafod manylion strategol e.e. cynnwys lleoliadau posib ar gyfer parcio a theithio yn y 3 CDLl. |
| 9. | Busnesau i annog ymwelwyr i ddefnyddio'r Sherpa. | Mae modiwl ar dwristiaeth gynaliadwy (gan gynnwys manylion llawn am drafnidiaeth i mewn ac o gwmpas y Parc) o fewn cynllun Llysgennad Eryri. | Diweddaru cynllun Llysgennad Eryri yn flynyddol/yn ôl yr angen i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y rhwydwaith bysiau – gan ddefnyddio ffigyrau diweddaraf Trafnidiaeth Cymr - . |
| 10. | Gweithio'n agosach gyda chwmnïau tacsis i gyflwyno gwasanaeth sy'n cyd-fynd â gwasanaeth y Sherpa. | Fe ymgynghorwyd gyda'r cwmnïau tacsi yn ystod y broses o ysgrifennu'r adroddiad parcio a thrafnidiaeth. | Mae'r drefn hon yn parhau ac yn gweithio'n dda. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Wrth i'r system rhagarchebu fynd yn fyw yn 2021 rhoddwyd system swyddogol mewn lle ar gyfer tacsis yn safleoedd Pen y Pass a Nant Peris. Gosodwyd arwyddion yn y ddau leoliad yn nodi mai dim ond 2 dacsis a ganiatawyd i aros ar y tro ym Mhen y Pass, a 5 ar y tro yn Nant Peris. Cafwyd adborth cychwynnol gan yrwyr bysiau Gwynfor Coaches yn datgan pryderon am y tacsis yn denu cwsmeriaid a fyddai fel arall wedi defnyddio'r gwasanaeth bysiau, fodd bynnag, roedd newid yn y farn hon wrth i'r tymor fynd yn ei flaen wrth i werth y gwasanaeth a gynigir gan y tacsis ddod yn fwy amlwg. | |
| 11. | Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chynghorau Gwynedd a Chonwy i gydweithio a sicrhau digon o fannau parcio sy'n cael eu cydlynu a'u hysbysebu'n dda | Gweler pwynt 8. Seilwaith a Gwasanaethau Ymwelwyr. | Gweler pwynt 8. Seilwaith a Gwasanaethau Ymwelwyr. |
| 14. | Astudiaeth i wella cyfleusterau ymwelwyr ym Mhen y Pass. | Gohiriwyd y gwaith hwn gan roi blaenoriaeth i'r adolygiad parcio a thrafnidiaeth a gweithredu'r argymhellion oedd yn deillio o'r adolygiad. Penderfynwyd adolygu'r angen am astudiaeth o'r fath ym Mhen y Pass, law yn llaw a'r gwaith parcio a thrafnidiaeth. | Dim cynlluniau ar hyn o bryd |
| 15. | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio technoleg newydd ar gyfer gwella cysylltedd ffôn/wi-fi. | Comisiynwyd adolygiad cwmpasu i archwilio opsiynau ar gyfer gwella'r cysylltiad wi-fi ar y mynydd. Daeth yr | Yn dilyn adroddiad cychwynnol ar brosiect posib yn dod a'r holl ddata sydd ar gael ynghyd er mwyn creu cynnig digidol i ymwelwyr (ar |

Noder fod y gweithredoedd a restrir yn y golofn gyntaf wedi eu cynnwys air am air yng Nghynllun Yr Wyddfa. Crynodeb yn unig yw'r tabl hwn o waith sydd wedi ei gyflawni gan APCE a Phartneriaeth Yr Wyddfa ers lansio Cynllun Yr Wyddfa yn 2018. Os am fwy o fanylion am unrhyw fater sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn cysylltwch â Catrin Glyn, Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa: catrin.glyn@eryri.llyw.cymru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adolygiad i'r casgliad y byddai datblygu cysylltiad wi-fi ar draws y mynydd cyfan yn gostus ac yn heriol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Felly, penderfynwyd rhyddhau'r gyllideb sy'n weddill i'w defnyddio ar brosiectau perthnasol e.e. prosiectau digidol yn deillio o'r adolygiad parcio a thrafnidiaeth. | ffurf ap), parhau mewn trafodaethau gydag Arloesi Gwynedd Wledig i weld sut allwn ddatblygu'r prosiect hwn ymhellach.<br><br>Gwaith yn mynd rhagddo gan eraill yn yr ardal e.e. mastiau yn cael eu codi mewn rhai lleoliadau. |
| Yr Economi Wledig a Chymunedau'r Ardal<br>Gweledigaeth: Economi leol iach a ffyniannus sy'n gwasanaethu trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd | | | |
| 16. | Swyddog Partneriaeth i helpu, i arwain ar brosiectau dwyieithog ac i gyfathrebu a phobl yn yr ardal ar ran y Bartneriaeth. | **Gardd Beddgelert -** Gwaith wedi ei wneud yn clirio a phlannu blodau gwyllt. Dyddiau gwirfoddol wedi eu cynnal e.e. dyddiau corfforaethol gan gwmnïau fel Tesco a gyda'r ysgolion lleol. | Y prosiect hwn yn parhau mewn cydweithrediad â'r Cynghorydd lleol. |
| 17. | Cyflogi Swyddog Partneriaeth. | Penodwyd Swyddog Partneriaeth. Cafodd y swydd ei ariannu am dair blynedd gyda chyfraniadau gan y partneriaid ond erbyn hyn mae'r arian yn dod o gyllideb ganolog APCE. Mae'r swydd bellach yn swydd barhaol o fewn yr adran Partneriaethau. | The role is evolving as we look forward. |
| 18. | Y Swyddog Partneriaeth i ymestyn y gwaith gyda thirfeddianwyr, rheolwyr tir a busnesau'r ardal. | Y gwaith hwn yn cael ei weithredu o dan brosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig - gweler pwynt 7. | Y gwaith yn parhau drwy fenter Yr Wyddfa Ddi-blastig. |
| 19. | Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu brand lleol ac i annog defnyddio a hyrwyddo cynnyrch lleol. | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. |
| 20. | Cefnogi a hybu cyfleoedd ar gyfer swyddi dwyieithog o safon uchel yn y sector gwasanaethu. | Gweler pwynt 32. | Gweler pwynt 32. |

## Adroddiad Adlewyrchu Cynllun Yr Wyddfa: Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa

Noder fod y gweithredoedd a restrir yn y golofn gyntaf wedi eu cynnwys air am air yng Nghynllun Yr Wyddfa. Crynodeb yn unig yw'r tabl hwn o waith sydd wedi ei gyflawni gan APCE a Phartneriaeth Yr Wyddfa ers lansio Cynllun Yr Wyddfa yn 2018. Os am fwy o fanylion am unrhyw fater sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn cysylltwch â Catrin Glyn, Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa: catrin.glyn@eryri.llyw.cymru.

| Gofalu am Yr Wyddfa<br>Gweledigaeth: Amgylchedd iach a ffyniannus | | | |
|---|---|---|---|
| 21. | Gweithredu Cynllun Rhodd Ymwelwyr a'i hyrwyddo ymhellach i gynnwys cysylltu â digwyddiadau awyr agored, busnesau ac atyniadau lleol. | → Gweithredwyd cynllun peilot Rhodd Eryri ym mis Gorffennaf 2016, ac erbyn mis Mawrth 2018, roedd 53 o fusnesau wedi cofrestru.<br>→ Yn ystod y 6 mis cyntaf, rhoddwyd £3,250.<br>→ Yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18, codwyd £10,500 yn ychwanegol, gyda APCE yn darparu cyllid ar sail punt am bunt ar gyfer gwella llwybr troed Cwellyn.<br>→ Comisiynwyd adolygiad gwerthuso opsiynau gan Gyngor Gwynedd i ddadansoddi cynlluniau cyfraniadau ymwelwyr yn y dyfodol. | Yr adroddiad wedi ei gyflwyno i broses ymgynghori cenedlaethol ar system ardoll arfaethedig - disgwyl penderfyniad gan Lywodraeth Cymru. |
| 22. | Datblygu trefniadau i'r gymuned leol fod yn rhan o'r penderfyniad ynghylch sut i neilltuo arian a godir trwy roddion gan ymwelwyr. | Fel yr uchod. | Fel yr uchod.<br><br>Y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gan Bartneriaeth Cynllun Economi Ymweld Gwynedd ag Eryri. |
| 23. | Gosod gwell byrddau gwybodaeth (mewn mannau addas), sgriniau rhyngweithiol, datblygu gwefan a datblygu nwyddau a dulliau eraill o gyfathrebu, megis taflenni, llythyrau ac e-bost i wella'r wybodaeth am amgylchedd naturiol Yr Wyddfa, yr ymgysylltiad â'r amgylchedd a'r ddealltwriaeth ohono. | Paneli dehongli dros dro wedi ei gosod nes bydd polisi a chanllawiau paneli wedi ei ffurfio gan APCE.<br><br>Gwefan, cylchlythyrau, llyfrynau gwybodaeth, podlediadau, posteri, fidios, posteri tu ôl i ddrysau'r toiledai wedi ei dylunio a'u rhannu dros gyfnod y cynllun. | Unwaith fydd y polisi yn weithredol, fe gynhelir arolwg o gyflwr paneli gan flaenoriaethu pa rai i'w cwblhau gyntaf ar sail cyflwr. |

Noder fod y gweithredoedd a restrir yn y golofn gyntaf wedi eu cynnwys air am air yng Nghynllun Yr Wyddfa. Crynodeb yn unig yw'r tabl hwn o waith sydd wedi ei gyflawni gan APCE a Phartneriaeth Yr Wyddfa ers lansio Cynllun Yr Wyddfa yn 2018. Os am fwy o fanylion am unrhyw fater sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn cysylltwch â Catrin Glyn, Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa: catrin.glyn@eryri.llyw.cymru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24. | Trafod, datblygu, cefnogi a hyrwyddo prosiectau cadwraeth ac awyr-dywyll arloesol ac effeithiol, a chyfleoedd ymchwil ar y cyd gan ddefnyddio gwirfoddolwyr i ehangu cynhwysedd. | Wedi cydweithio ar sawl achlysur gyda'r Swyddog Awyr Dywyll e.e. digwyddiad Awyr Dywyll ym Mhlas Tan y Bwlch fel rhan o ddathliad blynyddol rhaglen Llysgennad Eryri.<br><br>Drwy brosiect Coedwigoedd Celtaidd LIFE mae 547.83ha. o waith trin Rhododendron Ponticum wedi ei wneud ers Awst 2018, o fewn Ardal Gadwraeth Arbennig Eryri yn ardal Nantgwynant.<br><br>Gwaith gwaredu Rhododendron Ponticum a Laurel drwy chwistrellu bonyn, chwistrellu dail a thorri a chipio - tua 1280m²/0.128h - cyllido drwy arian craidd yr Adran Amaeth.<br><br>Coed yr Eryr – gwaith yn mynd ymlaen ers 2016 wedi derbyn ei drydydd cam yn ystod 2024. Y safle cyfan yn 60ha gyda mwy o waith i'w wneud ar y safle.<br><br>Ers lansio Cynllun Yr Wyddfa mae'r grantiau canlynol wedi'u dyfarnu yn ardal Yr Wyddfa:<br>→ 262m o ffensys/17m o crawiau llechi.<br>→ 1634m o ffensys/755m o ffens i orlenwi Llyn Cwellyn.<br>→ Cwch Gwenyn "Byzz Eryri".<br>→ Ffens naid ar hyd darnau o'r wal terfyn yn Coed Victoria, Llanberis – 380m – | Estyniad i brosiect LIFE tan 2027.<br><br>Yr Adran Amaeth yn parhau i gefnogi ffermwyr drwy grant craidd yr adran sydd yn cyfrannu tuag at waith adfer amrywiol megis waliau cerrig sych, plannu/plygu/bon-docio gwrychoedd a ffensio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyllido drwy'r grant *Ancient Woodland*.<br>→ Ffensio i greu blociau pori ar lethrau Yr Wyddfa i hwyluso pori gyda buchod – 1600m – cyllido drwy brosiect Lleoedd Lleol ar Gyfer Natur.<br>→ Adfer wal gerrig sych yn ardal Betws Garmon - 110m² - cyllido drwy raglen SLSP Terfynau Traddodiadol Eryri<br>→ Prosiect Bioamrywiaeth 2021/22 - Maes Parcio Nant Peris - Ffens ddwbl a phlannu coed a chreu dolydd blodau gwyllt. | |
| 25. | Hwyluso a chefnogi unrhyw dirfeddianwyr sydd am dreialu cynlluniau gwasanaethau ecosystem ar Yr Wyddfa. | Ansefydlogrwydd yn y sector yn dilyn Brexit wedi arwain at oedi mewn cynlluniau o'r fath. | Yr Adran Amaeth yn parhau i gefnogi ffermwyr drwy grant craidd yr adran sydd yn cyfrannu tuag at waith adfer amrywiol megis waliau cerrig sych, plannu/plygu/bon-docio gwrychoedd a ffensio. Mae'r adran yn agored i gefnogi unrhyw brosiectau newydd o'r fath ar gais y ffermwyr os yw'r gyllideb yn caniatáu. |
| 26. | Sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle i gasglu data ar gyfer adran 'Dangosyddion Llwyddiant' y Cynllun. | → Arolwg Yr Wyddfa wedi ei wneud yn 2013, 2015, 2017.<br>→ Arolwg ar draws y Parc wedi ei gyflawni yn 2021.<br>→ Ymgynghoriadau cyhoeddus sylweddol wedi eu cynnal fel rhan o'r gwaith parcio a thrafnidiaeth<br>→ Data wedi ei gasglu drwy amrywiaeth o adroddiadau megis: cynllun cyfathrebu, | Bydd arolwg cynhwysfawr yn cael ei gynnal ar Yr Wyddfa rhwng Awst a Medi 2024 i gynhorthwy'r Bartneriaeth i lunio elfennau o'r rhaglen waith ar sail tystiolaeth. |

Noder fod y gweithredoedd a restrir yn y golofn gyntaf wedi eu cynnwys air am air yng Nghynllun Yr Wyddfa. Crynodeb yn unig yw'r tabl hwn o waith sydd wedi ei gyflawni gan APCE a Phartneriaeth Yr Wyddfa ers lansio Cynllun Yr Wyddfa yn 2018. Os am fwy o fanylion am unrhyw fater sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn cysylltwch â Catrin Glyn, Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa: catrin.glyn@eryri.llyw.cymru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adroddiad *Share Impact* a *Travel Without Plastic*, menter Yr Wyddfa Ddi-blastig.<br>→ Derbyn data gan bartneriaid e.e. data sbwriel gan Gymdeithas Eryri a gan Dîm Achub Llanberis. | |
| Gwybodaeth i Ymwelwyr<br>Gweledigaeth: Profiad cynaliadwy o'r radd flaenaf yn y byd i ymwelwyr | | | |
| 27. | Datblygu pecyn offer i gyfuno ein negeseuon ynglŷn â pharch, diogelwch, campio gwyllt, iaith, diwylliant a threftadaeth. Integreiddio ar draws gwefannau, gwybodaeth leol a chyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys fan gwybodaeth symudol i'w lleoli mewn mannau strategol yn yr ardal. | Wedi datblygu amrywiaeth eang o ddeunyddiau cyfathrebu ar gyfer ymwelwyr e.e. pamffledi campio gwyllt, pamffledi Nantgwynant, rîls, postiau amrywiol cyson, cardiau maint waled yn cynnwys manylion Mentra'n Gall. | 2 ddarn o waith ymgysylltu sylweddol ar y gweill fel rhan o Gynllun Economi Ymweld Gwynedd ag Eryri. |
| 28. | Creu tudalen we yn benodol i'r Wyddfa, un adnodd gwybodaeth yn cael ei rannu'n gyson ym mhob man gan bob partner. Bydd y pwynt gwybodaeth ganolog yn bwynt cyswllt i'r Canolfannau Croeso a phwyntiau gwybodaeth a bydd amrywiaeth eang o bobl yn cael eu hannog i'w ddefnyddio. | Angen ei adolygu. | Tanysgrifiad gyda *Wordpress* yn dod i ben mis Awst 2024. Angen cynnal adolygiad ar y cyd gyda'r tîm cyfathrebu i weld beth yw'r ffordd orau ymlaen o ran cynnwys manylion am waith y bartneriaeth. Hynny i ddigwydd cyn Awst 2024. |
| 29. | Archwilio hyfywedd datblygu ap Yr Wyddfa o safon uchel a'i hyrwyddo'n eang. | Ap wedi ei ddatblygu ers 2020 ac yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol gyda'r wybodaeth ddiweddaraf a negeseuon y Parc.<br><br>20.3 mil wedi ei lawrlwytho ar ddyfeisiadau Apple ers Mehefin 2020 (ffigwr hyd at Fehefin 2024) | Parhau i ddiweddaru'r ap o leiaf unwaith y flwyddyn a sicrhau fod yr ap yn cydymffurfio gydag unrhyw bolisïau/reolau newydd sy'n codi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 11, 206 mil wedi ei lawrlwytho ar ddyfeisiadau Android ers Mehefin 2020 (Ffigwr hyd at Fehefin 2024)<br><br>Incwm net (llai ffioedd/comisiwn) fesul blwyddyn ariannol:<br><br>2020 1,711.98<br>2021 6,698.34<br>2022 11,601.07<br>2023 8,962.47<br>2024 121.16 (hyd yn hyn) | |
| 30. | Paratoi cynllun cyfathrebu ar gyfer Partneriaid Yr Wyddfa. | Wedi ei gyflawni gan gwmni Spencer David ar ddechrau oes y Cynllun a'r argymhellion wedi eu rhoi ar waith ac wedi llywio cyfeiriad y Bartneriaeth yn y dyddiau cynnar. | Parhau i gydweithio ar amryw o ymgyrchoedd cyfathrebu gyda'r Adran Cyfathrebu a'r partneriaid amrywiol e.e. cydweithio gyda Eryri Bywiol ar godi ymwybyddiaeth am negesauon Mentra'n Gall ymysg ymwelwyr â Llanberis.<br><br>Cefnogi'r gwaith cyfathrebu ar gyfer tymor ymwelwyr 2024 ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd. |
| 31. | Gweithio gyda Grwpiau Rheolaeth Cyrchfan Conwy a Gwynedd ar strategaeth Twristiaeth gydol flwyddyn e.e. cyfeirio at 'tymor yr haf a'r gaeaf' yn hytrach nag at dymor tawel, a hyrwyddo a chefnogi digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn y tymor estynedig. | Y gwaith hwn wedi esblygu fel rhan o waith Ecomomi Ymweld Gynaliadwy Eryri a Gwynedd.<br><br>Ym mis Tachwedd 2021, sefydlodd Cyngor Gwynedd ac APCE bartneriaeth arloesol i ddiogelu a gwarchod dyfodol cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. | Y Bartneriaeth yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun Strategol dros y 10 mlynedd nesaf a thu hwnt. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ym mis Tachwedd 2021, arwyddodd Cyngor Gwynedd ac APCE 'Femorandwm o Ddealltwriaeth' sy'n nodi sut y byddwn yn cydweithio gyda'n gilydd a phartneriaid eraill i ddatblygu cynlluniau gweithredu a mesur, rhannu arfer da a chytuno ar Gynllun Economi Ymweld Cynaliadwy.<br><br>Mae ymgynghori helaeth wedi digwydd gyda'r canlynol: y sector economi ymweld, Partneriaeth Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd, Aelodau Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, sefydliadau cyhoeddus, cynghorau cymuned ac unigolion.<br><br>Bellach mae'r Cynllun Strategol wedi ei gyflawni.<br><br>Mae'r strwythyr newydd yn cynnwys:<br>→ Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac<br>→ Bwrdd Llywio Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri<br>→ Bwrdd Llywio | |
| 32. | Cefnogi creu 'canolfan cerdded y gaeaf', gwyliau bwyd, ffeiriau, marchnadoedd Nadolig, gwyliau cerdded | Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2019 gan gwmni Blue Chip & RJS Associate, cafodd y canlynol eu hadnabod fel amcanion posib i'r dyfodol o ran yr Economi Ymweld:<br>→ Ymestyn y tymor twristiaeth | Fel yr uchod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | → Cynyddu gwariant ymwelwyr fesul ymweliad<br>→ Gwella ansawdd profiad yr ymwelwyr<br>→ Rheoli twristiaeth er budd cymunedau ac amgylchedd Gwynedd.<br>→ Hyrwyddo ymarfer cyfrifol, cynaliadwy ymysg y sector a'i gwsmeriaid<br>→ Datblygu naws am le Gwynedd (gan gynnwys ei diwylliant, ei threftadaeth a'r iaith Gymraeg) | |
| 34. | Gweithio gyda phartneriaid megis Cymdeithasau Twristiaeth, Plas y Brenin, digwyddiadau Cymdeithas Eryri. Annog a chefnogi digwyddiadau a gweithgareddau i redeg yn ddwyieithog | Yn digwydd. | Yn digwydd. |
| 35. | Annog a chefnogi digwyddiadau a gweithgareddau trefnedig dwyieithog | APCE yn noddi Ras y Plant Ras Yr Wyddfa yn flynyddol ers sawl blwyddyn ac yn cefnogi'r brif ras gyda'r adnoddau sydd ar gael.<br><br>Anogaeth i drefnwyr digwyddiadau gofrestru eu digwyddiadau gyda'r Cyngor/APCE ble can eu cynghori ar sicrhau parch i'r Gymraeg.<br><br>Ym mis Hydref '23 ymunodd grŵp o berchnogion busnes, trefnwyr digwyddiadau, arweinwyr mynydd a lleisiau allweddol o'r sector Awyr Agored ag APCE mewn gweithdy rhyngweithiol i gynhyrchu drafft cyntaf fframwaith archwilio ar gyfer y | Parhau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | sector digwyddiadau awyr agored. Trwy gysoni'r negeseuon di-blastig gyda darparwyr lleol yn yr ardal, yn ogystal â chraffu ar y defnydd o blastig untro mewn digwyddiadau a rasys, gall APCE gynyddu effaith a chynyddu cyrhaeddiad menter Yr Wyddfa Ddi-blastig. | |
| 36. | Datblygu cynllun cenhadon | Rhaglen Llysgennad Eryri wedi ei sefydlu ac yn datblygu'n flynyddol.<br><br>Digwyddiadau wyneb yn wyneb amrywiol wedi eu trefnu i gydfynd â wythnos addysgu oedolion,<br><br>Rydym yn rhannu gwybodaeth allweddol yn gyson gyda'n Llysgenhadon, a gwahoddwyd ein Llysgenhadon i dderbyn Pecyn Cyfathrebu Llysgennad Eryri ar y thema twristiaeth gynaliadwy yn ystod 2023.<br><br>Hyd yma, mae dros 270 o Lysgenhadon Aur wedi ailgymhwyso yn 2024 ers rhyddhau'r modiwl ailgymhwyso newydd ddechrau Ionawr 2024. | Parhau i gynnal a chadw'r gwasanaeth drwy ddiweddaru'r cynnwys yn flynyddol (neu yn ôl yr angen) a datblygu cynnwys newydd. |